HM Government

# Prydain Fyd-eang mewn oes gystadleuol

## Yr Adolygiad Integredig o Bolisi Diogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Thramor



CP 403

HM Government

# Prydain Fyd-eang mewn oes gystadleuol

## Yr Adolygiad Integredig o Bolisi Diogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Thramor

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Prif Weinidog drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2021

CP 403

Llun y clawr: haul yr haf dros y DU
Cydnabyddiaeth: Tim Peake/ESA/NASA

© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn:
www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk

ISBN: 978-1-5286-2453-4
CCS: CCS0221035122 03/21

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi'u hailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan yr APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


**I. Rhagair gan y Prif Weinidog** **3**

*Gweledigaeth y Prif Weinidog ar gyfer y DU yn 2030* 6

**II. Trosolwg** **10**

**III. Yr amgylchedd diogelwch gwladol a rhyngwladol hyd 2030** **23**

**IV. Fframwaith Strategol** **33**

**1. Cynnal mantais strategol drwy wyddoniaeth a thechnoleg** **35**

1.1 Tyfu pŵer y DU o ran gwyddoniaeth a thechnoleg 35

1.2 Pŵer seiber cyfrifol, democrataidd 40

**2. Siapio trefn ryngwladol agored y dyfodol** **44**

2.1 Grym er daioni: cefnogi cymdeithasau agored ac amddiffyn hawliau dynol 47

2.2 Economi fyd-eang gadarn agored 51

2.3 Ehangu'r drefn ryngwladol agored i feysydd newydd yn y dyfodol 55

*Y DU yn y byd: gwlad Ewropeaidd â buddiannau byd-eang* 60

*Y gogwydd Indo-Basiffig: fframwaith* 66

**3. Cryfhau diogelwch ac amddiffyn gartref a thramor** **69**

3.1 Gwrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol: amddiffyn, ymyrryd ac atal 70

*Yr atalfa niwclear* 76

3.2 Gwrthdaro ac ansefydlogrwydd 79

3.3 Diogelwch gartref a heriau i ddiogelwch trawswladol 80

**4. Meithrin cadernid gartref a thramor** **87**

4.1 Meithrin cadernid cenedlaethol y DU 88

4.2 Delio â'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth 89

4.3 Meithrin cadernid iechyd 93

**V. Gweithredu'r Adolygiad Integredig** **96**

**Atodiad A: Blaenoriaethau'r Adolygiad Integredig a ariannwyd yn Adolygiad o Wariant 2020** **100**

**Atodiad B: Tystiolaeth ac ymgysylltu** **106**

**Atodiad C: Rhestr termau** **110**

# I. Rhagair gan y Prif Weinidog



Wrth i ni ddechrau'r Adolygiad Integredig yn gynnar yn 2020, ni fyddem wedi gallu rhag-weld y modd y byddai coronafeirws yn achosi argyfwng rhyngwladol sydd y gwaethaf o bosibl ers yr Ail Ryfel Byd, a chanlyniadau trychinebus a fydd yn para am flynyddoedd i ddod. Mae COVID-19 wedi ein hatgoffa bod bygythiadau i ddiogelwch a phrofion ar wydnwch cenedlaethol yn gallu bod o lawer math.

Diolch i gadernid pobl Prydain ac ymdrechion aruthrol ein GIG, mae'r DU yn dod allan o'r pandemig gyda phenderfyniad a gobaith newydd. Rydym eisoes wedi cychwyn ar ein ffordd at adferiad ac rydym yn benderfynol o **ailgodi'n gryfach**, gan sicrhau y byddwn yn **gadarnach, yn fwy diogel ac yn fwy ffyniannus** nag o'r blaen. Er hynny, os ydym i ddianc rhag effaith niweidiol y feirws, ni fydd y ras i frechu ac felly i amddiffyn pobl yn gallu dod i ben wrth ffiniau cenedlaethol. Dyma pam mae'r DU wedi ymuno â gwledydd eraill ym menter COVAX i ehangu'r ymgyrch hon ledled y byd.

Ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae'r DU wedi dechrau ar bennod newydd yn ein hanes. Byddwn yn agored i'r byd, yn rhydd i droedio ein llwybr ein hunain, yn ffodus yn ein rhwydwaith byd-eang o ffrindiau a phartneriaid, gyda'r cyfle i ffurfio cysylltiadau newydd a dyfnach. Mae ein Cytundeb Masnach a Chydweithredu â'r UE yn rhoi rhyddid i ni wneud pethau'n wahanol ac yn well, yn economaidd ac yn wleidyddol. Yn y blynyddoedd nesaf, drwy **weithredu'n ystwyth a diymdroi** byddwn yn gallu mynd â'r maen i'r wal ar ran ein dinasyddion, gan wella ein ffyniant a'n diogelwch.

Mae fy ngweledigaeth ar gyfer y DU yn 2030 yn gosod nodau uchelgeisiol i'w cyflawni gan y wlad hon. Mae'r Undeb **rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi profi ei werth dro ar ôl tro**, yn cynnwys yng nghyfnod y pandemig hwn. **Dyma brif ffynhonnell ein cryfder** gartref a thramor. Mae ein gwlad yn gyforiog o greadigedd yn y celfyddydau a'r gwyddorau: y seiliau i **bŵer meddal unigryw** sy'n rhychwantu'r byd.

Ychydig o wledydd sydd mewn lle gwell i ddelio â'r heriau sydd o'n blaen, ond rhaid i ni fod yn barod i newid ein ffyrdd o weithredu ac ymaddasu i'r byd newydd sy'n datblygu o'n cwmpas. Rhaid i gymdeithasau agored a democrataidd fel y DU ddangos eu bod **yn barod ac abl ar gyfer byd mwy cystadleuol.** Rhaid i ni ddangos bod y rhyddid i siarad, meddwl a dewis – ac felly arloesi – yn cynnig mantais hanfodol; ac mai democratiaeth ryddfrydol a marchnadoedd rhydd yw'r model gorau o hyd ar gyfer cynnydd cymdeithasol ac economaidd dynol-ryw.

Mae hanes wedi dangos mai cymdeithasau democrataidd yw'r cefnogwyr cryfaf i **drefn ryngwladol agored a chadarn,** lle mae sefydliadau byd-eang yn dangos eu bod yn gallu amddiffyn hawliau dynol, rheoli tensiynau rhwng pwerau mawr, delio â gwrthdaro, ansefydlogrwydd a'r newid yn yr hinsawdd, a rhannu ffyniant drwy fasnach a buddsoddi. Ac mai trefn ryngwladol agored a chadarn sy'n rhoi'r sicrwydd mwyaf wedyn o **ddiogelwch i'n dinasyddion ein hunain.**

Er mwyn bod yn agored, rhaid i ni hefyd fod yn ddiogel. **Diogelu ein pobl, ein gwlad a'n democratiaeth** yw prif ddyletswydd pob llywodraeth, felly rwyf wedi dechrau'r rhaglen fwyaf o fuddsoddi mewn amddiffyn ers diwedd y Rhyfel Oer. Bydd hyn yn dangos i'n cynghreiriaid, yn Ewrop a thu hwnt, eu bod yn gallu dibynnu ar y DU bob amser pan fydd hynny'n cyfrif. Byddwn yn **mynd yn bellach na'r ymrwymiadau gwariant yn ein maniffesto ac i NATO,** gan fod gwariant ar amddiffyn bellach yn 2.2% o'r cynnyrch domestig gros, a byddwn yn hyrwyddo rhaglen moderneiddio sy'n cynnwys y meysydd seiber a gofod diweddaraf, gan ddarparu'r dechnoleg fwyaf modern i'n lluoedd arfog. A byddwn yn parhau i **warchod uniondeb ein gwlad rhag bygythiadau gwladwriaethol,** boed y rheini ar ffurf arian anghyfreithlon neu fesurau economaidd gormesol, twyllwybodaeth, ymosodiadau seiber, ymyrraeth mewn etholiadau neu hyd yn oed– dair blynedd wedi'r ymosodiad yng Nghaersallog – y defnydd o arfau cemegol neu arfau distryw mawr eraill.

Fel y mae'r ymosodiadau ym Manceinion, Llundain a Reading wedi dangos, gwaetha'r modd, **mae'r bygythiad gan derfysgwyr yn y DU yn un gwirioneddol o hyd** – boed hwnnw wedi'i ysgogi gan Islamiaeth, yn gysylltiedig â Gogledd Iwerddon neu wedi'i sbarduno gan gymhellion eraill. Mae ein hasiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a chyrff gorfodi'r gyfraith yn gweithio ddydd a nos i rwystro darpar derfysgwyr ac wedi atal 28 o ymosodiadau arfaethedig er 2017. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith hanfodol hwn, drwy gynyddu'r cyllid ar gyfer yr asiantaethau cudd-wybodaeth a Phlismona Gwrthderfysgaeth yn 2021-22 a thrwy ein hymgyrch i recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol. A byddwn yn cadw gwyliadwriaeth yn gyson wrth amddiffyn dinasyddion Prydain rhag troseddu difrifol a chyfundrefnol.

Yn ogystal â hyn, byddwn yn rhoi galluoedd newydd ar waith fel y rheini sydd gan y **Ganolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth a'r Llu Seiber Cenedlaethol.** Gan ddysgu gwersi o'r pandemig, byddwn yn ategu ein cadernid cenedlaethol drwy sefydlu **Canolfan Sefyllfaoedd** newydd ar ganol llywodraeth, gan wella ein defnydd o ddata a'n gallu i rag-weld ac ymateb i argyfyngau yn y dyfodol. A byddwn yn cyflawni ein nod o gael y **ffin fwyaf effeithiol yn y byd erbyn 2025**, gan fabwysiadu dulliau arloesol, symleiddio'r broses i fasnachwyr a theithwyr, a gwella diogelwch a bioddiogelwch y DU.

Bydd yn hollbwysig cadw'r lle blaenllaw sydd gan y DU ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg er mwyn sicrhau ein ffyniant a'n gallu i gystadlu yn yr oes ddigidol. Ein nod yw sicrhau ein statws fel **Archbŵer Gwyddoniaeth a Thechnoleg** erbyn 2030, drwy gryfhau ein hymrwymiad i ymchwil a datblygu, atgyfnerthu ein rhwydwaith byd-eang o bartneriaethau arloesedd, a gwella ein sgiliau cenedlaethol – yn cynnwys camau i ddenu'r rhai gorau a mwyaf disglair yn y byd i'r DU drwy ein Fisa Talentau Byd-eang newydd. Byddwn yn gosod y sylfeini ar gyfer ffyniant hirdymor, **drwy sefydlu'r DU yn ganolbwynt rhyngwladol ar gyfer gwasanaethau, digidol a data** gan dynnu ar gryfderau mawr ein gwlad mewn technolegau digidol a denu mewnfuddsoddi.

Yn 2021 ac wedyn, bydd Llywodraeth Ei Mawrhydi yn cymryd **delio â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth** yn brif flaenoriaeth ryngwladol. O dan fy nghadeiryddiaeth, mae Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig wedi cynnal ei gyfarfod lefel uchel cyntaf erioed ar effaith y newid yn yr hinsawdd ar heddwch a diogelwch. Y DU oedd yr economi ddatblygedig gyntaf i osod targed sero net ar gyfer 2050. Byddwn yn dechrau nawr ar raglen buddsoddi na welwyd ei thebyg o'r blaen i fwrw ymlaen â'n cynllun deg pwynt

ar gyfer chwyldro diwydiannol gwyrdd drwy ariannu gwaith ymchwil a datblygu mewn technolegau gwyrdd yn y DU, a helpu gwledydd sy'n datblygu â Chyllid Hinsawdd Rhyngwladol y DU.

Creu'r **Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu** yw'r sbardun i'n holl ymdrechion rhyngwladol, drwy integreiddio diplomyddiaeth a datblygu i sicrhau mwy o effaith a delio â'r cysylltiadau rhwng newid hinsawdd a thlodi eithafol. Bydd y DU yn parhau i arwain y byd ar ddatblygu rhyngwladol a byddwn yn dychwelyd at ein hymrwymiad i wario 0.7% o incwm gwladol gros ar ddatblygu pan fydd y sefyllfa gyllidol yn caniatáu. A byddwn yn cynnal yr offer eraill sy'n hanfodol i'n dylanwad mewn gwledydd tramor, fel ein rhwydwaith diplomyddol byd-eang a'r British Council, gan hyrwyddo ymgyrchoedd dros addysg i ferched a rhyddid o ran crefydd a'r cyfryngau.

## Arweinyddiaeth Prydain yn y byd yn 2021

Bydd 2021 yn flwyddyn o arweinyddiaeth gan Brydain, yn gosod y cywair ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol gan y DU yn y degawd nesaf, drwy ein **llywyddiaeth ar y G7** a'r uwchgynhadledd yng Nghernyw ym mis Mehefin, y **Bartneriaeth Fyd-eang dros Addysg,** y byddwn yn ei llywyddu ar y cyd â Kenya ym mis Gorffennaf, ac yn cyrraedd uchafbwynt yn **26ain Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd** yn Glasgow ym mis Tachwedd, a gynhelir mewn partneriaeth â'r Eidal.

Yn 2021, bydd y llong awyrennau **HMS Queen Elizabeth**, un o'r ddwy long ryfel fwyaf erioed a adeiladwyd i'r Llynges Frenhinol, yn arwain tasglu rhwng Prydain a'i chynghreiriaid ar ymfyddiniad byd-eang mwyaf uchelgeisiol y DU ers dau ddegawd, yn ymweld â Môr y Canoldir, y Dwyrain Canol a'r Indo-Basiffig. Bydd y llong hon yn amlygu ein gallu i ryngweithio â chynghreiriaid a phartneriaid – yn enwedig yr Unol Daleithiau – ac yn dangos ein gallu i estyn pŵer milwrol modern i gefnogi NATO a chynnal diogelwch rhyngwladol ar y môr. Drwy'r ymfyddiniad hwn, bydd yn helpu'r Llywodraeth hefyd i ddyfnhau ein cysylltiadau drwy ddiplomyddiaeth a ffyniant â chynghreiriaid a phartneriaid ledled y byd.

Rwyf yn optimistaidd dros ben ynghylch y lle sydd gan y DU yn y byd a'n gallu i achub ar y cyfleoedd sydd o'n blaen. Bydd dyfeisgarwch ein dinasyddion a chadernid ein Hundeb, ynghyd â'n partneriaethau rhyngwladol, ein lluoedd arfog modern a'r agenda wyrdd newydd, yn ein galluogi i edrych ymlaen yn hyderus wrth i ni siapio'r byd yn y dyfodol.

## Gweledigaeth y Prif Weinidog ar gyfer y DU yn 2030

### Undeb cryfach, mwy sicr, ffyniannus a chadarn

Bydd y Deyrnas Unedig yn batrwm o sofraniaeth ddemocrataidd ac yn un o'r gwledydd mwyaf dylanwadol yn y byd, yn delio â'r materion sy'n cyfrif mwyaf i'n dinasyddion drwy ein gweithredoedd gartref a thramor.

Bydd ein Hundeb yn fwy sicr a ffyniannus, a'r buddion o dwf a chyfleoedd yn cael eu rhannu rhwng ein holl ddinasyddion, ym mha le bynnag y maent yn byw yn y DU.

Byddwn wedi ailgodi'n gryfach ar ôl COVID-19 gydag adferiad economaidd cryf a mwy o allu cenedlaethol i wrthsefyll bygythiadau a pheryglon ffisegol a digidol.

Byddwn mewn sefyllfa well ar gyfer byd mwy cystadleuol – yn amddiffyn ein sefydliadau democrataidd a'n heconomi rhag bygythiadau gwladwriaethol, rhag terfysgwyr a rhag grwpiau troseddu cyfundrefnol, gan fanteisio ar ddulliau arloesol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg i hybu ein ffyniant cenedlaethol a'n mantais strategol.

### Gwlad sy'n datrys problemau ac yn rhannu'r baich gyda phersbectif byd-eang

Bydd y DU yn cwrdd â'r cyfrifoldebau sy'n perthyn i ni fel aelod parhaol o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Byddwn yn chwarae rhan fwy gweithredol mewn cynnal trefn ryngwladol lle mae cymdeithasau ac economïau agored yn parhau i ffynnu a lle mae'r buddion o ffyniant yn cael eu rhannu drwy fasnach rydd a thwf byd-eang.

Byddwn ar ganol rhwydwaith o wledydd a grwpiau hyblyg o'r un anian, wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau dynol a chynnal normau byd-eang. Bydd ein dylanwad yn cael ei ymestyn drwy gynghreiriau cryfach a phartneriaethau ehangach – yr un ohonynt yn fwy gwerthfawr i ddinasyddion Prydain na'n perthynas â'r Unol Daleithiau.

Ni fydd y Cynghreiriad Ewropeaidd arweiniol o hyd o fewn NATO, yn atgyfnerthu'r Gynghrair drwy ddelio â bygythiadau ar y cyd a neilltuo ein hadnoddau at gyd-ddiogelwch yn y rhanbarth Ewro-Iwerydd. Fel gwlad Ewropeaidd, byddwn yn mwynhau perthnasoedd adeiladol a chynhyrchiol â'n cymdogion yn yr Undeb Ewropeaidd, wedi'u seilio ar barch cyffredin at sofraniaeth a rhyddid y DU i wneud pethau'n wahanol, yn economaidd ac yn wleidyddol, lle mae hynny'n cyd-fynd â'n buddiannau.

Erbyn 2030, byddwn yn ymwneud yn helaeth â'r rhanbarth Indo-Basiffig fel y partner Ewropeaidd sydd â'r presenoldeb ehangaf a mwyaf integredig er mwyn hybu masnach sy'n creu budd cyffredin, diogelwch a gwerthoedd a rennir. Byddwn yn weithgar yn Affrica, yn enwedig yn Nwyrain Affrica a chyda phartneriaid pwysig fel Nigeria. A bydd gennym berthnasoedd ffyniannus yn y Dwyrain Canol ac yn y Gwlff, wedi'u seilio ar fasnach, arloesi gwyrdd a chydweithio ar wyddoniaeth a thechnoleg, er mwyn cryfhau rhanbarth sy'n fwyfwy hunanddibynnol wrth ddarparu ar gyfer ei ddiogelwch ei hun.

## Creu sylfeini newydd i'n ffyniant

Erbyn 2030, bydd y DU yn parhau i arwain economïau datblygedig y byd ar dechnoleg wyrdd, yn rhan o'n harweinyddiaeth ryngwladol ehangach ar ddelio â newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Byddwn ar y trywydd iawn ar gyfer sicrhau allyriadau carbon sero net byd-eang, ar ôl lleihau ein hallyriadau cenedlaethol o leiaf 68% o'u cymharu â lefelau 1990. Byddwn hefyd wedi gwarchod o leiaf 30% o'n tir a môr er mwyn hybu adferiad natur.

Cawn ein cydnabod yn Archbŵer Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gan aros yn drydydd yn y byd o leiaf ar fesurau perfformiad perthnasol ar gyfer ymchwil wyddonol ac arloesi, ac wedi sicrhau mantais gystadleuol mewn meysydd hollbwysig fel deallusrwydd artiffisial.

Byddwn ar y blaen o ran rheoleiddio byd-eang ar dechnoleg, seiber, digidol a data – er mwyn ein hamddiffyn ni a'n cyd-ddemocratiaethau a chadarnhau statws y DU fel canolbwynt rhyngwladol ar gyfer gwasanaethau, digidol a data, gan gynyddu'r cyfleoedd o ran masnach a chyflogaeth i bobl Prydain.

Bydd y DU yn atynfa i arloesi a thalentau rhyngwladol, gan ddenu'r rhai gorau a mwyaf disglair o wledydd tramor drwy ein system mewnfudo seiliedig ar bwyntiau. Bydd pob rhan o'r DU yn mwynhau'r buddion o fuddsoddi hirdymor mewn ymchwil a datblygu, addysg a'n sefydliadau diwylliannol.

## Addasu i fyd mwy cystadleuol: ein dull integredig

Bydd y DU yn parhau â'i henw da am arweinyddiaeth mewn diogelwch, diplomyddiaeth a datblygu, datrys anghydfodau a lleihau tlodi. Gwerthfawrogir ein cydweithrediad o gwmpas y byd a byddwn yn batrwm ar gyfer dull integredig o ddelio â heriau byd-eang, wrth integreiddio ein hadnoddau i gael yr effaith fwyaf.


Fel gwlad sy'n masnachu dros y môr, byddwn yn hyrwyddo masnach rydd a theg drwy'r byd. Byddwn yn parhau i gael mantais o natur agored ein heconomi – heb rwystrau i fasnach, cyfalaf, data, arloesedd a syniadau – drwy ein hamddiffyn ein hunain a'n cynghreiriaid rhag llygredd, camweithredu, camfanteisio neu ddwyn ein heiddo deallusol.

Ein gwasanaeth diplomyddol, ein lluoedd arfog a'n hasiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth fydd y rhai mwyaf arloesol ac effeithiol o'u maint yn y byd, a'r gallu ganddynt i gadw ein dinasyddion yn ddiogel gartref a chefnogi ein cynghreiriaid a phartneriaid drwy'r byd. Eu nodweddion fydd ystwythder, gweithredu cyflym ac integreiddio digidol – a mwy o bwyslais ar ymgysylltu, hyfforddi a chynorthwyo eraill.

Byddwn yn parhau'n bŵer ag arfau niwclear sydd â chyrhaeddiad byd-eang a galluoedd milwrol integredig ym mhob un o'r pum maes gweithredol. Bydd gennym raglen ofod ddynamig a byddwn yn un o'r prif bwerau seiber democrataidd yn y byd. Bydd ein diplomyddiaeth wedi'i seilio ar hygrededd ein hatalfa a'n gallu i estyn ein pŵer.

## Cryfderau'r DU

### AMDDIFFYN A DIOGELWCH



Asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth gyda'r gorau yn y byd, wedi'u cynnal gan **fwy na £3bn** o fuddsoddi bob blwyddyn

**Y gwariant ail fwyaf ar amddiffyn yn NATO** a'r mwyaf yn Ewrop

**28 o ymosodiadau gan derfysgwyr wedi'u hatal** yn y DU er 2017

**2 dunnell o gyffuriau, 77 o arfau tanio a £54 miliwn** o arian parod troseddol wedi'u hatafaelu a 746 **wedi'u harestio** o dan **Ymgyrch Venetic**

### ARCHBŴER GWYDDONIAETH A THECHNOLEG



Yn 4ydd yn y Mynegai Arloesedd Byd-eang

Yn gartref i waith ymchwil meddygol blaengar, fel brechlyn Prifysgol Rhydychen/AstraZeneca

Y DU sydd wedi ennill y nifer ail fwyaf o Wobrau Nobel, gyda **99 wedi'u hanrhydeddu**

Yn 3ydd yn y byd am gwmnïau technoleg newydd gwerth mwy nag $1bn, gyda 77 ohonynt wedi'u sefydlu yma




### EIN HECONOMI




Mae **11.5%** o'r holl gwmnïau rhyngwladol a restrwyd mewn gwlad dramor wedi'u rhestru yng Nghyfnewidfa Stoc Llundain

### AR Y BLAEN MEWN DIPLOMYDDIAETH A DATBLYGU



Y rhwydwaith diplomyddol 4ydd mwyaf: **281 o swyddi mewn 178 o wledydd** a thiriogaethau

Ymysg y gwledydd sy'n darparu'r mwyaf o arian i **Sefydliad Iechyd y Byd,** yn cynyddu'r cyllid 30% dros bedair blynedd, a'r un sy'n darparu'r arian mwyaf i **Gavi**

Un o'r rhoddwyr dwyochrog ac amlochrog mwyaf i addysg fyd-eang, wedi ymrwymo i gael lle yn yr ysgol i **40 miliwn yn fwy o ferched erbyn 2025**

Un o roddwyr mwyaf ac aelodau sefydlu **COVAX**, a fydd yn cyflenwi 1bn o ddosau brechlyn yn 2021, gan frechu hyd at 500 miliwn o bobl mewn mwy na 90 o wledydd sy'n datblygu

NATO

Banc y Byd a'r IMF

OSCE

Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig 2021-22

G7 (Llywydd yn 2021)

Y Gymanwlad

**Mae gan y DU sedd ym mhob sefydliad amlochrog pwysig**


Aelod sefydlu o'r Cenhedloedd Unedig

Un o bum aelod parhaol Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig

G20

Cyngor Ewrop

## ARCHBŴER PŴER MEDDAL



**Y pŵer meddal 3ydd mwyaf** yn y byd

Y BBC yw'r darlledwr sy'n ennyn yr ymddiriedaeth fwyaf yn y byd, yn cyrraedd **468 miliwn o bobl bob** wythnos, mewn 42 o ieithoedd

Mae'r British Council yn gweithredu mewn **mwy na 100 o wledydd**

**Yr economi 5ed fwyaf** yn y byd

Mae diwydiant gofod y DU yn creu incwm o **£14.8bn** y flwyddyn, a chynhyrchir mwy o loerennau yn yr Alban nag mewn unrhyw wlad Ewropeaidd

**Y lleoliad 3ydd pwysicaf ar gyfer buddsoddi preifat mewn technoleg,** o flaen gweddill Ewrop

## PŴER SEIBER CYFRIFOL




Y wlad seiber 3edd fwyaf pwerus yn y byd, ar y blaen o ran amddiffyn, cudd-wybodaeth, normau a galluoedd ymosodol

Mae Belfast yn **ganolbwynt ar gyfer diogelwch seiber drwy'r byd,** ac yn lleoliad pwysig ar gyfer buddsoddi gan gwmnïau diogelwch seiber rhyngwladol


Mae rhwydwaith seiber y DU yn cwmpasu **122 o wledydd** mewn 6 chyfandir

**Yn noddwr pwysig i fenywod ym maes seiber** drwy'r byd, yn cynnwys 24 o gymrodoriaethau seiber yn y Gwlff a 14 ar draws y Gymanwlad

## YN ARWAIN DRWY'R BYD AR WEITHREDU AR YR HINSAWDD



Rhwng 2021 a 2026, bydd y DU yn neilltuo **£11.6bn** i Gyllid Hinsawdd Rhyngwladol, yn cynnwys £3bn i ariannu mesurau natur



Roedd y DU wedi lleihau ei hallyriadau o fwy na **40% rhwng** 1990 a 2018

Mae Cymru'n gartref i gyfleusterau **ymchwil a datblygu hydrogen gyda'r gorau yn y byd,** fel Canolfan Ymchwil Tyrbinau Nwy Prifysgol Caerdydd

Sefydlu'r rhwydwaith gwyrdd diplomyddol pwrpasol cyntaf yn y byd – y Rhwydwaith Newid Hinsawdd ac Ynni. Mae cyllid hinsawdd y DU wedi ysgogi gwariant drwy gyllid cyhoeddus o £4.1bn a £2.2bn o gyllid preifat ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd ledled Affrica, Asia ac America Ladin

# II. Trosolwg

1. Mae'r Adolygiad Integredig o Bolisi Diogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Thramor (Adolygiad Integredig) wedi'i gwblhau ar adeg bwysig i'r Deyrnas Unedig. Cafwyd newid sylweddol yn y byd ers yr Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol yn 2015, fel y cafwyd yn y lle sydd gan y DU oddi mewn iddo. Mae ein hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn cynnig cyfle unigryw i ailystyried sawl agwedd ar ein polisi domestig a thramor, ar sail y cysylltiadau cyfeillgar sydd gennym a hefyd wrth edrych ymhellach yn y byd. Rhaid i ni fanteisio ar y rhyddid a geir o fwy o annibyniaeth, fel y gallu i wneud cytundebau masnach rydd newydd. Rhaid i ni wneud rhagor hefyd i addasu i newidiadau mawr yn y byd o'n cwmpas, yn cynnwys pwysigrwydd cynyddol y rhanbarth Indo-Basiffig. Bydd ein gallu i gydweithredu'n fwy effeithiol ag eraill, yn enwedig partneriaid o'r un anian, yn dod yn fwyfwy pwysig i'n ffyniant a'n diogelwch yn y degawd nesaf.

2. Wrth wraidd yr Adolygiad Integredig y mae **ymrwymiad cynyddol i ddiogelwch a chadernid, fel y bydd pobl Prydain yn cael eu diogelu rhag bygythiadau.** Mae hyn yn dechrau gartref, drwy amddiffyn ein pobl, tiriogaeth, seilwaith cenedlaethol hanfodol, sefydliadau democrataidd a ffordd o fyw – a thrwy leihau'r graddau rydym yn agored i fygythiadau gwladwriaethol, terfysgaeth a throseddu difrifol a chyfundrefnol.

3. Wrth gryfhau ein diogelwch gartref, byddwn yn adeiladu ar seiliau cadarn o ran gwrthderfysgaeth, cudd-wybodaeth, seiberddiogelwch a gwrthsefyll twf arfogaeth gemegol, fiolegol, radiolegol a niwclear (CBRN). Byddwn yn ceisio sicrhau'r un rhagoriaeth mewn meysydd eraill, drwy wella galluoedd ac arfer pwerau cyfreithiol priodol i gwrdd â bygythiadau sy'n newid yn gyflym. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y pwys mwyaf yn cael ei roi ar wyddoniaeth a thechnoleg fel elfen mewn diogelwch gwladol, gan roi sylw penodol i dyfu ein pŵer seiber.

4. Fel y gwnaethom yn y gorffennol, bydd y DU yn parhau i gyflawni rôl ryngwladol flaenllaw mewn **cyd-ddiogelwch, llywodraethu amlochrog, delio â'r newid yn yr hinsawdd a risgiau iechyd, datrys anghydfodau a lleihau tlodi.** Rydym yn derbyn y risg sydd ynglŷn â'n hymrwymiad i heddwch a sefydlogrwydd byd-eang, o'n presenoldeb yn rhan o 'weiren faglu' NATO yn Estonia a Gwlad Pwyl i'n cefnogaeth yn y fan a'r lle ar gyfer cadw'r heddwch a darparu cymorth dyngarol gan y Cenhedloedd Unedig. **Mae ein hymrwymiad i ddiogelwch Ewropeaidd yn glir,** drwy NATO, y Gyd-fyddin Ymgyrchol a chysylltiadau dwyochrog cadarn. Prin yw'r cynghreiriaid o gwmpas y byd sy'n fwy dibynadwy a theyrngar na'r DU, a'i pharodrwydd i wynebu heriau mawr a'i gallu i sicrhau newid mewn materion o bwys rhyngwladol.

5. Mae'r Adolygiad Integredig hefyd yn **dangos newid yn ein dull o weithredu**. Dros y degawd diwethaf, mae polisi'r DU wedi canolbwyntio ar gadw'r 'system ryngwladol seiliedig ar reolau' a welwyd ar ôl y Rhyfel Oer sydd wedi bod o fudd mawr i'r DU a gwledydd eraill. Heddiw, fodd bynnag, mae'r drefn ryngwladol yn un fwy digyswllt lle mae cystadlu cynyddol rhwng gwladwriaethau dros fuddiannau, normau a gwerthoedd. Nid yw amddiffyn y status quo yn ddigon bellach ar gyfer y degawd sydd o'n blaen.

6. Felly mae'r Adolygiad Integredig yn cydnabod bod angen ffocws mwy clir a dynamig er mwyn: **addasu i amgylchedd rhyngwladol sy'n fwy cystadleuol a**

**chyfnewidiol; gwneud rhagor i atgyfnerthu rhannau o'r strwythur rhyngwladol sydd o dan fygythiad; a siapio trefn ryngwladol y dyfodol** drwy gydweithio ag eraill. Yn benodol, byddwn yn cynyddu ein hymdrechion i amddiffyn cymdeithasau agored a gwerthoedd democrataidd lle maent yn cael eu tanseilio; ac i geisio sicrhau llywodraethu da a chreu rheolau a rennir mewn meysydd newydd fel seiberofod a'r gofod.

7. **Mae ein polisi tramor yn sefyll ar seiliau domestig cadarn,** yn enwedig ein diogelwch, cadernid a chryfder ein heconomi. Mae hefyd yn dibynnu, yn hanfodol, ar gwlwm o ymddiriedaeth â phobl Prydain. Mae arolygon barn yn y DU yn dangos bod ffydd fawr mewn cyrff fel y Cenhedloedd Unedig a NATO a phileri amddiffynnol Prydain fel y lluoedd arfog a'r atalfa niwclear. Mae hyn wedi'i ategu gan ymddiriedaeth sylweddol yng ngallu gwyddoniaeth a thechnoleg i fynd i'r afael â heriau domestig a rhyngwladol, fel y gwelsom yn ystod y pandemig COVID-19.

8. Er hynny, mae'r drefn ryngwladol yn dibynnu am ei chadernid, ei gwydnwch a'i chyfreithlondeb ar y gwladwriaethau sy'n rhan ohoni. **Rhaid i ddemocratiaethau rhyddfrydol wneud rhagor i ddangos buddion eu natur agored** – masnach rydd a theg, llif dirwystr cyfalaf a gwybodaeth – i boblogaethau sydd wedi mynd yn amheus o'i rhinweddau neu heb gael eu hamddiffyn yn ddigonol yn y gorffennol rhag anfanteision globaleiddio. **Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â'r materion blaenoriaethol – iechyd, diogelwch, llesiant economaidd a'r amgylchedd – sydd bwysicaf i'n dinasyddion yn eu bywydau pob dydd.** Yn y blynyddoedd nesaf, bydd yn bwysig bod ein polisi ar ddiogelwch gwladol a materion rhyngwladol yn rhoi lle mwy canolog i fuddiannau a gwerthoedd pobl Prydain ym mhopeth rydym yn ei wneud.

## Yr Adolygiad Integredig

9. Mae'r cyhoeddiad hwn yn amlinellu prif gasgliadau'r Adolygiad Integredig. Mae'n cynnwys:

- **Gweledigaeth y Prif Weinidog ar gyfer y DU yn 2030,** sy'n sail i'r allbynnau eraill o'r Adolygiad Integredig.
- Asesiad presennol y Llywodraeth o'r prif dueddiadau a fydd yn siapio'r **amgylchedd diogelwch gwladol a rhyngwladol** hyd 2030.
- **Fframwaith Strategol** sy'n dangos amcanion polisi cyffredinol y Llywodraeth ar ddiogelwch gwladol a materion rhyngwladol, gyda chamau gweithredu sydd â blaenoriaeth, hyd 2025.
- Amlinelliad o'r ffordd y byddwn yn **gweithredu'r** Fframwaith Strategol.
- Rhestr o benderfyniadau yn Adolygiad o Wariant 2020 sy'n ategu'r Adolygiad Integredig, a disgrifiad o'n defnydd o dystiolaeth a'r rhaglen ymgysylltu domestig a rhyngwladol ar gyfer ein gwaith.

10. Mae'r ddogfen wedi'i bwriadu i fod yn **ganllaw gweithredu** i'r rheini sy'n gyfrifol am agweddau ar ddiogelwch gwladol a pholisi rhyngwladol ar draws llywodraeth, yn cynnwys y rheini mewn adrannau na fyddent wedi'u hystyried o'r blaen yn rhan o'r gymuned diogelwch gwladol. Bydd hefyd yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ar wariant mewn Adolygiadau o Wariant yn y dyfodol.

11. Mae canfyddiadau'r Adolygiad Integredig ar gael i'r cyhoedd fel y bydd pobl Prydain yn gallu deall sut bydd y Llywodraeth yn ceisio amddiffyn a hyrwyddo eu buddiannau a gwerthoedd. Oherwydd y pwyslais mawr yn yr Adolygiad ar yr angen i gydweithio ag eraill, rydym hefyd yn ymwybodol y bydd o ddiddordeb i'n cynghreiriaid a phartneriaid, yn enwedig o ran nodi amcanion hirdymor y DU yn dilyn ein hymadawiad â'r UE.

## Ein buddiannau a'n gwerthoedd: y clymau sy'n asio'r Undeb

12. Blaenoriaeth gyntaf a phennaf y Llywodraeth yw amddiffyn a hyrwyddo **buddiannau pobl Prydain** drwy ein gweithredoedd gartref a thramor. Y pwysicaf o'r buddiannau hyn yw:

    i. **Sofraniaeth:** gallu pobl Prydain i ethol eu cynrychiolwyr gwleidyddol yn ddemocrataidd yn unol â'u traddodiadau cyfansoddiadol, ac i wneud hynny heb brofi gorfodaeth ac ymyrraeth. Mae hyn yn cynnwys gallu dinasyddion i amddiffyn eu sofraniaeth fel unigolion o dan reolaeth y gyfraith, wrth sicrhau bod eu hawliau a'u rhyddidau wedi'u diogelu, yn cynnwys rhai ar-lein.

    ii. **Diogelwch:** amddiffyn ein pobl, tiriogaeth, seilwaith cenedlaethol hanfodol, sefydliadau democrataidd a ffordd o fyw. Wrth sicrhau diogelwch yn y byd sydd ohoni heddiw, mae angen ymgymryd â nifer cynyddol o wahanol weithgareddau: delio â bygythiadau oddi wrth wladwriaethau ac oddi wrth rai nad ydynt yn gweithredu dros wladwriaethau fel terfysgwyr a grwpiau troseddu cyfundrefnol, yn ogystal â meithrin cadernid cymdeithasol fel ein bod mewn lle gwell i wrthsefyll risgiau ac ergydion annisgwyl, yn cynnwys argyfyngau amgylcheddol ac iechyd byd-eang yn y dyfodol.

    iii. **Ffyniant:** gallu pobl Prydain i fwynhau lefel uchel o les economaidd a chymdeithasol, gan gynnal eu teuluoedd a manteisio ar gyfleoedd i wella eu bywydau. Mae'r Llywodraeth hon yn credu bod gwir ffyniant yn dibynnu ar lefelu cyfleoedd a gwneud mwy i rannu'r buddion o dwf economaidd ledled y DU. Mae hefyd yn credu bod ein ffyniant a'n diogelwch yn ategu ei gilydd.

13. Mae'r buddiannau cyffredin hyn yn **clymu ynghyd ddinasyddion y Deyrnas Unedig,** yn ogystal â'n Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol y Goron, gan roi mantais i ni mewn amgylchedd byd-eang sy'n fwyfwy cystadleuol, a llais clir a dylanwadol yn y byd. Fel y Deyrnas Unedig yr ymfalchïwn mewn lluoedd arfog sydd â chyrhaeddiad byd-eang a bod gennym un o'r rhwydweithiau diplomyddol ehangaf yn y byd, yn hyrwyddo buddiannau Prydeinig a darparu cymorth consylaidd ddydd a nos i wladolion Prydeinig mewn gwledydd tramor. Drwy gyfuno adnoddau ein Hundeb a rhannu arbenigedd ein dinasyddion mewn meysydd fel gwyddoniaeth ac iechyd y cawn y gallu i ymateb i heriau byd-eang ac estyn ein dylanwad dramor. Fel y Deyrnas Unedig y byddwn yn 2021 yn croesawu'r G7 i Gernyw a 26ain Gynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (COP26) yn Glasgow.

14. Mae'r Undeb wedi'i asio hefyd gan **werthoedd a rennir** sy'n hanfodol i'n hunaniaeth genedlaethol, ein democratiaeth a'n ffordd o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiad i hawliau dynol cyffredinol, rheolaeth y gyfraith, rhyddid barn a thegwch a chydraddoldeb. Bydd yr un gwerthoedd sylfaenol yn parhau i lywio pob agwedd ar ein polisi diogelwch gwladol a materion tramor yn y degawd nesaf, yn enwedig yn wyneb y cynnydd mewn awdurdodyddiaeth a pharhad ideolegau eithafol. Maent yn

cael eu mynegi hefyd yn ein cefnogaeth i weithredu ar yr hinsawdd a'r arweiniad gan y DU ar leihau tlodi ledled y byd.

15. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae **cysylltiad agos rhwng buddiannau a gwerthoedd** y DU. Mae byd lle mae cymdeithasau democrataidd yn ffynnu a hawliau dynol sylfaenol wedi'u diogelu yn un sy'n fwy cydnaws â'n sofraniaeth, diogelwch a ffyniant fel gwlad. Wrth gyflawni ein nodau hyd 2030, byddwn yn ceisio gwneud cynnydd cyson ar ddiogelu a hyrwyddo'r gwerthoedd hyn a democratiaeth ledled y byd.

16. Ar yr un pryd, bydd ein dull o weithredu'n un ymarferol ac wedi'i addasu i amgylchiadau. Bydd ein gallu i ddelio â heriau trawswladol, o ddiogelwch i newid hinsawdd, yn dibynnu ar ein gallu i gydweithio â phartneriaid o lawer math ledled y byd, yn cynnwys y rheini nad ydynt yn rhannu'r un gwerthoedd o reidrwydd.

## Dull o weithredu'r Llywodraeth hyd yma: Prydain Fyd-eang ar waith

17. Mae'r DU yn wlad Ewropeaidd sydd â buddiannau byd-eang, fel economi agored a gwlad sy'n masnachu dros y môr sydd â nifer mawr o'i gwladolion mewn gwledydd tramor. Bydd ein ffyniant yn y dyfodol yn cynyddu drwy ddyfnhau ein cysylltiadau economaidd â rhannau dynamig o'r byd fel y rhanbarth Indo-Basiffig, Affrica a'r Gwlff, yn ogystal â masnach ag Ewrop. Y rhagamod ar gyfer Prydain Fyd-eang yw diogelwch ein dinasyddion gartref a diogelwch y rhanbarth Ewro-Iwerydd, lle bydd y rhan fwyaf o weithgarwch diogelwch y DU yn parhau. Wrth i ni edrych ymhellach, bydd llwyddiant Prydain Fyd-eang yn y dyfodol yn galw arnom i ddeall union natur a graddau'r cryfderau sydd gan Brydain a'r arlwy integredig a gynigiwn mewn rhannau eraill o'r byd. Mae'n ddull o weithredu sy'n rhoi diplomyddiaeth yn gyntaf. Wrth i ni ymwneud yn fwy â'r rhanbarth Indo-Basiffig, er enghraifft, byddwn yn addasu i'r cydbwysedd pŵer yn y rhanbarth ac yn parchu buddiannau partïon eraill – ac yn ceisio gweithio â strwythurau presennol fel Cymdeithas Cenhedloedd De-ddwyrain Asia (ASEAN) a Chytundeb Cynhwysfawr a Chynyddol y Bartneriaeth Draws-Basiffig (CPTPP).

18. Mae'r hyn y mae **Prydain Fyd-eang** yn ei olygu'n ymarferol yn cael ei ddiffinio'n well drwy weithredoedd yn hytrach na geiriau. Mae hanfodion y dull o drafod diogelwch gwladol a pholisi rhyngwladol gan y Llywodraeth hon yn cael eu hadlewyrchu yn y camau rydym wedi'u cymryd ers yr etholiad cyffredinol yn 2019. Maent yn dangos dull gweithgar o weithredu er budd pobl Prydain: **cynnal natur agored cymdeithas ac economi'r DU, ar sail newid i fabwysiadu safbwynt mwy cadarn ar ddiogelwch ac atal.** Mae hyn yn cyd-fynd ag **ymrwymiad o'r newydd i'r DU fel grym er daioni yn y byd** – yn amddiffyn gweithredu agored, democratiaeth a hawliau dynol – a **phenderfyniad cynyddol i geisio atebion amlochrog** i heriau fel y newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau iechyd byd-eang, fel a welwyd yn ein hymateb i COVID-19.

19. Er enghraifft, wrth **geisio atebion amlochrog,** rydym wedi arfer pŵer y DU i alw cyfarfodydd ar amrywiaeth o faterion ym meysydd diogelwch, masnach a datblygu, yn cynnwys Cyfarfod Arweinwyr NATO yn Rhagfyr 2019 ac Uwchgynhadledd Buddsoddi Affrica yn Ionawr 2020. O dan ein hagenda uchelgeisiol ar yr amgylchedd, rydym wedi gosod targed sero net ar gyfer 2050 ac wedi cynyddu'r swm a neilltuwyd i Gyllid Hinsawdd Rhyngwladol i £11.6 biliwn. Roedd y DU wedi chwarae rhan

ganolog hefyd wrth negodi Adduned yr Arweinwyr dros Natur a fabwysiadwyd ym Medi 2020, yn rhwymo arweinwyr y byd i gymryd camau brys i wrthdroi'r golled mewn bioamrywiaeth erbyn 2030. Mae'r ymdrechion hyn wedi arwain y ffordd at ein blwyddyn o arweinyddiaeth yn 2021.

20. Rydym hefyd wedi **arwain ymdrechion rhyngwladol i ymateb i COVID-19,** lle rydym wedi:

- Cynnal yr Uwchgynhadledd Brechlynnau Fyd-eang ym Mehefin 2020 ac wedi cadarnhau ein lle fel y rhoddwr mwyaf i Gavi, y Gynghrair Frechlynnau.
- Neilltuo hyd at £548 miliwn ar gyfer COVID-19 Vaccines Global Access (COVAX) i helpu i ddarparu 1 biliwn o ddosau o'r brechlyn i wledydd sy'n datblygu yn 2021. Byddwn hefyd yn anfon y rhan fwyaf o unrhyw frechlynnau coronafeirws dros ben yn ein cyflenwad yn y dyfodol i gynllun COVAX.
- Lansio cynllun pum pwynt yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig i amddiffyn y byd rhag pandemigau yn y dyfodol.
- Sefydlu rhwydwaith anffurfiol o lywodraeth, diwydiant a'r byd academaidd i gynghori'r G7 ar ffyrdd i gyflymu'r broses o ddatblygu a defnyddio brechlynnau ar gyfer pathogenau newydd yn y dyfodol.
- Cynnig ein harbenigedd mewn dadansoddi dilyniannau genom i helpu gwledydd eraill i ddilyn amrywiolynnau newydd, drwy elwa o'r gwaith gan ymchwilwyr ym Mhrydain yn dadansoddi dilyniant hanner y genomau coronafeirws sydd yn y gronfa ddata fyd-eang. Yn ogystal â hyn, mae'r canfyddiadau o Dreial Ymadfer y DU – y treial clinigol mwyaf yn y byd o driniaethau COVID-19 – wedi atal mwy na miliwn o farwolaethau ledled y byd.

21. Wrth **gryfhau ein hamddiffyn a'n diogelwch,** ac er mwyn rhannu'r baich â chynghreiriaid, rydym wedi:

- Gwneud y cynnydd parhaus mwyaf mewn gwariant ar amddiffyn ers diwedd y Rhyfel Oer, gan ragori ar ganllaw gwariant NATO o 2% a chryfhau ein cynghrair bwysicaf.
- Anfon 300 o filwyr y DU i Mali yn Rhagfyr 2020 i helpu yn ymgyrch cadw heddwch y Cenhedloedd Unedig, gan ddarparu gallu rhagarchwilio arbenigol.
- Cynyddu'r cyllid ar gyfer plismona gwrthderfysgaeth a chyflwyno deddfwriaeth newydd i wella ein dulliau o ymladd terfysgaeth a bygythiadau gwladwriaethol, yn cynnwys y Ddeddf Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol, y Bil Gwrthderfysgaeth a Dedfrydu a'r Bil Diogelwch Gwladol a Buddsoddi.
- Cymryd cam mawr ymlaen yn y frwydr yn erbyn troseddu difrifol a chyfundrefnol ym Mehefin 2020, drwy gael at negeseuon wedi'u hamgryptio rhwng troseddwyr o dan Ymgyrch Venetic – yr ymgyrch fwyaf erioed i orfodi'r gyfraith yn y DU.
- Atal ymosodiadau seiber yn erbyn seilwaith cenedlaethol hanfodol, gan briodoli ymosodiadau'n gyhoeddus i weithredwyr gwladwriaethol lle'r oedd gennym dystiolaeth gryf i ddangos hynny.
- Cyhoeddi fframwaith moesegol arloesol yn Chwefror 2021 i lywio defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artiffisial gan Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU (GCHQ) yn ei ymgyrchoedd – yn cynnwys ymdrechion i ddelio â throseddu difrifol a chyfundrefnol a rhai i atal ymgyrchoedd twyllwybodaeth gan wladwriaethau.

- Dangos arweiniad byd-eang ar leihau bygythiadau yn y gofod, gan gydweithio â gwledydd o'r un anian i sicrhau penderfyniad gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig sy'n newid natur y ddadl ryngwladol am fygythiadau i'r systemau gofod rydym yn dibynnu arnynt.

22. Yn rhan o'n hymdrechion i **amddiffyn hawliau dynol a chynorthwyo pobl agored i niwed,** rydym wedi:

    - Cyflwyno system newydd o sancsiynau 'Magnitsky' i dargedu rhai sy'n gwyrdroi ac yn torri hawliau dynol drwy'r byd. Ni oedd y wlad gyntaf yn Ewrop i gyhoeddi sancsiynau yn erbyn llywodraeth Belarws ym Medi 2020.
    - Cynnig i Wladolion Prydeinig (Tramor) ac aelodau cymwys o'u teulu yr hawl i fyw a gweithio yn y DU, gan eu rhoi ar ben ffordd i gael dinasyddiaeth Brydeinig, wedi i Tsieina dorri cytundeb cyfreithiol rwymol a gorfodi cyfraith diogelwch gwladol ormesol ar Hong Kong.
    - Cyhoeddi pecyn o fesurau i sicrhau na fydd sefydliadau Prydeinig yn elwa nac yn cyfranogi o ymyriadau helaeth â hawliau dynol yn Xinjiang, yn rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.
    - Lansio ein strategaeth i ddelio â chamdriniaeth rywiol o blant er mwyn hyrwyddo camau yn y DU ac mewn gwledydd tramor i ymyrryd ac atal troseddu ar-lein ac all-lein.
    - Cefnogi addysg ar gyfer plant agored i niwed drwy ariannu cyflogau mwy na 5,500 o athrawon mewn gwersylloedd ffoaduriaid mewn 10 gwlad drwy UNHCR. Rydym hefyd wedi addasu ein rhaglenni dwyochrog mewn ymateb i COVID-19 i gynorthwyo merched sy'n anodd eu cyrraedd ac yn wynebu'r risg o adael addysg yn barhaol.
    - Lansio'r Alwad i Weithredu i Atal Newyn ym Medi 2020 a phenodi Cennad Arbennig cyntaf y DU dros Atal Newyn a Materion Dyngarol. Ers hynny, rydym wedi addo £180 miliwn i ddelio ag ansicrwydd ynghylch cyflenwadau bwyd a'r risg o newyn.

23. Rydym hefyd wedi dilyn mesurau i wella ein ffyniant hirdymor. Er enghraifft:

    - Mewn llai na dwy flynedd, rydym wedi sicrhau cytundebau masnach â 66 o wledydd y tu allan i'r UE yn ogystal â'n Cytundeb Masnach a Chydweithredu â'r UE. Rydym hefyd wedi gwneud cais i ymuno â'r CPTPP.
    - Rydym wedi cyhoeddi strategaeth ffiniau'r DU ar gyfer 2025 gyda'r nod o greu ffin sy'n effeithlon, glyfar ac ymatebol.
    - Rydym wedi cyflwyno system mewnfudo newydd sy'n seiliedig ar bwyntiau, yn cynnwys Fisa Talentau Byd-eang, i ddenu'r rhai gorau a mwyaf disglair o bedwar ban byd. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cael y talentau sydd eu hangen ar gyfer sectorau allweddol ein heconomi, gan drin dinasyddion yr UE a dinasyddion o'r tu allan i'r UE yn gyfartal.
    - Rydym wedi cyhoeddi map trywydd ymchwil a datblygu ar gyfer y DU. Gan ddysgu gwersi o lwyddiannau'r Tasglu Brechlynnau, rydym wedi cyhoeddi Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar annibynnol a fydd yn cael ei harwain gan wyddonwyr a fydd yn rhydd i nodi ac ariannu gwyddoniaeth a thechnoleg weddnewidiol ar gyflymder.

24. Yn 2021, byddwn yn adeiladu ar sail y gwaith hwn drwy gynnull y G7 a chynnal COP26 mewn partneriaeth â'r Eidal a'r Bartneriaeth Fyd-eang dros Addysg ar y cyd â Kenya. Ein blaenoriaeth gyntaf fydd **ailgodi'n gryfach ar ôl COVID-19**, gan ddangos y manteision o gydweithredu rhyngwladol. Yn ogystal â hyn, byddwn yn dilyn agenda amlochrog gynhwysfawr ar newid hinsawdd, iechyd byd-eang, masnach rydd a theg a chadernid economaidd. Parhawn i gydweithio ag eraill i ddiwygio a chryfhau'r sefydliadau sy'n cefnogi'r amcanion hynny, yn cynnwys Sefydliad Iechyd y Byd a Sefydliad Masnach y Byd.

## Dull gweithredu hirdymor y Llywodraeth hyd 2030

25. Er mwyn gwireddu gweledigaeth y Prif Weinidog ar gyfer 2030, bydd angen dilyn dull gweithredu strategol hirdymor sy'n cyfuno'r holl offer sydd ar gael i lywodraeth, a fydd yn parhau i addasu i newidiadau yn yr amgylchedd rhyngwladol. Mae'r cyd-destun hwn wedi'i ddiffinio gan: **newidiadau geowleidyddol a geoeconomaidd,** fel y penderfynoldeb cynyddol sydd gan Tsieina ar lefel ryngwladol a'r twf ym mhwysigrwydd y rhanbarth Indo-Basiffig; **cystadlu systemig**, yn cynnwys hwnnw rhwng gwladwriaethau, a rhwng gwerthoedd a systemau llywodraeth democrataidd ac awdurdodyddol; **newid technolegol cyflym;** a **heriau trawswladol,** fel y newid yn yr hinsawdd, risgiau bioddiogelwch, terfysgaeth a throseddu difrifol a chyfundrefnol.

26. Yng nghyd-destun yr ansicrwydd hwn, **pwrpas unol** polisi'r DU ar ddiogelwch gwladol a materion rhyngwladol yw sicrhau **bod y pethau sy'n ein diffinio fel gwlad** – ein cymdeithas ac economi agored yn seiliedig ar werthoedd democrataidd – yn parhau'n **ffynonellau cryfder a mantais gymharol,** yn hyrwyddo ffyniant ac yn gwella lles pobl drwy'r Undeb.

27. Yn amgylchedd mwy cystadleuol y 2020au, mae hyn yn gofyn i ni fod yn fwy gweithredol wrth greu byd lle mae cymdeithasau ac economïau agored yn gallu ffynnu, **gan siapio trefn ryngwladol y dyfodol** – hyrwyddo masnach rydd a chydweithredu byd-eang, delio â gwrthdaro ac ansefydlogrwydd, a sefyll dros ddemocratiaeth a hawliau dynol. Rhaid i ni hefyd **gryfhau ein diogelwch a'n gallu i wrthsefyll** y rheini sy'n ceisio rhoi pwysau arnom, a'i gwneud yn fwy anodd i derfysgwyr a grwpiau troseddu cyfundrefnol gyflawni eu nodau.

28. Y gallu i **symud yn gyflym ac yn fwy ystwyth,** gan chwyddo ein llais annibynnol, cryf drwy gydweithio ag eraill, fydd nod amgen polisi tramor y DU yn dilyn ein hymadawiad â'r UE. Bydd ein heffeithiolrwydd yn dibynnu hefyd ar ein gallu i gynnal lefel gyson o ddylanwad rhyngwladol, gan gadw'r galluoedd o ran pŵer meddal a chaled sydd eu hangen i wneud hyn. Rhaid i ni fod yn **barod i gystadlu ag eraill, a dod o hyd i ffyrdd newydd i gydweithredu drwy ddiplomyddiaeth greadigol ac amlochroldeb.**

29. Yn y blynyddoedd nesaf, bydd angen i ni reoli'r tensiynau a chyfnewidiadau sy'n sicr o ddigwydd: rhwng ein hymagwedd agored a'r angen i ddiogelu ein pobl, economi a ffordd o fyw drwy fesurau sy'n cynyddu ein diogelwch a chadernid; rhwng cystadlu a chydweithredu â gwladwriaethau eraill, yr un pryd weithiau; a rhwng ein buddiannau masnachol tymor byr a'n gwerthoedd. Wrth gadw **persbectif hirdymor,** bydd modd i ni ganfod y ffordd o'n blaen. Drwy gadw **ein rhyddid i weithredu,** byddwn yn gallu addasu i amgylchiadau wrth iddynt newid.

## Cyflwyno ein Fframwaith Strategol hyd 2025

30. Yn ganlyniad i'r Adolygiad Integredig, rydym wedi sefydlu Fframwaith Strategol sy'n ymateb i'r prif dueddiadau yn y cyd-destun rhyngwladol ac sydd â'r bwriad o ddarparu **canllawiau ar gyfer llunio polisi yn y dyfodol** er mwyn cyflawni ein dull gweithredu hirdymor. Mae'r Fframwaith yn gosod **amcanion cyffredinol y Llywodraeth ar ddiogelwch gwladol a pholisi rhyngwladol** hyd 2025. Mae'n dangos sut y gallwn **gyfuno'r holl offer sydd ar gael i'r Llywodraeth** i gyflawni'r amcanion hyn. Nid yw'n darparu strategaethau manwl ar gyfer rhanbarthau neu wledydd penodol na disgrifiad cynhwysfawr o'r holl weithgarwch y byddwn yn ei gyflawni yn y blynyddoedd nesaf. Yn hytrach, mae'n gosod llinell sylfaen ar gyfer polisi tramor ac yn nodi camau gweithredu sydd â blaenoriaeth, gan adlewyrchu'r angen am ddull hyblyg o weithredu a nodi lle mae angen rhagor o waith ar bolisi ac is-strategaethau newydd.

31. Defnyddiwyd y Fframwaith Strategol i lywio penderfyniadau ar wariant o dan Adolygiad o Wariant 2020, yn cynnwys setliadau adrannol a chyllid ar gyfer nifer o fentrau newydd (gweler Atodiad A). Bydd y Fframwaith hwn yn cyfrannu i Adolygiadau o Wariant yn y dyfodol hefyd, lle bydd cyfleoedd pellach i gydweddu adnoddau ag uchelgais.

32. Y pedwar amcan cyffredinol a chydategol sydd wedi'u gosod gan y Fframwaith Strategol yw:

    i. **Cynnal mantais strategol drwy wyddoniaeth a thechnoleg:** bydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn elfen hanfodol yn ein polisi ar ddiogelwch gwladol a materion rhyngwladol, gan gryfhau sefyllfa'r DU fel **pŵer byd-eang mewn gwyddoniaeth a thechnoleg a phŵer seiber cyfrifol.** Bydd hyn yn hollbwysig wrth ennill manteision economaidd, gwleidyddol a diogelwch yn y degawd nesaf ac wrth siapio normau rhyngwladol drwy gydweithio â chynghreiriaid a phartneriaid. Bydd hefyd yn hyrwyddo ffyniant gartref ac yn hybu cynnydd ar y tri amcan sy'n dilyn.

    ii. **Siapio trefn ryngwladol agored y dyfodol:** byddwn yn arfer ein pŵer i alw ynghyd ac yn cydweithio â phartneriaid i adfywio'r system ryngwladol. Wrth wneud hynny, sicrhawn ei bod yn drefn lle mae **cymdeithasau agored ac economïau agored yn gallu ffynnu** wrth i ni fynd yn bellach i'r oes ddigidol – gan greu byd sy'n fwy ffafriol i ddemocratiaethau a'r gallu i amddiffyn gwerthoedd cyffredinol. Byddwn yn ceisio atgyfnerthu ac adnewyddu colofnau presennol y drefn ryngwladol – fel y Cenhedloedd Unedig a'r system fasnachu fyd-eang – a sefydlu normau ym meysydd seiberofod, technoleg newydd, data a'r gofod wrth iddynt ddatblygu yn y dyfodol.

    iii. **Cryfhau diogelwch ac amddiffyn gartref a thramor:** byddwn yn cydweithio â chynghreiriaid a phartneriaid i **ddelio â heriau i'n diogelwch yn y byd ffisegol ac ar-lein.** Bydd NATO yn parhau'n garreg sylfaen i gyd-ddiogelwch yn rhanbarth cartref yr Ewro-Iwerydd, lle mae Rwsia yn peri'r bygythiad dwysaf o hyd i'n diogelwch. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar feithrin ein gallu ni a gallu gwledydd o'r un anian o gwmpas y byd i ymateb i amrywiaeth gynyddol o fygythiadau gwladwriaethol trawswladol,[1] radicaleiddio a therfysgaeth, troseddu difrifol a chyfundrefnol a thwf o ran arfogaeth.

1 Defnyddir y term 'bygythiadau gwladwriaethol' yn awr yn lle 'gweithgarwch gwladwriaeth elyniaethus'.

iv. **Meithrin cadernid gartref a thramor:** byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar gadernid, gan gydnabod nad oes modd rhag-weld neu atal pob risg i'n diogelwch a ffyniant – boed yn beryglon naturiol fel digwyddiadau tywydd eithafol neu'n fygythiadau fel seiberymosodiadau. Byddwn yn **gwella ein gallu ein hunain i rag-weld risgiau, eu hatal, paratoi atynt, ymateb iddynt ac ymadfer ar eu hôl** – yn ogystal â gallu ein cynghreiriaid a phartneriaid, gan gydnabod y cydgysylltiadau clòs a geir yn ein byd. A byddwn yn **rhoi blaenoriaeth i ymdrechion i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth,** heriau hirdymor a fydd, os rhoddir rhwydd hynt iddynt, yn bygwth dyfodol y ddynoliaeth – yn ogystal â meithrin cadernid iechyd byd-eang.

33. Ni fydd y DU yn gallu cyflawni'r amcanion hyn wrth weithio ar ei phen ei hun: **bydd cydweithredu a chyd-greu â'n cynghreiriaid a phartneriaid yn hollbwysig** yn y degawd nesaf – **gan arwain drwy esiampl** lle mae gennym gryfderau unigryw neu sylweddol (fel y rhai ym meysydd y gwyddorau meddygol, technolegau gwyrdd a deallusrwydd artiffisial) a **chanfod lle rydym mewn lle gwell i helpu eraill** i arwain y ffordd at ein nodau cyffredin.

34. Bydd angen i'r Llywodraeth gyfuno strategaeth gynlluniedig – sy'n gosod amcanion tymor hir, yn rhag-weld heriau ar hyd y ffordd, ac yn mapio'r ffordd tuag atynt – a dull gweithredu addasol. Agwedd hanfodol ar hyn yw **integreiddio dyfnach ar draws llywodraeth,** gan adeiladu ar sail yr Athrawiaeth Ymasio a gyflwynwyd yn yr Adolygiad o Allu Diogelwch Gwladol yn 2018. Mae dull gweithredu mwy integredig yn hwyluso penderfynu cyflymach, ffyrdd mwy effeithiol o lunio polisi a gweithredu mwy cydlynol drwy **ddwyn ynghyd amddiffyn, diplomyddiaeth, datblygu, cudd-wybodaeth a diogelwch, masnach ac agweddau ar bolisi domestig** wrth geisio cyflawni amcanion cenedlaethol ar draws llywodraeth.

35. Y sail resymegol i integreiddio yw y bydd yn gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau cyfyngedig mewn byd mwy cystadleuol lle mae cyflymder wrth addasu'n gallu rhoi mantais bendant. Mae hefyd yn ymateb i'r ffaith bod **gwrthwynebwyr a chystadleuwyr eisoes yn gweithredu mewn ffordd fwy integredig** – gan asio technoleg filwrol a sifilaidd a pheri bod y ffiniau rhwng rhyfel a heddwch, ffyniant a diogelwch, masnach a datblygu, a pholisi domestig a thramor yn mynd yn fwyfwy aneglur. Mae hefyd yn cydnabod y ffaith bod y gwahaniaeth rhwng diogelwch economaidd a diogelwch gwladol yn fwyfwy amhendant.

36. Rydym eisoes yn cymryd camau mawr tuag at fwy o integreiddio ar draws llywodraeth, yn cynnwys:

- **Creu'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu,** gan ddod â'n harbenigedd a pholisi diplomyddol a datblygu ynghyd i wneud Un LlEM dramor.
- Y **Cysyniad Gweithredu Integredig 2025,** a fydd yn dyfnhau'r integreiddio mewn amddiffyn yn y DU ar draws y pum maes gweithredol a chydag offer pŵer gwladwriaethol eraill, ac yn gwella'r gallu i gydweithredu â chynghreiriaid.
- Galluoedd trawsbynciol newydd fel y **Ganolfan Sefyllfaoedd, y Ganolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth (CTOC), y Llu Seiber Cenedlaethol (NCF) a gallu cenedlaethol o ran gefeillio digidol.**

37. Yn olaf, bydd y DU hefyd yn cyflwyno **dull integredig o gydweithio ag eraill** o gwmpas y byd – hynny yw, byddwn yn cyfuno pŵer caled a meddal, yn harneisio'r sectorau cyhoeddus a phreifat, yn defnyddio arbenigedd Prydeinig y tu mewn a'r tu allan i lywodraeth i geisio cyflawni amcanion cenedlaethol.

## Y prif elfennau o barhad a newid yn ein dull o weithredu

Mae'r Fframwaith Strategol yn cynnwys elfennau pwysig o barhad o bolisi blaenorol y DU ar ddiogelwch gwladol a materion tramor, wedi'u haddasu i gwrdd â chyfleoedd a heriau'r degawd nesaf:

i. Ein perthynas â'r **Unol Daleithiau** fydd y berthynas ddwyochrog bwysicaf o hyd, yn hanfodol i gynghreiriau a grwpiau allweddol fel NATO a'r Pum Llygad, a hi yw ein partner masnachu dwyochrog a'n mewnfuddsoddwr mwyaf. Byddwn yn cryfhau ein cydweithredu mewn meysydd polisi traddodiadol fel diogelwch a chudd-wybodaeth ac yn ceisio ei atgyfnerthu lle gallwn gael mwy o effaith ar y cyd, er enghraifft, wrth ddelio â chyllid anghyfreithlon.

ii. **Cyd-ddiogelwch drwy NATO:** bydd y DU yn parhau'n Gynghreiriad Ewropeaidd arweiniol yn NATO, gan gydweithio â chynghreiriaid i atal bygythiadau niwclear, confensiynol a hybrid i'n diogelwch, yn enwedig oddi wrth Rwsia. Parhawn i ragori ar ganllaw NATO ar wario 2% o gynnyrch domestig gros ar amddiffyn, ac i ddatgan ein galluoedd niwclear a seiberymosod at amddiffyn Cynghreiriaid o dan ein hymrwymiad Erthygl 5.

iii. **Gwrthderfysgaeth a Throseddu Difrifol a Chyfundrefnol:** cadwn ein dinasyddion yn ddiogel rhag terfysgaeth, gan weithio gartref a thramor i ddarganfod, ymyrryd ac atal bygythiadau terfysgol, a rhoi sylw i'r sbardunau cychwynnol. Bydd ein galluoedd gwrthderfysgaeth yn cael eu hintegreiddio yn ein Canolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth newydd. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfundrefnol, gan gryfhau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a phlismona rhanbarthol a lleol, a chynnal ein rhwydweithiau rhyngwladol fel y gallwn roi sylw i'r cysylltiadau rhwng troseddoldeb o'r lefel leol i'r lefel ryngwladol.

iv. **Cynnal hawliau dynol cyffredinol:** byddwn yn gweithredu fel grym er daioni gan sefyll dros hawliau dynol o gwmpas y byd, gan ddarparu cymorth i gymdeithasau agored a defnyddio ein system sancsiynau annibynnol ('dull Magnitsky') i ddal yn atebol y rheini sy'n gysylltiedig ag ymyriadau difrifol â hawliau dynol.

v. **Nodau Datblygu Cynaliadwy:** byddwn yn parhau i fod ymysg y gwledydd sy'n rhoi'r symiau mwyaf at ddatblygu rhyngwladol drwy'r byd, wedi ymrwymo i'r frwydr fyd-eang yn erbyn tlodi ac i'r ymdrech i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig erbyn 2030. Byddwn yn helpu eraill i ddod yn fwy hunangynhaliol drwy fasnach a thwf economaidd ac yn cynyddu ein gallu i sicrhau newid hirdymor drwy gyfuno ein harbenigedd diplomyddol a datblygu.

vi. **Addysg merched:** byddwn yn parhau â'n hymdrechion i sicrhau bod pob merch yn cael o leiaf 12 mlynedd o addysg o ansawdd da ac i beri bod 40 miliwn yn rhagor o ferched mewn gwledydd sy'n datblygu yn mynd i'r ysgol erbyn 2025, drwy ein gwariant ar gymorth a'n llywyddiaeth– ar y cyd â Kenya – ar uwchgynhadledd y Bartneriaeth Fyd-eang dros Addysg yn 2021.

vii. **Economi ddigidol agored ac arloesol:** byddwn yn sefydlu'r DU yn ganolbwynt byd-eang ar gyfer gwasanaethau, digidol a data ac yn parhau'n un o economïau mwyaf agored y byd – gan hyrwyddo masnach rydd a theg, croesawu mewnfuddsoddi o dan ein cynllun ar gyfer twf a mynd i'r afael â chyllid anghyfreithlon. Defnyddiwn ein holl offer economaidd a'n polisi masnach annibynnol i greu twf economaidd a gaiff ei ddosbarthu'n fwy cyfartal ledled y DU ac i amrywiaethu ein cadwyni cyflenwi ar gyfer nwyddau hanfodol. Bydd yr Uned Diogelwch Buddsoddi newydd yn diogelu eiddo deallusol a chwmnïau Prydeinig rhag risgiau i ddiogelwch gwladol, gan ymyrryd â mewnfuddsoddi lle mae hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion o dan y Fframwaith Strategol, bydd rhai newidiadau sylweddol mewn polisi hefyd:

i. **Siapio trefn ryngwladol y dyfodol:** byddwn yn troi oddi wrth amddiffyn y sefyllfa bresennol o fewn y system ryngwladol wedi'r Rhyfel Oer ac at siapio'r drefn ôl-COVID mewn ffordd ddynamig, gan ei hestyn i feysydd newydd mewn seiberofod ac yn y gofod, ac amddiffyn gwerthoedd democrataidd. Bydd hyn yn galw am ddiplomyddiaeth weithgar, yn enwedig wrth ddefnyddio diplomyddiaeth reoliadol i ddylanwadu ar y rheolau, normau a safonau sy'n rheoli technoleg a'r economi ddigidol. Bydd hefyd yn galw arnom i wneud y mwyaf o'n pŵer i alw ynghyd ac i wneud rhagor i ennill etholiadau i swyddi uwch mewn sefydliadau amlochrog.

ii. **Ewrop:** bydd y DU yn parhau â buddiant mawr yn niogelwch a ffyniant Ewrop. O ganlyniad i'n hymadawiad â'r UE, mae gennym gyfle i ddilyn llwybrau economaidd a gwleidyddol gwahanol lle mae hyn o fudd i ni, ac i ddangos ymagwedd wahanol at bolisi tramor. Yn yr un modd, byddwn yn cydweithio â'r UE lle mae gennym fuddiannau cyffredin – er enghraifft, wrth gynnal sefydlogrwydd a diogelwch cyfandir Ewrop ac wrth gydweithredu ar yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

iii. **Hinsawdd a bioamrywiaeth:** byddwn yn arwain gweithredu rhyngwladol parhaus i symud yn gynt at sicrhau allyriadau sero net erbyn 2050 ac yn meithrin cadernid byd-eang o ran yr hinsawdd, gan ddechrau â'n llywyddiaeth ar COP26 yn 2021 a'n hymrwymiad o £11.6 biliwn at Gyllid Hinsawdd Rhyngwladol. A byddwn yn arwain ar ymdrechion i ddiwygio'r berthynas rhwng y byd a natur, a hynny'n cynnwys neilltuo £3 biliwn o'n Cyllid Hinsawdd Rhyngwladol at fesurau i ddiogelu ac adfer natur.

iv. **Gwyddoniaeth a thechnoleg:** byddwn yn cymryd camau mwy egnïol i feithrin a chynnal mantais strategol drwy wyddoniaeth a thechnoleg, gan eu defnyddio i gyrraedd ein nodau cenedlaethol. Byddwn yn creu amgylchedd lle bydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn gallu ffynnu yn y DU ac yn cydweithio'n ehangach ar lefel ryngwladol, gan sicrhau bod sylfaen ymchwil lwyddiannus y DU yn dylanwadu ar dechnolegau newydd a chritigol sy'n hanfodol ar gyfer cystadlu geowleidyddol a'n ffyniant yn y dyfodol. Mabwysiadwn fframwaith perchnogi-cydweithio-cyrchu i lywio gweithgareddau llywodraeth mewn meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg sydd â blaenoriaeth, fel deallusrwydd artiffisial, technolegau cwantwm a pheirianneg fiolegol.

v. **Pŵer seiber cyfrifol, democrataidd:** byddwn yn mabwysiadu strategaeth seiber gynhwysfawr i gynnal mantais gystadleuol y DU mewn maes sy'n datblygu'n gyflym. Byddwn yn creu cadernid a ffyniant digidol yn y DU, ac yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i'r DU mewn ffordd lawer mwy integredig, creadigol a rheolaidd – yn cynnwys offer seiber ymosodol y Llu Seiber Cenedlaethol – i ddarganfod, ymyrryd ac atal ein gwrthwynebwyr.

vi. **Y gofod:** byddwn yn sicrhau bod y DU yn gweithredu mewn ffordd ystyrlon yn y gofod, gyda strategaeth gofod integredig sy'n cyfuno polisi milwrol a pholisi gofod sifilaidd am y tro cyntaf. Byddwn yn cefnogi twf y sector gofod masnachol yn y DU, ac yn sicrhau bod galluoedd gan y DU i ddiogelu ac amddiffyn ein buddiannau mewn rhannau o'r gofod lle mae mwy o gystadlu a defnydd – yn cynnwys gweithredu drwy'r Rheolaeth Ofod newydd a'r gallu i lansio lloerennau Prydeinig o'r DU erbyn 2022.

vii. **Y rhanbarth Indo-Basiffig:** byddwn yn ceisio ymwneud yn fwy helaeth â'r rhanbarth Indo-Basiffig er mwyn cydffyniant a sefydlogrwydd rhanbarthol, gan gryfhau cysylltiadau diplomyddol a masnachol. Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod pwysigrwydd pwerau yn y rhanbarth fel Tsieina, India a Japan a hefyd yn cynnwys eraill fel De Korea, Fiet-nam, Indonesia, Malaysia, Gwlad Thai, Singapôr a'r Pilipinas (Ynysoedd Philippines). Byddwn yn ceisio cael cysylltiadau agosach drwy sefydliadau presennol fel ASEAN ac yn ceisio ymuno â'r CPTPP.

viii. **Tsieina:** Gwnawn ragor i ymaddasu i'r effaith gynyddol gan Tsieina ar nifer o agweddau ar ein bywydau wrth i'w phŵer gynyddu yn y byd. Byddwn yn buddsoddi i wella galluoedd mewn perthynas â Tsieina i gael gwell dealltwriaeth o Tsieina a'i phobl, gan wella ein gallu i ymateb i'r her systemig y mae'n ei chynnig i'n diogelwch, ffyniant a gwerthoedd ni a'n cynghreiriaid a phartneriaid. Parhawn i geisio perthynas masnach a buddsoddi gadarnhaol â Tsieina, gan sicrhau yr un pryd fod ein diogelwch gwladol a gwerthoedd yn cael eu gwarchod. Byddwn hefyd yn cydweithredu â Tsieina ar ddelio â heriau trawswladol fel y newid yn yr hinsawdd.

ix. **Iechyd byd-eang:** byddwn yn ymdrechu i gryfhau diogelwch iechyd byd-eang, yn cynnwys gwaith drwy gynllun pum pwynt y Prif Weinidog i gynyddu'r parodrwydd rhyngwladol am bandemigau. Byddwn yn ceisio sicrhau diwygio Sefydliad Iechyd y Byd, gan gynyddu ein cyllid iddo 30% i £340 miliwn dros y pedair blynedd nesaf, a byddwn yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi systemau iechyd a mynediad at dechnolegau iechyd newydd drwy ein Cymorth Datblygu Swyddogol.

x. **Lluoedd arfog:** byddwn yn creu lluoedd arfog sy'n barod ar gyfer ymladd mewn rhyfeloedd ac yn cymryd rhan yn fwy cyson ledled y byd drwy adleoli i'r rheng flaen, hyfforddi, meithrin gallu ac addysg. Bydd ganddynt alluoedd ym mhob maes – yn cynnwys meysydd mwy newydd y gofod a seiberofod ac yn datblygu galluoedd uwch-dechnoleg mewn meysydd eraill, fel y prosiect Future Combat Air System. Byddant hefyd yn gallu cadw'n wastad â newid yn y bygythiadau oddi wrth wrthwynebwyr, gyda rhagor o fuddsoddi mewn dulliau cyflym o ddatblygu a mabwysiadu technoleg.

xi. **Bygythiadau gwladwriaethol:** byddwn yn cynyddu ein hymdrechion i ddarganfod, atal ac ymateb i fygythiadau gwladwriaethol er mwyn diogelu ein pobl, seilwaith, economi a gwerthoedd rhag y rheini sy'n ceisio eu niweidio. Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth newydd i roi'r pwerau sydd eu hangen arnynt i'n hasiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a'r heddlu er mwyn delio â'r heriau a wynebwn yn y degawd nesaf.

xii. **Cadernid domestig a rhyngwladol:** byddwn yn gwella ein gallu ni – a gallu ein cynghreiriaid a phartneriaid – i rag-weld, atal, paratoi, ymateb ac ymadfer mewn perthynas â risgiau i'n diogelwch a ffyniant. Bydd yn hollbwysig mabwysiadu dull cymdeithas gyfan o ddatblygu cadernid ar draws yr Undeb, yn ogystal â chydweithredu â phartneriaid rhyngwladol i ymateb i heriau fel risgiau newid hinsawdd ac iechyd byd-eang. Gan ddysgu gwersi yn sgil COVID-19, byddwn yn gwella ein gallu i rag-weld ac ymateb i argyfyngau drwy sefydlu Canolfan Sefyllfaoedd drawslywodraethol yn Swyddfa'r Cabinet a datblygu gallu cenedlaethol mewn gefeillio digidol.

# III. Yr amgylchedd diogelwch gwladol a rhyngwladol hyd 2030


1. Mae'r adran hon yn disgrifio asesiad y Llywodraeth o'r cyd-destun strategol hyd 2030. Mae ei chasgliadau wedi'u seilio ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad Integredig (gweler Atodiad B), yn cynnwys ymgynghori allanol, yr alwad gyhoeddus am dystiolaeth a dadansoddi mewnol.

2. **Mae natur a dosbarthiad pŵer byd-eang yn newid** wrth i'r byd ddod yn fwy cystadleuol ac amlbegynol. Dros y degawd nesaf, credwn fod pedair tuedd gyffredinol a fydd yn neilltuol o bwysig i'r DU ac i'r drefn ryngwladol wrth iddi newid:

   - **Newidiadau geowleidyddol a geoeconomaidd:** fel pŵer a phenderfynoldeb cynyddol Tsieina ar lefel ryngwladol, y twf ym mhwysigrwydd y rhanbarth Indo-Basiffig i ffyniant a diogelwch byd-eang, a datblygiad marchnadoedd newydd a thwf y dosbarth canol byd-eang.
   - **Cystadlu systemig:** cystadlu mwy dwys rhwng gwladwriaethau ac mewn perthynas â gweithredwyr heblaw gwladwriaethau, a welir yn: yr ymryson cynyddol ynghylch rheolau a normau rhyngwladol; ffurfio blociau dylanwad geowleidyddol ac economaidd sy'n cystadlu â'i gilydd a gwerthoedd sy'n torri ar draws ein diogelwch a'n heconomi a'r sefydliadau sy'n sail i'n ffordd o fyw; targedu gwendidau mewn systemau democrataidd yn fwriadol gan wladwriaethau awdurdodyddol a gweithredwyr niweidiol; a rhoi prawf ar y ffin rhwng rhyfel a heddwch, wrth i wladwriaethau ddefnyddio nifer cynyddol o ddulliau gwahanol i danseilio a gorfodi eraill.
   - **Newid technolegol cyflym:** bydd datblygiadau technolegol a digideiddio'n ail-lunio ein cymdeithasau ac economïau ac yn newid perthnasoedd – rhwng gwladwriaethau, a rhwng y dinesydd, y sector preifat a'r wladwriaeth. Bydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn dod â buddion mawr ond bydd cystadlu systemig cynyddol yn eu cylch hefyd.
   - **Heriau trawswladol:** fel y newid yn yr hinsawdd, risgiau iechyd byd-eang, cyllid anghyfreithlon, troseddu difrifol a chyfundrefnol a therfysgaeth. Mae'r rhain yn bygwth ein cyd-ddiogelwch a'n ffyniant, fel bod angen cydweithredu a chydweithio amlochrog i fynd i'r afael â nhw. O'r heriau trawswladol hyn, newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth fydd yn rhoi'r prawf mwyaf ar gadernid byd-eang a bydd angen gweithredu arnynt ar frys mawr.

   Bydd y tueddiadau hyn yn gorgyffwrdd a rhyngweithio, a bydd **effeithiau hirdymor COVID-19** yn dylanwadu ar eu datblygiad mewn ffyrdd sy'n anodd eu rhag-weld ar hyn o bryd.

3. Y senario gorau y gellir ei rag-weld yw trefn ryngwladol lle gellir rheoli'r tueddiadau hyn yn effeithiol, a gwledydd yn dod ynghyd i adfer cydweithredu amlochrog, cryfhau llywodraethu byd-eang a harneisio cyfleoedd ar gyfer twf a ffyniant yn y dyfodol. Rhaid i ni baratoi hefyd at y posibilrwydd y bydd y drefn ryngwladol ar ôl COVID yn fwyfwy ymrysongar a digyswllt, fel y bydd llai o gydweithredu byd-eang ac fel y bydd yn fwy anodd gwarchod ein buddiannau a gwerthoedd. Pwrpas y Fframwaith Strategol sy'n dilyn y bennod hon yw ein helpu i ddelio â'r heriau sydd o'n blaen, drwy amlinellu sut byddwn yn cydweithio ag eraill, gan gynyddu cyfleoedd a lleihau risgiau i'r DU a'n dinasyddion.



**Newidiadau geowleidyddol a geoeconomaidd: byd sy'n dod yn fwy amlbegynol**

Bydd dilyniant geowleidyddol a geoeconomaidd mewn meysydd pwysig yn y 2020au: bydd UDA yn parhau'n archbŵer economaidd, milwrol a diplomyddol, ac yn gynghreiriad strategol pwysicaf i'r DU. Bydd y rhanbarth Ewro-Iwerydd yn parhau'n hanfodol i ddiogelwch a ffyniant y DU; bydd partneriaethau y tu allan i'r cylch Ewropeaidd agos yn parhau'n bwysig hefyd. Rwsia fydd y bygythiad uniongyrchol mwyaf difrifol i'r DU o hyd, a bydd UDA yn parhau i ofyn mwy gan ei chynghreiriaid yn Ewrop wrth rannu baich cyd-ddiogelwch.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, bydd dosbarthiad pŵer gwleidyddol ac economaidd byd-eang – o fewn a rhwng gwladwriaethau, a rhwng rhanbarthau – yn parhau i newid, gan greu goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i fuddiannau'r DU. Erbyn 2030, mae'n debygol y bydd y byd wedi troi'n fwy amlbegynol, ac y bydd y craidd disgyrchiant geowleidyddol ac economaidd wedi symud i'r dwyrain at y rhanbarth Indo-Basiffig.

**Tsieina yn gystadleuydd systemig.** Mae'n debygol mai'r cynnydd ym mhŵer a phenderfynoldeb Tsieina ar lefel ryngwladol fydd y ffactor geowleidyddol mwyaf arwyddocaol yn y 2020au. Bydd graddfa a chyrhaeddiad economi Tsieina, maint ei phoblogaeth, ei chynnydd technolegol a'i huchelgais cynyddol i ymestyn ei dylanwad ar y llwyfan byd-eang, er enghraifft drwy'r Fenter Llwybr Sidan, yn creu goblygiadau pellgyrhaeddol drwy'r byd. Mewn economïau masnachu agored fel y DU, bydd angen ymgysylltu â Tsieina ac aros yn agored i fasnachu a buddsoddi gan Tsieina, ond rhaid iddynt eu diogelu eu hunain hefyd rhag arferion sy'n amharu ar ffyniant a diogelwch. Bydd cydweithredu â Tsieina yn hollbwysig hefyd wrth fynd i'r afael â heriau trawswladol, yn enwedig newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

**Newidiadau yng nghydbwysedd pŵer economaidd byd-eang.** Mae'n debygol y bydd y sbardunau twf yn yr economi fyd-eang yn parhau i symud tua'r de a'r dwyrain, yn enwedig tua'r rhanbarth Indo-Basiffig. Mae disgwyl hefyd y bydd twf cyflym y marchnadoedd newydd yn cynyddu'r dosbarth canol byd-eang, o 3.8 biliwn o bobl yn 2018 i 5.3 biliwn yn 2030, gan greu mwy o gyfleoedd i fasnachu nwyddau a gwasanaethau â gwerth ychwanegol mwy. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wledydd fel y DU sy'n gryf yn y meysydd hyn.

**Twf byd-eang a sefydlogrwydd economaidd.** Cyn COVID-19, roedd y byd eisoes yn wynebu degawd o dwf gwan. Mae COVID-19 wedi achosi dirwasgiad byd-eang dwfn ac mae effaith economaidd y pandemig yn debygol o fod yn brif ffactor yn hanner cyntaf y degawd, a ffurf yr adferiad yn ansicr. Mae'n bosibl y bydd ergydion economaidd pellach, wedi'u hachosi, er enghraifft, gan effaith anghyfartal y technolegau newydd ar draws ac oddi mewn i wladwriaethau. Mae'r newid disgwyliedig o danwyddau ffosil yn debygol o greu heriau economaidd, yn enwedig i wledydd sy'n cynhyrchu olew.

**Heriau i economi fyd-eang agored.** Roedd globaleiddio wedi dechrau arafu ar ôl argyfwng ariannol 2008-09. Mae'n debygol y bydd COVID-19 yn cyflymu'r duedd at ddulliau gweithredu mwy rhanbarthol a chenedlaethol, er bod llifau masnach wedi ymadfer yn gymharol fuan ar ôl yr ergyd gychwynnol. Mae'n bosibl y bydd y momentwm o blaid rhyddfrydoli masnach yn parhau i arafu ac y bydd nifer yr enghreifftiau o ddiffynnaeth yn cynyddu, o ganlyniad i'r amodau gwleidyddol ac economaidd o fewn gwladwriaethau a'r cynnydd yn y defnydd ymosodol o bolisi economaidd a masnach i ysgogi cystadleuaeth rhwng gwladwriaethau.

**Tlodi byd-eang yn lleihau.** Mae tlodi byd-eang wedi lleihau'n sylweddol yn y degawdau diwethaf, a rhagwelir y bydd yn llai na 5% erbyn 2050. Wedi'r ergyd gyntaf o ganlyniad i COVID-19, mae'r momentwm o ran lleihau tlodi'n debygol o ailafael, a'r rhagolygon yw y bydd tlodi absoliwt wedi'i ddileu bron yn Asia ac America Ladin yn y 2030au. Fodd bynnag, yn ôl y tueddiadau presennol bydd Affrica yn colli tir fwyfwy: erbyn 2045, mae'n debygol y bydd tua 85% o'r biliwn o bobl dlotaf yn byw yn Affrica.

**Gwella addysg yn fyd-eang.** Dros y degawdau nesaf, mae'n debygol y bydd technoleg yn gwella'r mynediad at addysg yn sylweddol drwy'r byd, yn ogystal ag ansawdd yr addysg honno. Erbyn 2050, mae'n debygol y bydd bron pawb yn cael mynediad rhwydd at addysg ar-lein, wrth i dechnoleg ddod yn fwyfwy cludadwy, hygyrch a chyflym. Mae'n debygol y bydd hyn yn helpu i barhau i wella cyfraddau llythrennedd byd-eang. Yn 2000, roedd 81% o boblogaeth y byd yn gallu darllen; erbyn 2016 roedd hyn wedi cynyddu i 86% ac erbyn 2050 mae'n debygol o fod oddeutu 95%.

**Newid mewn demograffeg.** Rhagwelir y bydd poblogaeth y byd yn cyrraedd 8.6 biliwn erbyn 2030. Bydd y boblogaeth yn tyfu fwyaf yn Affrica Is-Sahara, drwy ryngweithio â thueddiadau eraill, yn cynnwys newid hinsawdd, tlodi a gwrthdaro ac ansefydlogrwydd. Ar lefel fyd-eang, bydd diffyg cydbwysedd demograffig yn dod yn fwy amlwg, gyda phoblogaethau sy'n heneiddio mewn mwy o rannau o'r byd.

**Pwysigrwydd geowleidyddol y pwerau canolig.** Nid yw'n debygol y bydd cynnydd yn y cystadlu rhwng pwerau mawr yn golygu adfer blociau tebyg i rai'r Rhyfel Oer. Yn hytrach, mae dylanwad y pwerau canolig yn debygol o dyfu yn y 2020au, yn enwedig lle byddant yn cydweithredu. Yn y cyd-destun hwn, bydd pwysigrwydd geowleidyddol ac economaidd y rhanbarth Indo-Basiffig yn cynyddu, gyda nifer o bwerau rhanbarthol sy'n bwysig a dylanwadol, ar eu pen eu hunain a chyda'i gilydd. Bydd cystadlu'n digwydd yno drwy filwroli yn y rhanbarth, tensiynau ar y môr, ac ymryson ynghylch rheolau a normau sy'n gysylltiedig â masnach a thechnoleg.

**Heriau i lywodraethu democrataidd.** Mae rôl geowleidyddol gweithredwyr heblaw gwladwriaethau, yn enwedig cwmnïau technoleg mawr, yn debygol o barhau i gynyddu. Mewn rhai democratiaethau, mae'n bosibl y bydd anghydraddoldeb – a fydd yn fwy amlwg oherwydd technoleg ddigidol – yn arwain at fwy o anfodlonrwydd cymdeithasol a gwleidyddol. Mae'n bosibl y bydd llywodraethau'n ei chael yn anodd cwrdd â galwadau poblogaidd am ddiogelwch a ffyniant, ac y bydd ymddiriedaeth wedi'i thanseilio'n bellach gan dwyllwybodaeth wedi'i lledaenu gan weithredwyr maleisus. Bydd gwladwriaethau awdurdodyddol yn wynebu ac yn gwrthsefyll heriau tebyg gan ddefnyddio dulliau gwahanol, yn cynnwys technolegau ar gyfer gwyliadwriaeth a rheolaeth wleidyddol.

### Cystadlu systemig: amgylchedd rhyngwladol lle mae mwy o gystadlu

Mewn byd amlbegynol, bydd ymryson cynyddol rhwng gwladwriaethau a grwpiau o wladwriaethau i siapio'r amgylchedd rhyngwladol. Bydd gweithredwyr heblaw gwladwriaethau – yn amrywio o gwmnïau technoleg mawr i grwpiau troseddu cyfundrefnol – yn cymryd rhan yn y cystadlu hwn, gan ei wneud yn fwy cymhleth.

Bydd cystadlu systemig yn pennu ffurf y drefn ryngwladol yn y dyfodol: y graddau y bydd yn agored, yn parhau i gyfnewid syniadau a masnachu'n ddirwystr, ac yn hwyluso cydweithredu ar heriau trawswladol; neu wedi'i darnio a'i rhannu'n fras yn gymdogaethau geowleidyddol ac yn ecosystemau technolegol, gan erydu'r cydweithio rhwng gwledydd a hwyluso lledaeniad awdurdodyddiaeth. Mae'r cystadlu'n debygol o fod yn 'systemig' mewn nifer o ffyrdd:

**Cystadlu rhwng systemau gwleidyddol.** Bydd mwy o gystadlu ideolegol rhwng gwahanol fathau o system wleidyddol. Ar sail y tueddiadau presennol, bydd y dirywiad a gafwyd dros 15 mlynedd diwethaf mewn democratiaeth a phlwraliaeth yn parhau tan 2030, wedi'i gyflymu gan COVID-19. Mae'n debygol iawn y bydd tensiynau rhwng gwladwriaethau democrataidd a rhai awdurdodyddol yn dod yn fwy amlwg, wrth i wladwriaethau awdurdodyddol geisio allforio eu modelau domestig, tanseilio cymdeithasau ac economïau agored, a chymhwyso eu gwerthoedd at lywodraethu byd-eang.

**Cystadlu i siapio'r drefn ryngwladol.** Bydd cystadlu'n rhoi mwy o straen ar y strwythur amlochrog presennol, gan wanhau rheolau a normau sefydledig sy'n llywio ymddygiad rhyngwladol. Mewn rhai meysydd, fel technoleg newydd neu'r gofod, bydd ymryson cynyddol – lle bydd gweithredwyr heblaw gwladwriaethau'n chwarae rhan bwysig – i siapio rheolau, normau a safonau newydd, a rheoli mynediad at adnoddau a rennir fel y gofod. Mae'r rhannau hynny o'r strwythur rhyngwladol lle mae cydweithredu amlochrog yn ychwanegu gwerth, fel y Sefydliadau Ariannol Rhyngwladol, yn fwy tebygol o ffynnu. Mewn cyferbyniad â hyn, lle mae dulliau amlochrog wedi'u rhwystro, bydd gwledydd yn debygol o ffurfio cawcws mewn grwpiau llai neu ar sail ranbarthol neu syniadol.

**Cystadlu ar draws nifer o feysydd gweithredu.** Bydd cystadlu'n parhau ym meysydd milwrol confensiynol y tir, y môr a'r awyr, ac yn cynyddu mewn meysydd eraill, yn cynnwys technoleg, seiberofod a'r gofod, gan ddylanwadu ymhellach ar yr amgylchedd geowleidyddol ehangach. Bydd cystadlu systemig yn rhoi prawf ychwanegol ar y ffin rhwng heddwch a rhyfel, wrth i weithredwyr niweidiol arfer dulliau mwy amrywiol – fel gwladweinyddiaeth economaidd, seiberymosod, twyllwybodaeth a dirprwyon – i gyflawni eu hamcanion heb wrthdaro agored. Mae'n debygol y bydd y DU yn aros yn un o'r prif dargedau i fygythiadau o'r fath. Bydd technegau a thechnolegau newydd yn her i'n gallu i atal ymosodiadau.

**Amgylchedd diogelwch sy'n dirywio.** Bydd twf o ran arfogaeth CBRN, arfau confensiynol datblygedig a thechnolegau milwrol newydd yn cynyddu'r risg o wrthdaro, a'i ddwyster, ac yn creu heriau sylweddol i sefydlogrwydd strategol. Mae'n bosibl y bydd y manteision mewn galluoedd uwch-dechnolegol yn cael eu herydu gan fygythiadau llai technolegol sy'n fforddiadwy ac ar gael yn rhwydd fel dronau a dyfeisiau ffrwydrol a luniwyd yn fyrfyfyr. Bydd gwladwriaethau manteisgar yn chwilio'n amlach am fanteision strategol drwy danseilio a chamfanteisio ar systemau democrataidd ac economïau agored. Bydd Rwsia yn fwy gweithredol yn y cylch Ewropeaidd ehangach, a bydd Iran a Gogledd Korea yn parhau i ddadsefydlogi eu rhanbarthau. Bydd yr effaith sylweddol o foderneiddio milwrol gan Tsieina a'i phenderfynoldeb cynyddol ar lefel ryngwladol o fewn y rhanbarth Indo-Basiffig a thu hwnt yn peri risg gynyddol i fuddiannau'r DU.

**Gwrthdaro ac ansefydlogrwydd cynyddol.** Yn y degawd diwethaf, gwelwyd cynnydd mewn gwrthdaro treisgar ledled y byd. Yn 2016 a 2019 gwelwyd y nifer mwyaf o wrthdrawiadau arfog drwy'r byd er 1946 – y rhan fwyaf ohonynt yn rhyfeloedd cartref yn cynnwys gweithredwyr allanol. Hyd 2030, bydd gwrthdaro ac ansefydlogrwydd yn parhau'n gyffredin a gallent gynyddu os na chymerir camau ar y cyd i ddelio â'r sbardunau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylfaenol, yn enwedig mewn gwladwriaethau gwan. Oherwydd cystadlu systemig, mae'n debygol y bydd pwerau allanol yn parhau i gymryd rhan mewn gwrthdaro cenedlaethol a rhanbarthol, gan ddylanwadu ar eu cwrs er eu mantais nhw eu hunain. Bydd hyn yn cynyddu'r risg o waethygu gwrthdaro.

**Gwladweinyddiaeth economaidd.** Bydd mwy o wladwriaethau'n mabwysiadu gwladweinyddiaeth economaidd ar gyfer cystadlu systemig. Yn ogystal â mwy o ddiffynnaeth a chenedlaetholdeb economaidd, bydd hyn weithiau'n cynnwys y defnydd bwriadol o ddulliau economaidd – yn amrywio o bolisi economaidd confensiynol i gyllid anghyfreithlon – i dargedu a thanseilio buddiannau economaidd a diogelwch eu cystadleuwyr. Bydd mwy o gystadlu am adnoddau naturiol prin fel mwynau hanfodol, yn cynnwys prinfwynau, a gellid rheoli cyflenwadau er mwyn dylanwadu ar faterion eraill.

**Seiberofod.** Bydd mwy o gystadlu ym maes gweithredol y seiberofod, gan wladwriaethau a gweithredwyr eraill. Bydd y twf mewn galluoedd seiber mewn gwledydd ac ymysg grwpiau troseddu cyfundrefnol, ynghyd â'r ddibyniaeth gynyddol bob dydd ar seilwaith digidol, yn creu mwy o risgiau o niwed uniongyrchol a chyfochrog i'r DU. O ganlyniad i hyn, bydd pŵer seiber yn dod yn fwyfwy pwysig. Ceir ymryson i lunio'r amgylchedd digidol byd-eang rhwng 'rhyddid digidol' ac 'awdurdodyddiaeth ddigidol', a bydd goblygiadau pwysig o hynny i lywodraethu yn y byd go iawn.

**Y gofod.** Bydd y cyfleoedd yn cynyddu ym maes gweithredol y gofod, wrth i'r defnydd o dechnolegau newydd greu posibiliadau newydd – yn amrywio o gyfleoedd masnachol i ddatblygu rhyngwladol a gweithredu ar yr hinsawdd. Ond bydd y defnydd cynyddol o'r gofod at ddibenion masnachol a milwrol yn ei wneud yn faes cystadleuol pwysig; bydd risgiau sylweddol i sefydlogrwydd strategol os na fydd hyn yn cael ei reoli a'i reoleiddio'n effeithiol.

### Newid technolegol cyflym: gwyddoniaeth a thechnoleg yn fesur o bŵer

Bydd gwyddoniaeth a thechnoleg o bwys canolog i'r cyd-destun strategol: yn hanfodol i weithrediadau economïau a chymdeithasau, yn ail-lunio systemau gwleidyddol ac yn ffynhonnell cydweithredu a chystadlu rhwng gwladwriaethau. Bydd hyn yn datblygu mewn nifer o ffyrdd:

**Maes sy'n newid yn gyflym.** Mae maes gwyddoniaeth a thechnoleg wedi newid yn sylweddol er 2015 a bydd y newid yn cyflymu ymhellach hyd 2030. Mae technolegau a chymwysiadau newydd yn cael eu datblygu a'u mabwysiadu'n gyflymach nag erioed. Mae deallusrwydd artiffisial yn cyflymu'r broses darganfod gwyddonol; disgwylir y bydd technolegau cwantwm yn arwain at gynnydd ar ddelweddu meddygol ac ar fesur meysydd trydanol, magnetig a disgyrchiant; a bydd camau ymlaen mewn technolegau glân yn rhoi dulliau newydd a rhatach i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae technegau dadansoddi newydd yn ein galluogi i ddysgu mwy o setiau data cynyddol, gan hwyluso arloesi.

**Gwyddoniaeth a thechnoleg yn faes cystadlu systemig.** Dros y degawd nesaf, bydd y gallu i hyrwyddo a harneisio gwyddoniaeth a thechnoleg yn fwyfwy pwysig fel ffordd i fesur pŵer ar lefel ryngwladol, gan roi manteision economaidd, gwleidyddol a milwrol. Mae'r 'archbwerau' technoleg yn buddsoddi i aros ar y blaen. Ar yr un pryd, mae nifer cynyddol o wledydd bellach yn gallu cystadlu ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg, ac mae cwmnïau technoleg mawr yn gallu dod yn fwy pwerus drwy gynnwys datblygiadau newydd a gynhyrchwyd gan gwmnïau bach. Felly mae'r cystadlu'n dwysáu, yn bennaf o dan ddylanwad cwmnïau rhyngwladol sy'n cael eu cefnogi gan wladwriaethau sydd, mewn rhai achosion, yn defnyddio dull 'economi gyfan' i sicrhau goruchafiaeth mewn meysydd hanfodol. Bydd y gallu i gadw mantais gystadleuol yn dibynnu ar ragoriaeth mewn technoleg a'r gallu i'w defnyddio – yn ogystal â'r gallu i sicrhau'r adnoddau dynol a naturiol sydd eu hangen i'w harneisio – a'r gallu i ddiogelu eiddo deallusol. Wrth i swm y data gynyddu fwyfwy, bydd y gallu i'w cynhyrchu a'u defnyddio i hyrwyddo arloesi yn hanfodol o ran hwyluso mantais strategol drwy wyddoniaeth a thechnoleg.

**Heriau newydd i ddiogelwch, cymdeithas a hawliau'r unigolyn.** Bydd technoleg yn agor y drws i fathau newydd o weithgarwch gelyniaethus ac ymosodiadau mewn meysydd fel seiberofod a'r gofod, yn enwedig drwy ledaenu twyllwybodaeth ar-lein, ymysg pethau eraill. Bydd yn tanseilio cydlyniant cymdeithasol a hunaniaeth gymunedol a chenedlaethol wrth i unigolion dreulio mwy o amser mewn byd rhithwir ac wrth i awtomeiddio ail-lunio'r farchnad lafur. Er y bydd y defnydd o ddata personol yn helpu i hybu arloesi, bydd hefyd yn creu heriau i breifatrwydd a rhyddid yr unigolyn, yn cynnwys yr heriau sy'n codi am fod technolegau gwyliadwriaeth ar gael yn fwy eang.

**Technoleg a safonau data.** Mae datblygiadau technolegol wedi bod yn sbardun i lunio rheolau byd-eang erioed. Ond yn y blynyddoedd nesaf, bydd cyflymder y newid yn gymaint fel ei bod yn debygol y bydd bwlch cynyddol rhwng yr hyn sy'n bosibl drwy ddatblygiadau technolegol a'r terfynau presennol ar lywodraethu byd-eang. Oherwydd hyn, bydd cystadlu dwys mewn meysydd newydd – ac o ran y technolegau, y seilwaith a'r data ar gyfer eu defnyddio – ynghylch datblygu rheolau, normau a safonau.

## Heriau trawswladol: rhoi prawf ar gadernid a chydweithredu rhyngwladol

Nid COVID-19 fydd unig argyfwng byd-eang y 2020au. Mae'r byd yn wynebu heriau trawswladol sy'n gorgyffwrdd, yn ategu ei gilydd ac yn galw am ymateb byd-eang. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft: newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth sy'n sbarduno tlodi, ansefydlogrwydd ac ymfudo; gwladwriaethau'n parhau i ddefnyddio grwpiau troseddu cyfundrefnol fel dirprwyon mewn cystadlu systemig; a thechnoleg sy'n hwyluso a hefyd yn helpu i ddarganfod terfysgaeth, troseddu difrifol a chyfundrefnol a chyllid anghyfreithlon.

**Y newid yn yr hinsawdd.** Mae allyriadau carbon deuocsid byd-eang o danwyddau ffosil a diwydiant wedi cynyddu o bum biliwn tunnell i fwy na 36 biliwn rhwng 1950 a 2019. Mae angen cymryd camau sylweddol i ddatgarboneiddio'r economi fyd-eang erbyn 2030 i atal newid hinsawdd rhag cyflymu'n gynt ac efallai'n ddi-droi'n-ôl: o dan bolisïau presennol bydd y byd yn cynhesu tua 3.5 gradd erbyn diwedd y ganrif, ac mae risgiau gwirioneddol iddo gynhesu'n fwy byth. Wrth i'r economi ymadfer ar ôl COVID-19, mae cyfle i gyflymu'r newid i economi sero net. Ar yr un pryd, bydd y newid presennol yn yr hinsawdd yn achosi difrod cynyddol: digwyddiadau tywydd amlach a dwysach fel gwres, stormydd a glaw eithafol yn arwain at fwy o lifogydd, tirlithriadau ac effeithiau eraill fel tân gwyllt. Mae hyn yn gallu dwysáu dadleoli ac ymfudo – gan wneud cyflenwadau bwyd a dŵr yn llai diogel – a difrodi ecosystemau. Profir yr effeithiau gwaethaf yn Affrica Is-Sahara, De a Dwyrain Asia a'r Dwyrain Canol, a bydd effaith fwy ar gyfartaledd ar ardaloedd sydd eisoes yn wan ac ar y bobl sy'n byw ynddynt.

**Colli bioamrywiaeth.** Mae bioamrywiaeth fyd-eang eisoes yn dirywio'n fwy nag a welwyd erioed o'r blaen: mae 75% o arwynebedd tir y byd a 66% o'r cefnforoedd wedi newid a dirywio'n sylweddol o ganlyniad i weithgarwch pobl ac amcangyfrifwyd bod un miliwn o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu. Hyd 2030, bydd patrymau cynhyrchu a defnyddio anghynaliadwy, twf poblogaeth a datblygiadau technolegol yn arwain at golli mwy o fioamrywiaeth, o ganlyniad i newid yn y defnydd o dir a môr, gorelwa, newid hinsawdd, llygredd a rhywogaethau goresgynnol estron. Bydd hyn yn dod â chanlyniadau difrifol iawn i dlodion y byd a'r rheini sy'n agored i niwed.

**Iechyd byd-eang.** Mae achosion o glefydau heintus yn debygol o ddigwydd yn fwy aml hyd 2030. Bydd nifer ohonynt yn filheintiau – clefydau a achoswyd gan feirysau, bacteria neu barasitiaid sy'n ymledu o anifeiliaid i bobl – wrth i dwf poblogaeth sbarduno dulliau amaethu dwysach ac wrth i'r rhyngweithio gynyddu rhwng pobl ac anifeiliaid o ganlyniad i golli cynefinoedd. Mae posibilrwydd gwirioneddol y ceir pandemig o fath newydd. Ar sail y tueddiadau presennol, bydd nifer y marwolaethau drwy'r byd sy'n gysylltiedig ag ymwrthedd gwrthficrobaidd yn cynyddu o 700,000 i 20 miliwn y flwyddyn erbyn 2050.


**Llifau ymfudo.** Bydd ymfudo yn aros yn elfen barhaol yn y cyd-destun byd-eang. Bydd newid demograffig, newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, gwrthdaro ac ansefydlogrwydd a thlodi – wedi'u gwaethygu gan effeithiau COVID-19 – yn ysgogi mwy o symudiadau poblogaeth, a bydd ymfudo torfol i Ewrop o'r Dwyrain Canol ac Affrica yn benodol. Ond mae ymfudo rhwng ac oddi mewn i wladwriaethau'n debygol o achosi mwy o straen mewn rhannau eraill o'r byd.

**Radicaleiddio a therfysgaeth.** Bydd terfysgaeth yn parhau'n fygythiad mawr dros y degawd nesaf, gyda mwy o wahanol achosion materol a gwleidyddol, ffynonellau radicaleiddio newydd a newid a datblygu mewn tactegau. Yn y DU, prif ffynonellau'r bygythiad o derfysgaeth yw terfysgaeth Islamaidd a therfysgaeth gysylltiedig â Gogledd Iwerddon, a therfysgaeth y de eithaf, y chwith eithaf, anarchaidd a therfysgaeth un pwnc. Yng Ngogledd Iwerddon, mae risg o hyd y gallai rhai grwpiau geisio ysgogi a chamfanteisio ar ansefydlogrwydd gwleidyddol. Mewn gwledydd tramor, mae anhrefn a llywodraethu gwael, yn enwedig yn Affrica a'r Dwyrain Canol, yn debygol o greu mwy o gyfleoedd i weithredu gan grwpiau terfysgol ac eithafol. Mae posibilrwydd gwirioneddol y bydd mwy o nawdd i derfysgaeth gan wladwriaethau a mwy o ddefnydd o ddirprwyon. Mae'n debygol y bydd grŵp terfysgol yn cychwyn ymosodiad llwyddiannus ag arfau CBRN erbyn 2030.

**Troseddu difrifol a chyfundrefnol a chyllid anghyfreithlon.** Bydd troseddu difrifol a chyfundrefnol yn parhau i gael effaith sylweddol ar ddinasyddion y DU. Mae'n debygol y bydd troseddu o'r fath yn fwy cymhleth ac ar raddfa fwy – gyda chymorth technolegau newydd – ac y bydd yn addasu i ddigwyddiadau'n gyflymach na llywodraethau. Bydd y rhan fwyaf o droseddu difrifol a chyfundrefnol yn drawswladol o hyd: bydd troseddwyr yn caffael nwyddau anghyfreithlon, yn camfanteisio ar bobl agored i niwed ac yn twyllo dinasyddion a busnesau yn y DU o wledydd tramor. Bydd troseddu difrifol a chyfundrefnol hefyd yn hwyluso bygythiadau fel bygythiadau gwladwriaethol a therfysgaeth, a bydd yn tanseilio sefydlogrwydd rhanbarthol, yn enwedig mewn ardaloedd lle bu gwrthdaro. Caiff ei hwyluso o hyd gan lifau cyllid anghyfreithlon ar draws ffiniau, ac mae'n debygol y bydd degau o biliynau o bunnoedd yn cael eu gwyngalchu drwy'r DU bob blwyddyn.

# IV. Fframwaith Strategol

Alphafold Deepmind: Ymchwil drwy ddeallusrwydd artiffisial yn y DU sy'n rhag-weld strwythurau proteinau drwy ddatrys problem gyfrifiadol gymhleth: bydd hyn yn arwain at gynnydd sylfaenol mewn peirianneg fiolegol. Llun a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur yw hwn o T1037, rhan o brotein o feirws sy'n heintio bacteria. © Deepmind



# 1. Cynnal mantais strategol drwy wyddoniaeth a thechnoleg

1. Mae'r newidiadau cyflym ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg yn trawsnewid nifer o agweddau ar ein bywydau, yn ail-lunio ein heconomi a'n cymdeithas mewn ffordd sylfaenol, ac yn arwain at welliannau na ellid eu dychmygu o'r blaen mewn iechyd, lles a ffyniant byd-eang. Wrth i'r cystadlu gynyddu rhwng gwladwriaethau, bydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn bwysicach hefyd o ran cystadlu systemig. Yn y blynyddoedd nesaf, bydd gwledydd sy'n arwain mewn technolegau newydd a hanfodol yn dod i'r blaen mewn arweinyddiaeth fyd-eang.

2. Mae gan y DU hanes rhagorol o arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg – darganfod graffen, deall strwythur DNA, a chyfrannu triniaethau sy'n achub bywydau a brechlyn i'r ymdrech fyd-eang yn erbyn COVID-19. Yn yr amgylchedd mwy cystadleuol a chyfnewidiol sydd o'n blaen, **rhaid i'r DU fynd ati'n egnïol i feithrin a chynnal mantais gystadleuol barhaus mewn gwyddoniaeth a thechnoleg** – gan rag-weld, asesu a chymryd camau ar ein blaenoriaethau yn y maes hwn i sicrhau mantais strategol i'r DU. Bydd hyn yn fwyfwy pwysig i'n ffyniant domestig a'n cysylltiadau rhyngwladol yn y degawd nesaf. Mae hefyd yn sail hanfodol i holl amcanion y Fframwaith Strategol hwn: sicrhau bod gan y DU yr offer a'r dylanwad sydd eu hangen i siapio trefn ryngwladol i'r dyfodol wedi'i seilio ar werthoedd democrataidd; cryfhau ein diogelwch a chadw mantais filwrol; a chyfrannu at adeiladu byd mwy cydnerth.

3. **Ein nod cyntaf yw tyfu pŵer y DU o ran gwyddoniaeth a thechnoleg er mwyn ceisio sicrhau mantais strategol.** Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, bydd angen ymdrech gan y DU gyfan, lle mai prif rôl y Llywodraeth fydd creu amgylchedd ffyniannus ar gyfer gwyddoniaeth a thechnoleg sy'n cynnwys gwyddonwyr, ymchwilwyr, dyfeiswyr ac arloeswyr, ar draws y byd academaidd, y sector preifat, cyrff rheoleiddio a gosod safonau, gan gydweithio â gweithgynhyrchwyr i drosglwyddo syniadau arloesol i'r farchnad. Mae hefyd yn galw am wneud dewisiadau a phenderfyniadau strategol gan y Llywodraeth, ar flaenoriaethau o ran gwyddoniaeth a thechnoleg ac ar ffyrdd i ddefnyddio ein gallu cenedlaethol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg i gyrraedd nodau polisi ehangach – yn amrywio o allyriadau sero net i dwf economaidd.

4. **Ein hail nod yw cadarnhau lle'r DU fel pŵer seiber cyfrifol a democrataidd sy'n gallu diogelu a hyrwyddo ein buddiannau drwy'r seiberofod ac oddi mewn iddo.** Mae'r seiberofod yn unigryw am ei fod wedi'i greu gan ddyn, am ei fod yn mynd drwy newidiadau technolegol cyflym, ac am fod y rheolau a normau ar ei gyfer yn gynnar yn eu datblygiad; gyda'i gilydd, mae pob un o'r nodweddion hyn yn creu cyfle a risg anferthol. Dros y degawd diwethaf, rydym wedi sefydlu'r DU yn bŵer seiber, gan feithrin galluoedd seiber amddiffynnol ac ymosodol blaengar, a datblygu sector seiberddiogelwch heb ei ail. Yn yr oes ddigidol, bydd aros ar y blaen ym maes seiber yn hanfodol i'r fantais strategol sydd gennym mewn gwyddoniaeth a thechnoleg.

## 1.1 Tyfu pŵer y DU o ran gwyddoniaeth a thechnoleg

5. Mae'r DU yn bŵer gwyddoniaeth a thechnoleg eisoes. Yn ogystal â'n sylfaen ymchwil ddwfn ac eang, rydym yn bedwerydd yn y Mynegai Arloesedd Byd-eang (2020), yn denu cyfalaf menter sylweddol – ar lefel sy'n uwch na'r Almaen, Ffrainc a Sweden gyda'i gilydd – ac yn arwain y byd ar gymhwyso arloesedd a thechnoleg drawsnewidiol.

6. Er hynny, mae angen i'r DU elwa i'r eithaf o arloesi, drwy sicrhau bod syniadau'n cael eu cymhwyso'n ymarferol mewn ffordd sy'n gwella bywyd pob dydd ac yn cyfrannu at gynhyrchiant, twf economaidd a dylanwad rhyngwladol. Un broblem gyffredin ym maes arloesi yn y DU yw, er bod cymorth ar gael ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu cynnar, ei fod yn dod i ben yn aml cyn i syniadau gael eu masnacholi'n llawn a'u trosglwyddo i'r farchnad. O ganlyniad i hyn, bydd arloesedd ac eiddo deallusol yn gadael y DU weithiau cyn i gwmnïau allu aeddfedu a sicrhau llwyddiant masnachol.

7. Er mwyn creu mantais gystadleuol barhaus mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, **rhaid sicrhau bod llwyddiant ein sylfaen ymchwil yn troi'n ddylanwad ar ddylunio a defnyddio technolegau newydd a hanfodol.** Mae hyn yn galw am greu amgylchedd ffafriol – yn amrywio o weithlu talentog a seilwaith gwyddoniaeth cadarn i fasnacholi cyflym, y gallu i ddenu partneriaid rhyngwladol dibynadwy, a fframweithiau moesegol a chyfreithiol sy'n meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd a pharodrwydd i dderbyn technolegau newydd. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn rhoi **blaenoriaeth i'r camau gweithredu** canlynol:

- **Datblygu sylfaen gwyddoniaeth a thechnoleg lwyddiannus y DU.** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynyddu'r buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu ar draws yr economi i 2.4% o gynnyrch domestig gros erbyn 2027, yn cynnwys drwy fewnfuddsoddi. Drwy'r map trywydd ymchwil a datblygu, sicrhawn fod gwariant cyhoeddus ar ymchwil a datblygu yn parhau i gynnal ymchwil ddarganfod, a bod mwy o fuddsoddi mewn ymchwil gymhwysol, datblygu a gweithredu. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o sylw i ganlyniadau seiliedig ar leoedd, gan sicrhau bod gwariant cyhoeddus ar ymchwil a datblygu yn creu twf a budd i gymdeithas ledled y DU. Derbyniwn fwy o risg yn ein buddsoddiadau cyhoeddus, gan gefnogi'r syniadau mwyaf creadigol, arloesol a radicalaidd i'w datblygu yn y dyfodol. Buddsoddwn o leiaf £800 miliwn i sefydlu corff annibynnol ar gyfer ymchwil sydd â risg a budd mawr: yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar (ARIA), a fydd yn hyrwyddo technolegau arloesol ac ymchwil sylfaenol drwy arbrofi.
- **Gwireddu potensial yr ecosystem gwyddoniaeth a thechnoleg a data yn y DU drwy wella a chyflymu'r broses rhwng ymchwil a masnacholi.** Bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r holl ddulliau gweithredu sydd ar gael iddi i ddatblygu'r seilwaith ac amgylchedd busnes a rheoleiddio i hyrwyddo arloesi a mabwysiadu technoleg newydd ym mhob rhan o economi'r DU. Gwnawn hyn mewn partneriaeth â phawb sy'n ymwneud â gwyddoniaeth a thechnoleg ym Mhrydain, o fewn llywodraeth ac ar draws y gweinyddiaethau datganoledig, y byd academaidd, y sector preifat, y sector ariannol, cyrff rheoleiddio a gosod safonau. Bydd cynllun twf y Llywodraeth a'r strategaethau digidol a data cenedlaethol yn rhan annatod o'r ymdrech hon, ynghyd â'r diwygiadau rheoliadol i hybu twf ac arloesi sydd wedi'u hamlinellu yn y papur gwyn ar reoleiddio ar gyfer y pedwerydd chwyldro diwydiannol. Byddwn yn gwella mynediad at gyllid, yn cynnwys hynny gan fuddsoddwyr arbenigol sy'n gallu darparu cyfalaf tymor hwy i gwmnïau addawol ar bob cam yn eu twf. Sicrhawn mai'r DU yw'r lle gorau yn y byd i fod yn ymchwilydd, dyfeisiwr neu arloeswr, gan gynnig mwy i bobl dalentog drwy'r Swyddfa Dalentau sydd newydd ei sefydlu a chyflwyno'r Fisa Talentau Byd-eang.
- **Diogelu ein heiddo deallusol a'n hymchwil sensitif yn well.** Byddwn yn cefnogi'r sector ymchwil ac arloesi drwy'r rhaglen Ymchwil Ddibynadwy ac yn cymryd camau i ddiogelu ein sefydliadau, galluoedd a sgiliau lle mae diogelwch gwladol yn galw am hynny– yn cynnwys camau i sicrhau bod cwmnïau'n gallu cael gafael ar gyllid buddsoddi yn ddiogel (gweler 2.2).

### Denu talentau byd-eang i'r DU

Uchelgais y DU yw dod yn brif gyrchfan i dalentau rhyngwladol, gan gynnig y cyfleoedd proffesiynol, amgylchedd sgiliau ac ansawdd bywyd da i ddenu'r gwyddonwyr, ymchwilwyr ac arloeswyr gorau o bedwar ban byd i ymgartrefu yn y DU.

Bydd y Swyddfa Dalentau sydd newydd ei sefydlu yn sicrhau bod arlwy'r DU i dalentau'n gryfach nag erioed ar gyfer myfyrwyr, y rheini sy'n datblygu eu gyrfa, a'r rheini sydd eisoes yn arwain y byd yn eu meysydd. O ganlyniad i hyn, bydd y rheini sydd â'r dalent, y potensial, yr egni a'r creadigedd mwyaf yn ei chael yn haws dod i'r DU o bob rhan o'r byd – drwy estyn llaw at y rheini sydd â'r sgiliau sydd eu hangen yn y DU a'u helpu i ddeall y cyfleoedd sydd ar gael.

Ategir yr uchelgais hwn gan system mewnfudo newydd y DU sy'n seiliedig ar bwyntiau. Bydd hyn yn sicrhau bod y broses mewnfudo yn syml, yn rhwydd ac yn gyflym, i hyrwyddo nodau i greu economi uchel ei chyflogau, ei sgiliau a'i chynhyrchiant. Mae'r Fisa Talentau Byd-eang yn cynnig llwybr newydd i unigolion talentog ac addawol ddod i weithio i'r DU. Rydym hefyd yn cyflwyno Llwybr Graddedigion newydd i'w gwneud yn haws i rai o'r graddedigion ifanc gorau ddod o wledydd tramor i sicrhau swyddi crefftus yn y DU a pharhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i'n heconomi a chymdeithas.

- **Gwella ein gallu i adnabod, datblygu a defnyddio galluoedd strategol y DU mewn gwyddoniaeth a thechnoleg.** Byddwn yn sefydlu galluoedd gwyddoniaeth a thechnoleg newydd mewn llywodraeth ar gyfer polisi, asesu a sganio'r gorwel, er mwyn rhag-weld ac asesu blaenoriaethau wrth i ni geisio sicrhau mantais strategol. Byddwn hefyd yn mabwysiadu fframwaith perchnogi-cydweithio-cyrchu (gweler y blwch testun ar bŵer gwyddoniaeth a thechnoleg) i lywio penderfyniadau strategol ar ddatblygu a defnyddio galluoedd mewn meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg sydd â blaenoriaeth: yn gyntaf, lle mae'r potensial mwyaf ar gyfer budd cymdeithasol ac economaidd, neu lle mae cynnydd yn helpu i ddelio â'r heriau byd-eang pwysicaf; ac yn ail, lle mae'r DU yn gallu dod i'r blaen, neu lle mae dibyniaeth yn y dyfodol ar gyflenwadau o ffynonellau heblaw rhai ein cynghreiriaid yn creu risgiau annerbyniol i'n buddiannau cenedlaethol.
- **Adeiladu rhwydwaith cadarn ac amrywiol o bartneriaethau gwyddoniaeth a thechnoleg rhyngwladol,** fel elfen hanfodol yn y fframwaith perchnogi-cydweithio-cyrchu ac i siapio'r defnydd cyfrifol o dechnoleg. Byddwn yn datblygu fframwaith newydd ar gyfer partneriaethau gwyddoniaeth rhyngwladol, gan roi lle canolog i wyddoniaeth a thechnoleg yn ein cynghreiriau a phartneriaethau drwy'r byd. Bydd ein Cennad Technoleg yn UDA yn cryfhau perthnasoedd y DU yn Silicon Valley. Bydd y cytundeb rhwng y DU a'r UE yn hybu cydweithio pellach rhwng ymchwilwyr a gwyddonwyr, drwy Horizon Europe, rhaglen Ymchwil a Hyfforddi Euratom a Copernicus. Byddwn yn cynnal arweinyddiaeth y DU mewn sefydliadau a rhwydweithiau ymchwil ac arloesi amlochrog, fel Eureka. A pharhawn i ddefnyddio Cymorth Datblygu Swyddogol i gefnogi partneriaethau ymchwil a datblygu â gwledydd sy'n datblygu, gan rannu arbenigedd ymchwil i hyrwyddo'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.
- **Mabwysiadu dulliau 'gwyddoniaeth busnes',** gan ddefnyddio ffyrdd masnachol o weithio mewn llywodraeth. Bydd hyn yn cefnogi'r fframwaith perchnogi-cydweithio-cyrchu, gan sicrhau bod y DU yn gallu cael at dechnoleg o lawer math heb ei phrynu yn ei chyfanrwydd neu ei dyfeisio yma: gwella modelau ar gyfer partneriaethau; rhannu adnoddau o fewn llywodraeth, ar draws

y sectorau cyhoeddus a phreifat, a hefyd â gwledydd eraill; a defnyddio caffaeliadau a chytundebau seiliedig ar opsiynau ochr yn ochr â chydweithio a chydweithredu.

8. Bydd y Llywodraeth hefyd yn datblygu ei phartneriaeth â'r byd academaidd a diwydiant i hyrwyddo'r arloesi technolegol sy'n hanfodol i ddiogelwch gwladol y DU, sy'n gyfrifoldeb sylfaenol iddi. Mae'r Llywodraeth yn ariannu tua 85% o waith ymchwil a datblygu milwrol, gan sicrhau galluoedd hanfodol a chryfhau maes gwyddoniaeth a thechnoleg yn gyffredinol.

9. Drwy **strategaeth gwyddoniaeth a thechnoleg y Weinyddiaeth Amddiffyn 2020,** byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ymchwil lle ceir mwy o risg er mwyn moderneiddio ein lluoedd arfog. Dros y pedair blynedd nesaf, byddwn yn buddsoddi o leiaf £6.6 biliwn o gyllid amddiffyn mewn gwaith ymchwil a datblygu uwch-dechnolegol a thechnoleg y genhedlaeth nesaf er mwyn sicrhau mantais filwrol barhaus mewn meysydd sy'n cynnwys y gofod, arfau ynni cyfeiriedig, a thaflegrau datblygedig cyflym iawn. Drwy'r rhwydwaith o ganolfannau arloesi'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng nghlystyrau technoleg y DU a'r buddsoddi mewn heriau Sbarduno Amddiffyn a Diogelwch, gwneir gwell defnydd o fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu i gynhyrchu cyfarpar arloesol. Bydd y **strategaeth ddiwydiannol amddiffyn a diogelwch** yn ategu hyn, gan greu amgylchedd mwy dibynadwy i ddiwydiant a fydd yn rhoi'r gallu i fuddsoddi mewn arloesi a'i droi'n alluoedd ar gyfer diogelwch gwladol ac yn gyfleoedd masnachol yn y dyfodol.

10. Byddwn hefyd yn ymchwilio i ffyrdd mwy ystwyth a fforddiadwy o arloesi sy'n cryfhau ein diogelwch gwladol ehangach. **Y Gronfa Buddsoddi Strategol Diogelwch Gwladol** (NSSIF) yw cangen fentro corfforaethol y Llywodraeth ar gyfer uwch-dechnolegau defnydd deuol sy'n hybu buddsoddi hirdymor mewn ecwitïau i gyflymu'r broses o fabwysiadu galluoedd newydd mewn meysydd fel prosesu clywedol a gweledol, dadansoddi ymddygiadol cyfrifiadol a thechnolegau hunaniaeth. A thrwy'r **Gyfnewidfa Technoleg ac Arloesi Diogelwch Gwladol** (NSTIx), rydym yn mynd ati i ddatblygu technoleg mewn ffordd gydlynol a systematig, yn cynnwys camau i sefydlu rhwydwaith trawslywodraethol o fannau cyd-greu i ddod ag arbenigedd a chyfleusterau arbenigol ynghyd o blith partneriaid llywodraeth, y sector preifat a chymunedau gwyddoniaeth a thechnoleg academaidd blaengar. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu technoleg effeithiol dan arweiniad y defnyddiwr, yn gyflym ac ar raddfa fawr, mewn meysydd sy'n hanfodol i ddiogelwch gwladol, yn cynnwys gwyddorau data, deallusrwydd artiffisial a diogelwch amddiffynnol.

### Fframwaith ar gyfer pŵer gwyddoniaeth a thechnoleg: perchnogi-cydweithio-cyrchu

Er mwyn tyfu pŵer y DU mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, mae angen dull hirdymor o adeiladu a defnyddio gallu yn y meysydd pwysicaf yn y dyfodol. Bydd y DU yn ceisio sicrhau rôl arweiniol mewn technolegau hanfodol a newydd lle mae rhagolygon ymarferol o gael mantais strategol. Bydd fframwaith 'perchnogi-cydweithio-cyrchu' newydd yn sail i'n dull o weithredu:

- **Perchnogi:** lle mae'r DU yn arwain ac yn perchnogi datblygiadau newydd, o'r cam darganfod hyd at weithgynhyrchu a masnacholi ar raddfa fawr. Bydd hyn yn cynnwys elfennau o gydweithio a chyrchu ym mhob achos.

- **Cydweithio:** lle mae'r DU yn gallu darparu cyfraniadau unigryw sy'n caniatáu i ni gydweithio ag eraill i gyrraedd ein nodau.
- **Cyrchu:** lle bydd y DU yn ceisio caffael gwyddoniaeth a thechnoleg hanfodol o leoedd eraill, drwy opsiynau, cytundebau a pherthnasoedd.

Rôl y Llywodraeth wrth weithredu'r fframwaith yw galluogi'r sector preifat a'r gymuned gwyddoniaeth a thechnoleg ehangach, yn cynnwys ei rhan fel defnyddiwr a chaffaelwr technoleg. Bydd y gweithredu gan y Llywodraeth yn gallu cynnwys: ar gyfer 'perchnogi' – gwell ariannu, rheoleiddio a chymhellion i'r byd academaidd a busnesau, o ymchwil i fasnacholi; ar gyfer 'cydweithio' – nodi partneriaid strategol a chreu amodau priodol yn y farchnad a thrwy reoleiddio ar gyfer cydweithio rhyngwladol; ac ar gyfer 'cyrchu' – cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn cwmnïau gwyddoniaeth a thechnoleg.

**Astudiaeth achos: cyfrifiadura cwantwm fel enghraifft o dechnolegau cwantwm.** Mae cyfrifiadura cwantwm yn cynnig potensial i greu newid sylweddol mewn pŵer cyfrifiadura, gyda llawer math o ddefnydd posibl mewn sectorau allweddol gan gynnwys ffarmacoleg, iechyd, logisteg, technoleg gwybodaeth, ynni, cemegau a chyllid. Mae'r DU mewn lle da i ddod yn arweinydd byd-eang yn y chwyldro cwantwm. Mae ein hymchwilwyr a chyfleusterau o'r radd flaenaf wedi galluogi'r DU i gael dealltwriaeth fanwl o wyddoniaeth cwantwm, ac mae gennym nifer cynyddol ac amrywiol o gwmnïau sy'n gallu cystadlu yn y farchnad fyd-eang newydd hon. Bydd systemau cwantwm newydd yn galw am ddatblygu cydrannau mwy solet a llai o lawer, fel laserau arbenigol, cyfarpar gwactod datblygedig, systemau rheoli electronig a synwyryddion ffotonau, sydd i gyd yn feysydd lle mae gan y DU allu diwydiannol sylweddol. Drwy'r Ganolfan Cyfrifiadura Cwantwm Genedlaethol a'r Rhaglen Technolegau Cwantwm Cenedlaethol ehangach, bydd y Llywodraeth yn helpu i sefydlu sector cyfrifiadura cwantwm cynaliadwy yn y DU – drwy gyllid grant, contractau am brototeipiau, rhaglenni darganfod a hyfforddi, camau i ysgogi amgylchedd sy'n addas i fusnes, a helpu i greu cysylltiadau â'r gymuned ryngwladol ehangach.

**Astudiaeth achos: peirianneg fiolegol.** Peirianneg fiolegol yw'r wyddor sy'n cymhwyso egwyddorion peirianneg at ddylunio ac ailddylunio systemau biolegol, gan harneisio datblygiadau mewn meysydd fel genomeg a golygu genynnau, pŵer prosesu a dysgu peirianyddol. Mae'n cynnig potensial i sicrhau cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd yn cynnwys amddiffyn a diogelwch, yr amgylchedd a'r economi.

Mae'r DU mewn lle cryf yn y sector hwn, sy'n datblygu'n gyflym, ond mae angen iddi fasnacholi datblygiadau'n gyflymach – bydd y Llywodraeth yn hwyluso hyn drwy fecanweithiau i helpu i ymchwilio a datblygu, peiriannu a gweithgynhyrchu ar raddfa fawr yn y DU o dan y Rhaglen Peirianneg Fiolegol Genedlaethol.

**Astudiaeth achos: deallusrwydd artiffisial.** Mae'r DU wedi achub y blaen yn gynnar mewn deallusrwydd artiffisial diolch i'n hymchwil yn y DU, y sefyllfa iach o ran sefydlu busnesau newydd a hanes o arloesi ym maes cyfrifiadura. Rydym yn hyrwyddo polisi deallusrwydd artiffisial drwy'r Swyddfa Deallusrwydd Artiffisial, ochr yn ochr â Chyngor Deallusrwydd Artiffisial y DU, a thrwy bartneriaeth werth bron £1 biliwn rhwng llywodraeth, diwydiant a'r byd academaidd. Mae hyn yn cryfhau lle'r DU fel arweinydd byd-eang ar ddatblygu technolegau deallusrwydd artiffisial drwy wella'r cyflenwad o dalentau deallusrwydd artiffisial a hybu sgiliau lefel uchel, yn cynnwys drwy Gymrodoriaethau Turing AI; cynyddu'r buddsoddi mewn ymchwil ac arloesi ym maes deallusrwydd artiffisial; rhoi cymorth i fabwysiadu technolegau data a deallusrwydd

artiffisial yn effeithiol a moesegol; a nodi cyfleoedd i gydweithio ar ymchwil a datblygu, moeseg a rheoleiddio deallusrwydd artiffisial ar lefel ryngwladol. Rydym yn buddsoddi mwy yn y sectorau amddiffyn a diogelwch, gan hyrwyddo galluoedd deallusrwydd artiffisial yn gyflym mewn ymreolaeth, seiberddiogelwch, logisteg a chudd-wybodaeth. Rydym yn adolygu ein hanghenion o ran deallusrwydd artiffisial ar gyfer y degawd nesaf, er mwyn sicrhau bod y DU yn aros ar y blaen i'r nifer cynyddol o gystadleuwyr ar lefel ryngwladol.

## 1.2 Pŵer seiber cyfrifol, democrataidd

11. Pŵer seiber yw'r gallu i amddiffyn a hyrwyddo buddiannau cenedlaethol yn y seiberofod a thrwyddo: i sicrhau'r buddion y mae seiberofod yn eu cynnig i'n dinasyddion a'n heconomi, i gydweithio â phartneriaid i greu seiberofod sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd, ac i ddefnyddio galluoedd seiber i ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y byd go iawn. Fel pŵer gwyddoniaeth a thechnoleg ehangach, mae pŵer seiber yn dibynnu ar ymdrech gwlad gyfan wedi'i hyrwyddo gan y Llywodraeth i ddod â diwydiant a'r byd academaidd ynghyd mewn partneriaeth. Mae hefyd yn golygu cynnwys dinasyddion, sydd â rhan hanfodol i'w chwarae yn ein seiberddiogelwch gwladol.

12. Yn yr oes ddigidol, bydd pŵer seiber y DU yn ffordd gynyddol bwysig i gyrraedd ein nodau cenedlaethol. Mae pŵer seiber yn gwarchod ein diogelwch gwladol a chadernid ein seilwaith cenedlaethol hanfodol. Mae'n hybu twf economaidd, gan alluogi busnesau ac unigolion i symud yn hyderus i'r byd digidol, yn hyrwyddo cynhyrchiant ac yn ysgogi'r arloesi a fydd yn creu swyddi crefftus newydd. Mae hefyd yn creu ffyrdd newydd i hyrwyddo a diogelu ein buddiannau, fel y gallwn ganfod, atal ac ymyrryd â'n gwrthwynebwyr yn y seiberofod ac yn y byd go iawn, a dylanwadu ar yr amgylchedd byd-eang er mwyn sicrhau dyfodol digidol diogel a llesol i bawb.

13. Er 2011, mae'r Llywodraeth wedi dilyn strategaeth genedlaethol uchelgeisiol a rhaglen ddi-dor o fuddsoddi sydd wedi sicrhau bod y DU yn arwain drwy'r byd ym maes seiber, ac yn cael ei hefelychu gan eraill. Rydym wedi datblygu galluoedd seiber arloesol, yn cynnwys rhai drwy sefydlu'r **Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol** (NCSC) a'r **Llu Seiber Cenedlaethol** (NCF). Yn ogystal â meithrin y galluoedd sydd eu hangen ar gyfer diogelwch gwladol, mae'r buddsoddiad hwn wedi helpu hefyd i ddatblygu'r maes seiber ehangach, yn cynnwys sector seiberddiogelwch ffyniannus, lle mae mwy na 1,200 o gwmnïau a 43,000 o swyddi crefftus ledled y DU.

14. Bydd angen i ni barhau i addasu, arloesi a buddsoddi er mwyn cadw a gwella mantais gystadleuol y DU fel pŵer seiber cyfrifol, democrataidd. Mae technoleg yn newid, yn ogystal â'r ffordd y mae unigolion a sefydliadau'n ei defnyddio. Mae ein cynghreiriaid a gwrthwynebwyr hefyd yn buddsoddi yn eu galluoedd, ac mae gwrthwynebwyr yn dod o hyd i ffyrdd i'w defnyddio i'w dibenion eu hunain drwy'r amser.

15. Seiberddiogelwch yw sylfaen pŵer seiber, ac i hynny y rhoddwyd y sylw mwyaf yn ein strategaeth hyd yn hyn. Fodd bynnag, er mwyn **cadarnhau ein mantais gystadleuol, byddwn bellach yn mabwysiadu strategaeth seiber gynhwysfawr** sy'n rhoi sylw i'r holl alluoedd sydd gennym ac yn rhoi mwy o bwys ar gynyddu ein mantais mewn technolegau seiber hanfodol, a hefyd ar gamau ar lefel ryngwladol i ddylanwadu ar seiberofod y dyfodol. Er mwyn goruchwylio'r dull gweithredu hwn, rydym wedi ffurfio grŵp bach gweinidogol i gydlynu penderfynu ym maes seiber ar draws llywodraeth.

16. Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi strategaeth seiber newydd y DU yn 2021. O dan y strategaeth hon, byddwn yn rhoi **blaenoriaeth i'r camau gweithredu** hyn:

- **Cryfhau amgylchedd seiber y DU,** gan alluogi dull gweithredu gwlad gyfan ar seiber a dyfnhau'r bartneriaeth rhwng llywodraeth, y byd academaidd a diwydiant. Byddwn yn delio mewn ffordd fwy cydlynol â sgiliau, recriwtio, ymchwil a datblygu, ymarfer ac arloesi mewn seiber amddiffynnol ac ymosodol: buddsoddi mewn system addysg a hyfforddi integredig i dyfu talentau amrywiol; hybu sylfaen ymchwil yn y DU sy'n gallu cystadlu â chynghreiriaid a gwrthwynebwyr, yn ogystal â sylfaen ddiwydiannol sy'n darparu cynhyrchion a gwasanaethau seiberddiogelwch arloesol ac effeithiol sy'n helpu pawb i aros yn ddiogel yn y seiberofod; a datblygu rheoliadau a pholisïau sy'n hybu maes seiberddiogelwch o'r radd flaenaf.
- **Adeiladu cadernid a ffyniant digidol yn y DU,** lle bydd dinasyddion yn teimlo'n ddiogel ar-lein ac yn hyderus bod eu data yn cael eu diogelu. Byddwn yn hwyluso trawsnewid digidol yn economi'r DU, gan gryfhau ein seiberddiogelwch a sicrhau bod ein pobl, busnesau a sefydliadau wedi'u grymuso i fabwysiadu technoleg newydd, ac yn gallu gwrthsefyll ac ymadfer ar ôl ymosodiadau seiber. Parhawn i fuddsoddi yn yr NCSC, i roi sylw i wendidau critigol yn y sector cyhoeddus ac yn ein seilwaith cenedlaethol hanfodol, yn cynnwys ein seilwaith data a digidol, ac i sicrhau ein bod yn gweithredu ar sail y gwersi a ddysgir ar ôl ymosodiadau seiber.
- **Arwain yn y technolegau sy'n hanfodol i bŵer seiber,** fel microbroseswyr, dylunio systemau diogel, technolegau cwantwm a ffyrdd newydd o drosglwyddo data. Byddwn yn cefnogi ein sylfaen ddiwydiannol gynyddol, gan weithio drwy'r fframwaith perchnogi-cydweithio-cyrchu i gryfhau ein mantais mewn technolegau hanfodol, yn ceisio cyfleoedd economaidd a, lle bo angen, yn lliniaru'r risgiau o ddibynnu ar ffynonellau cyflenwi heblaw rhai ein cynghreiriaid. Byddwn yn rhoi fframweithiau polisi, rheoleiddio a chyfreithiol blaengar ar waith fel y gellir mabwysiadu ffyrdd newydd o ddefnyddio technoleg ddigidol – er enghraifft, mewn dinasoedd clyfar. Cydweithiwn ag eraill hefyd i sicrhau bod rheolau a safonau ar gyfer technolegau digidol wedi'u seilio ar werthoedd democrataidd.
- **Hyrwyddo seiberofod sy'n agored, heddychlon, diogel a dirwystr,** fel a ddisgrifiwyd yn 2.3, gan gydweithio â llywodraethau eraill a diwydiant, a manteisio ar arweinyddiaeth syniadol y DU mewn seiberddiogelwch. Byddwn hefyd yn dyfnhau ac ehangu ein partneriaethau rhyngwladol i hyrwyddo ein diogelwch, ffyniant a gwerthoedd cyffredin, drwy gynyddu'r gallu i wrthsefyll ymosodiadau seiber a chymryd camau ar y cyd i gynnal normau rhyngwladol, gan alw gwrthwynebwyr i gyfrif am eu torri.
- **Darganfod, ymyrryd ac atal ein gwrthwynebwyr.** Byddwn yn adeiladu systemau di-dor i ganfod gwybodaeth am fygythiadau seiber ac ymateb yn gyflym ac yn gymesur drwy gydweithredu â diwydiant. Byddwn hefyd yn defnyddio'r holl ddulliau diplomyddol, milwrol, cudd-wybodaeth, economaidd, cyfreithiol a chyfathrebu strategol sydd ar gael i'r DU mewn ffordd fwy integredig, greadigol a chyson, yn ogystal â'r Llu Seiber Cenedlaethol newydd (gweler y testun yn y blwch), i orfodi ein gwrthwynebwyr i wynebu costau, i'w hatal rhag niweidio buddiannau'r DU, ac i wneud y DU yn amgylchedd gweithredu mwy anodd iddynt. Bydd hyn yn cynnwys camau i ddelio â gweithgarwch maleisus yn y seiberofod a chamau ar-lein a gaiff effaith yn y byd go iawn, er enghraifft drwy wrthsefyll grwpiau terfysgol neu droseddu cyfundrefnol, ac i gefnogi ymgyrchoedd milwrol. Byddwn hefyd yn cryfhau ein hymateb i ymosodiadau seiber drwy gyfiawnder troseddol.

### Trawsnewid galluoedd seiber y DU: y Llu Seiber Cenedlaethol

Mae'r NCF, a sefydlwyd yn 2020, yn cynnal gweithrediadau seiber ymosodol cyfrifol sydd wedi'u targedu i hyrwyddo blaenoriaethau diogelwch gwladol y DU, gan gyfuno galluoedd amddiffyn a chudd-wybodaeth.

Mae'r NCF yn cynnwys personél o GCHQ a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn ogystal â'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol (SIS) a'r Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn (Dstl), o dan reolaeth gyfunol am y tro cyntaf. Ochr yn ochr ag arbenigedd gweithredol y Weinyddiaeth Amddiffyn, galluoedd gwyddonol a thechnegol Dstl a chudd-wybodaeth fyd-eang GCHQ, mae'r SIS yn darparu ei arbenigedd mewn recriwtio a threfnu gweithredwyr ochr yn ochr â'i allu unigryw i ddarparu technoleg weithredol gudd.

Rhai enghreifftiau posibl o weithrediadau seiber, i'w defnyddio ar y cyd â galluoedd diplomyddol, economaidd, gwleidyddol a milwrol, yw:

- Ymyrryd â ffôn symudol i atal terfysgwr rhag gallu cyfathrebu â'i gysylltiadau.
- Helpu i atal defnyddio'r seiberofod fel llwyfan byd-eang ar gyfer troseddau difrifol, yn cynnwys twyll a cham-drin plant yn rhywiol.
- Cadw awyrennau milwrol y DU yn ddiogel rhag eu targedu gan systemau arfau.

Mae'r DU wedi ymrwymo i ddefnyddio ei galluoedd seiber mewn ffordd gyfrifol, yn unol â chyfraith y DU a chyfraith ryngwladol. Yn y gorffennol, mae gweithrediadau seiber wedi'u cynnal o dan gyfreithiau presennol, yn cynnwys y Ddeddf Gwasanaethau Cudd-wybodaeth (1994) a'r Ddeddf Pwerau Ymchwilio (2016), a bydd hyn yn parhau yn y dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod gweithrediadau seiber y DU yn rhai cyfrifol, cymesur ac wedi'u targedu, mewn cyferbyniad â gweithrediadau rhai o'n gwrthwynebwyr.



Pencadlys y Cenhedloedd Unedig, Efrog Newydd.
© Hawlfraint y Goron 2021

## 2. Siapio trefn ryngwladol agored y dyfodol

1. Mae natur agored y DU o ran llifau masnach, cyfalaf, data, syniadau a thalentau yn hanfodol i'n ffyniant tymor hir. Bydd y cyfnewid rhyngwladol hwn yn hollbwysig wrth hyrwyddo cystadlu iach, arloesedd a thwf cynhyrchiant wrth i ni ailgodi'n gryfach ar ôl COVID-19 a cheisio lefelu cyfleoedd ar draws y wlad. Mae'r gallu sydd gan gymdeithasau ac economïau agored fel y DU i ffynnu fel hyn yn dibynnu ar weithrediad effeithiol y drefn ryngwladol – y cyfreithiau, rheolau a normau a ddefnyddir i reoli cydweithredu a chystadlu rhyngwladol, a'r sefydliadau sy'n galluogi gwledydd i ddod ynghyd i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin.

2. Yn yr amgylchedd mwy cydgysylltiedig, amlbegynol a chystadleuol a wynebwn yn y degawd nesaf, rhaid i'r DU fod yn **fwy egnïol wrth siapio trefn ryngwladol agored y dyfodol:** gan arfer ein pŵer i alw ynghyd a chydweithio ag eraill i sicrhau ei bod yn **addas ar gyfer yr 21ain ganrif** ac yn **fwy cadarn i wrthsefyll** ergydion tymor byr a heriau tymor hir. Rhaid i ni ymdrechu hefyd i adfer **yr awydd am fwy o gydweithredu rhyngwladol,** ar sail deialog a chyfaddawd, gan sefyll dros ein gwerthoedd wrth wneud hynny.

3. Mae nifer o systemau o sefydliadau, cyfreithiau, rheolau a normau rhyngwladol sy'n ffurfio'r drefn ryngwladol. Rhaid i ni addasu ein dull o weithredu i'r cyfleoedd a heriau a wynebwn ym mhob un ohonynt: yn yr economi fyd-eang sy'n fwyfwy digidol a meysydd mwy newydd y gofod a seiberofod, sy'n cael eu trafod yn y bennod hon; ac yn y systemau diogelwch ac ecolegol, sy'n cael eu trafod ym mhenodau 3 a 4.

4. Mae'r DU **wedi ymrwymo'n gadarn o hyd i amlochroldeb.** Rydym yn trysori ein haelodaeth o nifer o gyrff rhyngwladol, a'r pwysicaf o'r rhain yw'r Cenhedloedd Unedig. Rhaid i ni gryfhau'r sefydliadau hynny sydd mor hanfodol i weithrediad y drefn ryngwladol yn y dyfodol, fel Sefydliad Masnach y Byd a Sefydliad Iechyd y Byd, a chymryd mwy o ran yn y rheini sy'n dod yn fwy pwysig, yn cynnwys y sefydliadau sy'n rheoli safonau technoleg. Lle byddwn yn ymwneud yn fwy â rhannau eraill o'r byd, byddwn yn cydweithio â chyrff presennol, fel ASEAN yn y rhanbarth Indo-Basiffig. A byddwn yn ymdrechu i gael ein hethol i swyddi uwch mewn sefydliadau rhyngwladol sy'n ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â'n buddiannau a gwerthoedd. Wrth wneud hynny, byddwn yn cynnig ymgeiswyr cryf sy'n cynrychioli gwir amrywiaeth ein cymunedau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

5. **Ein nod cyntaf yw cefnogi cymdeithasau agored ac amddiffyn hawliau dynol,** fel grym er daioni yn y byd. Mae'r drefn ryngwladol yn dibynnu am ei chadernid a'i dilysrwydd ar y gwladwriaethau sy'n ei ffurfio. Felly byddwn yn cefnogi cymdeithasau agored – rhai lle ceir llywodraethu effeithiol a chadernid gartref, ac sy'n cydweithredu â gwledydd eraill ar sail tryloywder, llywodraethu da a marchnadoedd agored.

6. **Ein hail nod yw siapio economi fyd-eang agored, gydnerth,** gan adfer ffydd mewn masnach rydd a theg wrth i ni ailgodi'n gryfach ar ôl COVID-19. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i ni roi sylw i'r ffactorau sy'n sbarduno ymrannu ac adeiladu economi fyd-eang y dyfodol – un sy'n ddigidol ac yn gynaliadwy. Rhaid i economi'r DU fod yn fwy cystadleuol yn y cyd-destun hwn, fel canolfan gwasanaethau, data a digidol fyd-eang sy'n darparu ar gyfer ein holl ddinasyddion.

7. **Ein trydydd nod yw siapio'r drefn ryngwladol wrth iddi ddatblygu mewn meysydd newydd yn y dyfodol** – ym meysydd y gofod a seiberofod, lle mae'r posibiliadau o ran gweithgarwch economaidd, cymdeithasol a milwrol yn cynyddu'n gyflym, a'r rheolau a normau presennol yn ei chael yn anodd cadw'n wastad. Bydd angen i ni gymryd camau i sicrhau atebolrwydd a goruchwyliaeth effeithiol sy'n diogelu gwerthoedd democrataidd, gan wrthwynebu rheolaeth ormodol gan wladwriaethau.

## Ein hagenda grym er daioni: pŵer cyfunol diplomyddiaeth a datblygu

### Arweinyddiaeth ddiplomyddol mewn byd sy'n newid

Mae diplomyddiaeth effeithiol yn hanfodol i allu'r DU i weithredu er lles dinasyddion Prydeinig yn y byd. Drwy ein hymdrechion i feithrin perthnasoedd a chyd-ddealltwriaeth â chynghreiriaid, partneriaid a gwledydd eraill y gallwn ddelio orau â'r newid yng nghydbwysedd a dosbarthiad grym.

Er mwyn siapio trefn ryngwladol agored y dyfodol, rhaid i ni gryfhau ac adnewyddu ein diplomyddiaeth, gan addasu ein gwladweinyddiaeth i'r oes newydd. Wrth wneud hynny, rhaid i ni gadw ein cryfderau presennol. Bydd ein rhwydwaith diplomyddol o 281 o swyddi mewn 178 o wledydd a thiriogaethau yn parhau i adeiladu'r perthnasoedd ac arbenigedd i hyrwyddo ein nodau cenedlaethol, gan gynrychioli'r Deyrnas Unedig gyfan a darparu cymorth i bobl o Brydain mewn gwledydd tramor drwy ein gwasanaethau consylaidd. Bydd ein diplomyddion ac arbenigwyr cyfreithiol yn parhau i wneud cyfraniad pwysig ar ganol sefydliadau amlochrog. A bydd y DU yn cyflawni rôl bwysig drwy alw ynghyd bartïon i drafod materion sydd o bwys i'n cyd-ddiogelwch a'n cydffyniant.

Byddwn yn arloesi hefyd, gan sicrhau bod ein diplomyddiaeth yn barod at yr heriau sy'n ein hwynebu. Rydym eisoes wedi gwneud newid sylweddol drwy gyfuno ein harbenigedd mewn datblygu â chyrhaeddiad byd-eang ein rhwydwaith diplomyddol – gan gynyddu'n fawr ein gallu i sicrhau newid hirdymor o gwmpas y byd drwy ein hagenda grym er daioni. Byddwn yn adeiladu ar y sail hon drwy roi mwy o bwyslais ar y canlynol:

- Diplomyddiaeth reoliadol: dod â llywodraethau, cyrff safonau a diwydiant ynghyd i ddylanwadu ar reolau, normau a safonau – yn enwedig mewn meysydd sy'n datblygu'n gyflym fel y gofod, seiberofod, technolegau newydd a data. Cydweithiwn â phartneriaid o lawer math – yn cynnwys cwmnïau technoleg, cyrff safonau annibynnol, cymdeithas sifil a'r byd academaidd – mewn nifer cynyddol o sefydliadau rhyngwladol arbenigol.
- Diplomyddiaeth gwyddoniaeth a thechnoleg: cryfhau ein perthnasoedd drwy'r byd a chynyddu mantais strategol y DU drwy wyddoniaeth a thechnoleg, gan ddatblygu ein Rhwydwaith Gwyddoniaeth ac Arloesi mewn mwy na 40 o wledydd a'n Canolfannau Ymchwil ac Arloesi yn Affrica, y Dwyrain Canol ac India.
- Diplomyddiaeth seiber: fel elfen hanfodol yn ein pŵer seiber, gyda'n rhwydwaith o swyddogion ar draws chwe chyfandir. Yn ogystal â'n rhaglenni i feithrin gallu mewn seiberddiogelwch, rydym wedi dechrau deialogau trawslywodraethol â 20 o wledydd. Drwy'r rhain, byddwn yn parhau i dyfu'r gynghrair ryngwladol sy'n cydweithio â ni i gryfhau'r achos o blaid seiberofod agored, heddychlon, diogel a dirwystr, ac i ymateb i weithgarwch seiber maleisus wedi'i gyfarwyddo gan wladwriaethau, a'i atal.

- Diplomyddiaeth diogelwch gwladol: atgyfnerthu ein hatalfeydd drwy gymryd mwy o gamau i briodoli bygythiadau gwladwriaethol a chyd-drefnu'r defnydd o sancsiynau i ddal gweithredwyr gwladwriaethol ac anwladwriaethol yn atebol am ymddygiad annerbyniol – yn ogystal â gwneud rhagor i fynd i'r afael â bygythiadau gwladwriaethol, terfysgaeth a throseddu mewn gwledydd tramor, cyn iddynt gyrraedd y DU. Ategir hyn gan waith yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth.
- Datrys anghydfodau: yn rhan o ddull mwy effeithiol a manwl o ddelio â gwrthdaro ac ansefydlogrwydd drwy atal.
- Diplomyddiaeth gyfreithiol: cefnogi cymdeithasau agored drwy feithrin gallu a diwygio cyfiawnder, a hyrwyddo gwasanaethau cyfreithiol y DU, gan sicrhau bod yr egwyddorion a gwerthoedd sy'n sail i'n system ddomestig yn parhau'n safon fyd-eang.
- Datblygu a diplomyddiaeth seiliedig ar ddata: defnyddio mewnwelediadau a dadansoddiadau o bob rhan o'r byd i dargedu ein hymyriadau diplomyddol yn fwy effeithiol mewn gwledydd tramor ac i gyfrannu i bob agwedd ar bolisi domestig.

### Cymorth Datblygu Swyddogol y DU: cynyddu ein heffaith fel grym er daioni

Y DU yw un o'r gwledydd sy'n gweithredu fwyaf ym maes datblygu drwy'r byd, wedi ymrwymo i'r frwydr fyd-eang yn erbyn tlodi, i gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy erbyn 2030 ac i gynnal y safonau uchaf o ran tystiolaeth a thryloywder ar gyfer ein holl fuddsoddiadau.

Fel un o'r darparwyr mwyaf o Gymorth Datblygu Swyddogol drwy'r byd – yn uwch o lawer na'r cyfartaleddau a bennwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) – byddwn yn canolbwyntio yn ein gwaith cymorth ar yr ardaloedd hynny sy'n bwysig i'r DU yn ei chyd-destun byd-eang a lle gallwn gael yr effaith fwyaf o ran newid bywydau yn y tymor hir. Parhawn â'n hymrwymiad i Affrica, gan ganolbwyntio'n benodol ar Ddwyrain Affrica ac ar bartneriaid pwysig fel Nigeria, gan gynyddu ymdrechion datblygu yn y rhanbarth Indo-Basiffig.

Byddwn yn amlinellu ein dull o weithredu mewn strategaeth datblygu rhyngwladol newydd, a fydd yn sicrhau bod y cymorth gan y DU o 2022 ymlaen yn cydweddu'n agos â'r amcanion yn y Fframwaith Strategol hwn. Bydd y strategaeth hon yn adeiladu ar sail ein blaenoriaethau strategol ar gyfer Cymorth Datblygu Swyddogol yn 2021-22: hinsawdd a bioamrywiaeth; diogelwch iechyd byd-eang; cymdeithasau agored a datrys anghydfodau; addysg merched; parodrwydd a'r gallu i ymateb i anghenion dyngarol, yn enwedig drwy ddiogelu cyflenwadau bwyd ac atal newyn; gwyddoniaeth a thechnoleg; a masnach a datblygu economaidd. Bydd hefyd yn ystyried cystadleurwydd ein harlwy masnach a datblygu i wledydd sy'n datblygu.

Sicrhawn fod holl Gymorth Datblygu Swyddogol y DU yn gyson â Chytundeb Paris, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i ddelio â'r newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau fel sbardun i ansefydlogrwydd a thlodi yn y dyfodol. Byddwn yn parhau â'n hagwedd ryddfrydol at ddatblygu economaidd, sy'n creu mwy o gyfleoedd i bawb ac sydd wedi'i seilio ar gymdeithasau agored. Byddwn yn cyfuno ein diplomyddiaeth a chymorth yn fwy effeithiol â masnach, gan gydweithio â'n partneriaid i addasu ein harlwy. Wrth i lywodraethau gael y gallu i ariannu eu blaenoriaethau datblygu eu hunain, byddwn yn symud yn raddol at ddarparu arbenigedd gan y DU yn lle grantiau ac yn defnyddio amrywiaeth o fodelau ariannu i fynd i'r afael â heriau rhanbarthol i gwrdd â'n buddiannau cyffredin.

Bydd y DU yn parhau i hyrwyddo Cyfraith Ddyngarol Ryngwladol a mynediad dyngarol, ac yn darparu cymorth dyngarol egwyddorol mewn argyfyngau. Byddwn yn parhau â'n gallu i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl, yn ariannu rhaglenni dwyochrog ac amlochrog mewn ardaloedd lle darperir cymorth dyngarol ac yn arwain ymgyrch fyd-eang i ddiogelu 20 miliwn o bobl rhag newyn trychinebus. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn ceisio diwygio a chryfhau'r system ddyngarol ryngwladol, a hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg ddigidol i ddarparu cymorth yn gyflymach a rhatach i'r rheini sy'n profi effaith argyfyngau.

### Un Llywodraeth EM dramor

Byddwn yn sicrhau bod ein llysgenhadon ac uchel gomisiynwyr yn gwbl atebol am amcanion trawslywodraethol, nid am waith y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn unig. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y Swyddfa wedi'i chynrychioli'n well ledled y DU, yn cynnwys drwy gynyddu nifer ein staff yn East Kilbride o 50%.

## 2.1 Grym er daioni: cefnogi cymdeithasau agored ac amddiffyn hawliau dynol

8. Mae cymdeithasau agored yn gerrig sylfaen hanfodol mewn trefn ryngwladol gynaliadwy, drwy fod yn esiamplau o lywodraethu cynhwysol, atebol a thryloyw. Fodd bynnag, mae'r rhain – a'r hawliau penodol sy'n sail iddynt – yn dod o dan bwysau cynyddol ar-lein ac yn y byd ffisegol. Cafwyd dirywiad cyffredinol mewn rhyddid byd-eang ers canol y 2000au, wrth i unbenaethau ddod yn gryfach a mwy cyffredin ledled y byd.

9. Rhaid i'n hymdrechion i wrthdroi'r dirywiad hwn mewn rhyddid byd-eang fod yn rhai sy'n **dechrau gartref, drwy gydweithio rhwng cymdeithasau agored** i gryfhau ein llywodraethu domestig a dod yn fwy cydnerth, drwy gytuno ar agendâu cyffredin ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, a thrwy ddelio'n gyflym a chraff â'r heriau hynny sy'n tanseilio diogelwch a ffyniant ein dinasyddion. Mae hyn yn hanfodol i ofalu am iechyd hirdymor ein democratiaeth ein hunain, a hefyd i gynnal ein pŵer meddal – ein gallu i ddenu a dylanwadu ar eraill (gweler y blwch testun yn ddiweddarach yn yr adran hon). Y rheidrwydd hwn sy'n llywio ein hagenda G7, wrth weithio gyda'n cyd-aelodau, a thrwy estyn llaw at Awstralia, India a De Korea, i ailgodi'n gryfach ar ôl COVID-19.

10. Bydd y DU hefyd yn **cydweithio â chynghreiriaid, partneriaid o'r un anian a chymdeithas sifil ledled y byd i ddiogelu gwerthoedd democrataidd,** yn rhan o'n hagenda ar fod yn rym er daioni. Mewn llawer achos, bydd hyn yn golygu cydweithio'n ddwyochrog â gwledydd i gryfhau eu llywodraethu domestig a chryfhau eu gallu i wrthsefyll bygythiadau a pheryglon. Wrth wneud hynny, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ein hymdrechion yn y cylch Ewropeaidd ehangach, Dwyrain Affrica a'r rhanbarth Indo-Basiffig, gan addasu ein dull o weithredu i gwrdd ag anghenion lleol a chyfuno ein dulliau gweithredu o ran diplomyddiaeth, datblygu, masnach, diogelwch ac mewn meysydd eraill yn unol â hynny. Byddwn yn rhoi **blaenoriaeth i'r camau gweithredu** hyn:

- **Amddiffyn hawliau dynol cyffredinol,** yn cynnwys gwaith gyda rhai sy'n amddiffyn cymdeithas sifil a hawliau dynol yn lleol. Ochr yn ochr â'n hymdrechion dwyochrog ac amlochrog traddodiadol, yn cynnwys rhai yn y Cenhedloedd Unedig a Chyngor Ewrop, defnyddiwn ein system sancsiynau annibynnol i ddal yn atebol y rheini sy'n ymwneud ag ymyrraeth ddifrifol â hawliau dynol.

- **Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau,** gan gydweithio â sefydliadau hawliau menywod i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu, trais ac anghydraddoldeb sy'n dal menywod yn ôl. Defnyddiwn ein gwariant ar gymorth a'n diplomyddiaeth i geisio cyrraedd y nod o gael 40 miliwn yn rhagor o ferched yn yr ysgol mewn gwledydd incwm isel a chanolig erbyn 2025, gan ddechrau ag uwchgynhadledd y Bartneriaeth Fyd-eang dros Addysg yn 2021. Byddwn hefyd yn hyrwyddo grymuso economaidd ymysg menywod yn Sefydliad Masnach y Byd, y G7, OECD, y Cenhedloedd Unedig a Banc y Byd, ac mewn cytundebau masnach rydd.
- **Hyrwyddo llywodraethu effeithiol a thryloyw, sefydliadau democrataidd cadarn a rheolaeth y gyfraith.** Bydd y DU yn cynorthwyo prosesau a sefydliadau gwleidyddol tryloyw ac atebol cryf mewn gwledydd tramor, yn cynnwys seneddau a phleidiau gwleidyddol, drwy Sefydliad San Steffan dros Ddemocratiaeth a sefydliadau eraill. Ategir y gwaith hwn gan allu newydd y DU i hybu arsylwi a gweithgarwch mewn etholiadau i gryfhau'r ymdrechion amlochrog presennol. Byddwn hefyd yn sefydlu system sancsiynau fyd-eang newydd ar lygredd (gweler y blwch testun) ac yn ymdrechu o'r newydd i ddelio â chyllid anghyfreithlon.

### Polisi sancsiynau annibynnol y DU

Ym mis Gorffennaf 2020, sefydlodd y DU ei system sancsiynau annibynnol gyntaf: y system sancsiynau fyd-eang ar hawliau dynol (yn null Magnitsky). Mae'n rhoi gallu newydd pwerus i'r DU i ddal yn atebol y rheini sy'n ymwneud ag ymyrraeth ddifrifol â hawliau dynol, drwy rewi asedau penodol a gwahardd teithio.

Defnyddiwn ein systemau sancsiynau yn rhan o ddull gweithredu integredig i hyrwyddo ein gwerthoedd a buddiannau ac i ymladd yn erbyn bygythiadau gwladwriaethol, terfysgaeth, ymosodiadau seiber, a'r defnydd o arfau cemegol a'r twf yn eu nifer. O ganlyniad i ymadael â'r UE, gallwn symud yn gynt na thrwy sianeli amlochrog lle mae hynny er budd i ni, gan barhau i gyd-drefnu'n agos â gwahanol bartneriaid o'r un anian. Rydym eisoes wedi dangos ystwythder ein sancsiynau annibynnol: ym Medi 2020, ni oedd y wlad Ewropeaidd gyntaf i gyhoeddi sancsiynau yn erbyn arweinydd Belarws a nifer o swyddogion oherwydd twyll etholiadol a thrais yn erbyn gwrthdystwyr.

Yn 2021, bydd y DU yn lansio ail system sancsiynau byd-eang ar lygredd, a fydd yn rhoi pwerau i ni atal y rheini sy'n ymwneud â llygredd rhag dod yn ddirwystr i'r DU neu sianelu arian drwy ein system ariannol. Bydd hyn yn ategu dulliau presennol o atal llygredd, yn cynnwys pwerau gorfodi'r gyfraith, ac yn ein galluogi i gydweithio â chynghreiriaid sydd â systemau tebyg, fel UDA a Chanada.

- **Hyrwyddo rhyddid crefydd neu gred** mewn gwledydd tramor, gan weithredu ar yr argymhellion yn adolygiad annibynnol Esgob Truro yn 2019 a hybu ymwybyddiaeth o achosion sy'n peri pryder neilltuol – yn cynnwys drwy gydweithio â'r Gynghrair Ryngwladol ar Ryddid Crefydd neu Gred. Yn 2022, byddwn yn cynnal cynhadledd weinidogol ryngwladol i gytuno ar gamau i hyrwyddo rhyddid crefydd neu gred i bawb.
- **Amddiffyn rhyddid y wasg a'r cyfryngau** yn cynnwys drwy ein hymrwymiadau i'r Gronfa Amddiffyn Cyfryngau Fyd-eang, a gydsefydlwyd gennym ni a Chanada. Ochr yn ochr â'n hymdrechion i herio sensoriaeth ar y rhyngrwyd a chyfryngau digidol, byddwn hefyd yn hyrwyddo mesurau priodol i ddiogelu rhag niwed ar-lein. Byddwn yn mynd i'r afael â thrais ar-lein, yn enwedig lle mae wedi'i gyfeirio yn erbyn menywod a merched, ac yn helpu cyfryngau annibynnol mewn gwledydd sy'n datblygu i sefydlu modelau busnes cadarn, newydd ar gyfer yr

oes ddigidol. Bydd gwaith annibynnol y BBC World Service hefyd yn cefnogi rhyddid y cyfryngau.

- **Terfynu'r arfer o arestio, cadw neu ddedfrydu gwladolion tramor ar fympwy** er mwyn dylanwadu ar lywodraethau eraill. Byddwn yn cefnogi'r fenter gan Ganada i roi terfyn ar gadw gwladolion tramor ar fympwy – yn cynnwys y rheini sydd â chenedligrwydd deuol – heb ddilyn trefn briodol y gyfraith na chynnig amddiffyniad cyfreithiol drwy dreial teg. Mae'r arfer hwn yn torri rhwymedigaethau hawliau dynol, mae'n groes i gyfraith ryngwladol, mae'n tanseilio cysylltiadau rhyngwladol ac yn cael effaith negyddol ar wladolion tramor sy'n teithio, yn gweithio ac yn byw mewn gwledydd tramor.

### Archbŵer pŵer meddal

Mae pŵer meddal y DU wedi'i seilio ar yr hyn ydym fel gwlad: ein gwerthoedd a'n ffordd o fyw, a bywiogrwydd ac amrywiaeth ein Hundeb. Mae'n rhan annatod o'n hunaniaeth ryngwladol fel gwlad agored, ddibynadwy ac arloesol. Mae'n helpu i feithrin barn gadarnhaol am y DU, i ffurfio cysylltiadau cryf rhwng pobl ac i wneud ein gwerthoedd yn gyfarwydd drwy gyfnewid diwylliannol a thwristiaeth. Mae hefyd yn rhoi mwy o allu i ni ddenu busnes rhyngwladol a myfyrwyr ac i gydweithio drwy ymchwil – ac, yn y pen draw, i greu newid yn y byd.

Hyd yn hyn, mae'r DU wedi bod bob amser yn un o'r tair gwlad uchaf mewn mynegeion sy'n mesur pŵer meddal. Yn 2020, roedd y DU yn gyntaf mewn arolwg barn gan y British Council/Ipsos MORI fel y wlad fwyaf deniadol i bobl ifanc ar draws y G20. Mae'r cryfder hwn wedi'i seilio ar ein model o lywodraethu democrataidd, systemau cyfreithiol a gwaddol y Gyfraith Gyffredin, y Frenhiniaeth, sefydliadau addysg, gwyddoniaeth ac ymchwil a chyrff gosod safonau o'r radd flaenaf, diwydiannau creadigol a diwylliannol, y sector twristiaeth, y sector chwaraeon, cymunedau mawr ac amrywiol sydd ar wasgar, a'n cyfraniad at ddatblygu rhyngwladol.

Mae'r ffynhonnell i lawer o bŵer meddal y DU y tu allan i gwmpas llywodraeth – yr annibyniaeth hon ar reolaeth y wladwriaeth yw hanfod ei ddylanwad. Gall y Llywodraeth ddefnyddio ei hasedau ei hun, fel y rhwydwaith diplomyddol, gwariant ar gymorth a'r lluoedd arfog, i helpu i greu ewyllys da tuag at y DU – er enghraifft, drwy roi cymorth i liniaru effaith trychinebau neu drwy ein gwaith rhyngwladol i warchod treftadaeth ddiwylliannol mewn ardaloedd lle mae gwrthdaro. Fel arall, prif rôl y Llywodraeth yw: creu amgylchedd addas lle mae sefydliadau, asedau a rhwydweithiau annibynnol ym mhob rhan o'r DU yn gallu ffynnu; eu helpu i feithrin cysylltiadau rhyngwladol sydd o fudd i'r ddwy ochr; a harneisio eu hallbynnau, lle bo modd, er lles y byd – drwy ddefnyddio ymchwil wyddonol a thechnoleg i ddatrys heriau byd-eang, er enghraifft.

Fodd bynnag, mae'r cyd-destun o ran pŵer meddal yn newid. Mae'r rheini sy'n herio gwerthoedd cymdeithasau agored a democrataidd yn gwneud hynny fwyfwy drwy ddiwylliant: mae cystadleuwyr systemig fel Rwsia a Tsieina yn buddsoddi'n helaeth i ymestyn eu pŵer diwylliannol byd-eang ac mewn gweithrediadau gwybodaeth. Mae ein cynghreiriaid yn dilyn llwybr mwy strategol hefyd: cysylltiadau diwylliannol yw un o dair colofn polisi tramor yr Almaen ac maent yn rhan bwysig o bolisi tramor Ffrainc. Mae ein darlun o wledydd eraill – ac felly o'u pŵer meddal – yn cael ei siapio fwyfwy mewn gofod digidol, wedi'i hyrwyddo gan unigolion a gweithredwyr anwladwriaethol, yn cynnwys drwy rannu twyllwybodaeth.

Mae dynameg o'r fath yn dangos na ellir cymryd cryfder pŵer meddal y DU yn ganiataol. Fel rhan hanfodol o'n polisi tramor, mae'n galw am fuddsoddi pwyllog sy'n

galluogi ein hasedau domestig a'n gweithgareddau rhyngwladol i ffynnu yn y tymor hir. Felly, parhawn i gefnogi sectorau creadigol a diwylliannol y DU, yn cynnwys drwy'r canlynol: buddsoddi £150 miliwn o dan ein Bargen Sector Diwydiannau Creadigol; cynyddu'r buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ar draws yr economi i 2.4% o gynnyrch domestig gros erbyn 2027; a darparu cyllid o £1.7 biliwn y flwyddyn i 45 o gyrff hyd braich sy'n hybu rhagoriaeth y DU mewn diwylliant a chwaraeon.

## Cryfderau pŵer meddal y DU

### Y cyfryngau a diwylliant

Y BBC yw'r darlledwr sy'n ennyn yr ymddiriedaeth fwyaf drwy'r byd; mae'r BBC World Service yn cyrraedd 468 miliwn o bobl bob wythnos, mewn 42 o ieithoedd

Mae diwydiannau creadigol a diwylliannol llewyrchus gan y DU. Mae un ym mhob wyth o'r albymau cerddoriaeth a werthir drwy'r byd wedi'i greu gan artist o'r DU. Mae chwarter y tocynnau a werthir mewn sinemâu drwy'r byd yn rhai am ffilmiau a wnaed yn y DU

Mae arddangosfeydd o'n hamgueddfeydd ac orielau yn cyrraedd mwy na 500 miliwn o bobl y flwyddyn gartref a thramor. Yn ystod 2021 a 2022, byddwn yn buddsoddi mwy na £284 miliwn mewn orielau ac amgueddfeydd a noddir gan lywodraeth. Yn 2022, bydd Festival UK* yn arddangos creadigedd ac arloesedd y DU i'r byd – gan ddod â gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, y celfyddydau a mathemateg ynghyd mewn deg digwyddiad mawr i gynnwys y cyhoedd

Mae 32 o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO ledled y DU ac yn ein Tiriogaethau Tramor, yn denu ymwelwyr o bedwar ban byd

### Addysg

Roedd bron 500,000 o fyfyrwyr tramor wedi dewis addysg yn y DU yn 2019, fel mai'r DU oedd y cyrchfan ail fwyaf poblogaidd. Mewn mwy nag 1 ym mhob 4 gwlad drwy'r byd, mae Pennaeth y Wladwriaeth neu'r Llywodraeth yn un a gafodd ei addysg yn y DU

Mae'r British Council yn cyrraedd 100 miliwn o bobl mewn mwy na 100 o wledydd

Mae 3 chynllun ysgoloriaeth llywodraeth ar gael i'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr drwy'r byd: ysgoloriaethau'r Gymanwlad, Marshall, a Chevening

### Chwaraeon

Ers y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn Llundain yn 2012, mae'r DU wedi sicrhau mwy na 100 o ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr. Yn 2021 byddwn yn cyd-gynnal cystadleuaeth EURO Dynion UEFA, ac yn 2022 byddwn yn croesawu cystadleuaeth EURO y Menywod a Gemau'r Gymanwlad

Darlledir yr Uwch Gynghrair i 188 o wledydd drwy'r byd ac mae'n croesawu talentau rhyngwladol o fwy na 100 o wledydd. Mae Pencampwriaethau Wimbledon yn cyrraedd cynulleidfaoedd drwy'r byd, ac yn denu mwy na hanner miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn

### Cysylltiadau rhwng pobl

Mae cysylltiadau gan ein pobl ym mhob rhan o'r byd: mae 9.5 miliwn o bobl sy'n byw yn y DU yn rhai a anwyd y tu allan i'r DU, ac mae mwy na 5 miliwn o ddinasyddion y DU yn byw mewn gwledydd tramor

Daeth mwy na 40 miliwn o ymwelwyr tramor i'r DU yn 2019, gan gyfrannu £28.4bn i economi'r DU a dod yn gyfarwydd â'n gwerthoedd

Mae ein hymgyrch #loveisgreat yn dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan hybu ymwybyddiaeth o'r DU fel cyrchfan sy'n croesawu ymwelwyr LGBTQ+ o wledydd tramor

## 2.2 Economi fyd-eang gadarn, agored

11. Mae cynnal economi fyd-eang agored – a'r buddion y mae'n eu cynnig – yn hollbwysig yn ein huchelgais i **sefydlu'r DU yn ganolbwynt gwasanaethau, digidol a data byd-eang**, gan osod y sylfeini i ffyniant hirdymor ein dinasyddion. Bydd hyn yn harneisio cryfderau ledled y DU mewn gwasanaethau a digidol, wedi'u seilio ar ein galluoedd fel pŵer gwyddoniaeth a thechnoleg byd-eang. Bydd hefyd yn cydweddu â nifer o dueddiadau economaidd byd-eang, fel twf y dosbarth canol byd-eang a'r lle canolog sydd i ddata mewn cynnyrch domestig gros drwy'r byd. Er hynny, mae'r economi fyd-eang agored yn wynebu heriau sylweddol sy'n rhoi cryn bwysau ar y sefydliadau rhyngwladol a'r 'llyfr rheolau' sy'n ei llywio – ac mae COVID-19 yn ffactor cymhlethu ychwanegol.

12. Mae gennym gyfle nawr i **ailgodi'n gryfach ar ôl COVID-19**, drwy gydweithio â'n cynghreiriaid a phartneriaid i geisio sicrhau adferiad economaidd ac ail-greu consensws o blaid masnach rydd a buddsoddi – wedi'i seilio ar ymddiriedaeth sy'n codi o'r newydd yng ngallu'r system economaidd ryngwladol i sicrhau llywodraethu effeithiol a darparu sefydlogrwydd.

13. Bydd ein dull gweithredu wedi'i seilio ar ein llwyddiannau hirsefydlog o ran hybu cystadleurwydd economaidd y DU a dod â buddion i ddefnyddwyr: am ein bod wedi integreiddio â'r system economaidd ac ariannol fyd-eang, cawn fynediad at eitemau hanfodol fel cyflenwadau meddygol, caiff cwmnïau'r DU fynediad at ddulliau arloesol ac at farchnadoedd cynyddol i nwyddau a gwasanaethau Prydeinig drwy'r byd, a gallwn ddenu mewnfuddsoddi i gynnal swyddi a thwf gartref. Er hynny, wrth ymadfer o'r argyfwng economaidd hwn, rhaid sicrhau bod hynny'n dod â buddion yn decach i bobl ledled y DU.

### Economi'r DU

Roedd cyfanswm ein masnach yn cyfateb i 62% o gynnyrch domestig gros y DU yn 2019

Y gymhareb rhwng buddsoddi uniongyrchol o dramor a chynnyrch domestig gros yn y DU yw 72%, o flaen Ffrainc (32%) a'r Almaen (27%)

Mae'r DU yn arwain y byd mewn gwasanaethau ariannol, ac yn 2018 roedd y rhain wedi cyfrannu £132bn i economi'r DU (6.9% o gynnyrch domestig gros)

Roedd y sector digidol wedi cyfrannu bron £150bn i economi'r DU yn 2018 – cynnydd o 30% er 2010

Mae 1.6 miliwn o swyddi a thua 232,000 o fusnesau yn sector digidol y DU, y rhan fwyaf ohonynt yn fusnesau bach a chanolig

5ed yn y byd am allforio nwyddau a gwasanaethau

Bydd y buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ar draws yr economi yn cynyddu i 2.4% o gynnyrch domestig gros erbyn 2027

Mae 1.1 miliwn o swyddi yn y sector gwasanaethau ariannol ledled y DU (3.2% o'r holl swyddi) – 65% ohonynt y tu allan i Lundain

Yn 2019, roedd y buddsoddi mewn technoleg ddigidol yn y DU wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed o £10.1bn, £3.1bn yn fwy nag yn 2018 – sef 33% o'r holl fuddsoddi mewn technoleg yn Ewrop

Roedd 485,000 o fyfyrwyr rhyngwladol yn y DU yn 2018-19, sef 20.7% o gyfanswm y boblogaeth o fyfyrwyr

14. Rhaid i ni gydweithio ag eraill hefyd **i gryfhau gallu'r economi fyd-eang i wrthsefyll** ergydion tymor byr a gwyriadau tymor hir, ac **i baratoi at heriau strwythurol y dyfodol.** Bydd hyn yn golygu creu rheolau sy'n addas i'r 21ain ganrif, wedi'u seilio ar safonau uchel a gwerthoedd democrataidd, i roi cymdeithasau agored fel y DU mewn lle gwell i harneisio twf economaidd ym meysydd newydd y dyfodol. Bydd hefyd yn helpu i integreiddio gwledydd sy'n datblygu yn yr economi fyd-eang.

15. Yn ogystal â chyflymu'r trawsnewid i economi fyd-eang ddi-garbon, byddwn yn rhoi **blaenoriaeth i'r camau gweithredu** hyn:

- **Meithrin economi gryf yn y DU sy'n sicrhau budd i'r holl ddinasyddion ac sy'n fwy cystadleuol ar lefel ryngwladol.** Defnyddiwn ein holl ysgogiadau domestig a'n hagenda ar fasnach ryngwladol (gweler y blwch testun) i hybu twf mewn cynhyrchiant ac arloesi, fel y bydd ein holl bobl yn cael budd wrth i ni ailgodi'n gryfach ar ôl COVID-19. Drwy ein cynllun ar gyfer twf a'r strategaeth ddigidol, byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith cenedlaethol, arloesi a sgiliau, gan ddangos ein blaenoriaethau rhanbarthol a sectoraidd er mwyn llywio buddsoddi gan y sector preifat. Byddwn hefyd yn rhag-weld ac yn ymateb i anghenion y rheini sy'n profi anfantais oherwydd newid yn siâp ein heconomi – er enghraifft, drwy golli swyddi o ganlyniad i awtomeiddio neu'r effeithiau o economi wyrddach ar dlodi tanwydd.
- **Hybu mewnfuddsoddi gan leihau'r risg bosibl i'n diogelwch gwladol.** Byddwn yn cynyddu'r cyfraniad gan fuddsoddi uniongyrchol o dramor i dwf economaidd ledled y DU drwy ddilyn strategaeth fuddsoddi wedi'i diweddaru, drwy ein polisi masnach a thrwy waith y Swyddfa Fuddsoddi newydd. Lle bydd hynny'n angenrheidiol a chymesur, byddwn yn ymyrryd mewn trafodiadau buddsoddi uniongyrchol o dramor i warchod diogelwch gwladol, o dan ddarpariaethau'r Bil Diogelwch Gwladol a Buddsoddi ac o dan arweiniad yr Uned Diogelwch Buddsoddi newydd. Mae'r DU wedi ymrwymo i amgylchedd rheoleiddio tryloyw a rhagweladwy mewn ymateb i set fwy cymhleth o fygythiadau.
- **Adfywio masnach rydd, deg a thryloyw drwy gryfhau'r system fasnachu fyd-eang a moderneiddio'r llyfr rheolau rhyngwladol,** yn enwedig ar yr amgylchedd, gwasanaethau a'r sector digidol. Mae angen i wledydd o gwmpas y byd – rhai bach a mawr, rhai sy'n datblygu a rhai datblygedig – fod â'r gallu i gystadlu. Felly bydd y DU yn cydweithio â chynghreiriaid a phartneriaid i adfywio Sefydliad Masnach y Byd fel y bydd ei reolau a chytundebau'n fwy addas i ddelio â materion masnach sy'n codi nawr ac yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ceisio ailsefydlu mecanwaith effeithiol i ddatrys anghydfodau. Gwnawn ragor hefyd i herio'r rheini sy'n dilyn arferion annheg drwy'r amser i ystumio masnach – fel trosglwyddo technoleg dan orfod a darparu cymorthdaliadau – yn cynnwys yr hyn sy'n digwydd drwy fentrau sy'n eiddo i wladwriaethau, a'r rheini sy'n camddefnyddio hawliau hunanddynodi i hawlio statws gwlad sy'n datblygu.
- **Sicrhau arweinyddiaeth fyd-eang mewn masnach ddigidol a chefnogi marchnadoedd digidol dynamig a chystadleuol** sy'n sicrhau budd i bawb yng nghymdeithas y DU. Ein nod yw cynyddu twf economaidd gan ddelio â'r ymyrraeth bosibl o ganlyniad i arloesi cyflym mewn meysydd sy'n cwmpasu arian digidol, e-fasnach a modelau busnes newydd sy'n elwa o ddata. Bydd y DU yn defnyddio ein harweinyddiaeth mewn masnach ddigidol i hyrwyddo negodiadau yn Sefydliad Masnach y Byd ar e-fasnach ac yn cynnwys darpariaethau modern ar fasnach ddigidol a data yn ein cytundebau masnach rydd. Bydd yr Uned Marchnadoedd Digidol newydd – o dan adain yr Awdurdod Cystadleuaeth a

Marchnadoedd – a chod ymddygiad gorfodol newydd ar gyfer y prif gwmnïau digidol yn elfennau canolog yn ein system i hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol. Drwy ein llywyddiaeth ar y G7, byddwn yn cefnogi gwaith yr OECD i sicrhau bod cwmnïau digidol yn talu'r swm priodol o dreth ym mhob gwlad lle maent yn gweithredu. Byddwn hefyd yn hyrwyddo ymdrechion i sicrhau bod safonau technegol a ddatblygir gan gyrff safonau rhyngwladol yn dod â budd i bawb.

- **Hyrwyddo masnach wyrdd fel rhan o'r ateb i her newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.** Bydd y DU yn parhau i gymryd rhan ganolog mewn trafodaethau yn Sefydliad Masnach y Byd ar fasnach a'r amgylchedd, gan chwilio am gyfleoedd i ryddfrydoli nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, lliniaru allyriadau carbon, gosod safonau a gwneud cynnydd ar sicrhau economi gylchol.
- **Mynd i'r afael â throseddu economaidd a chyllid anghyfreithlon** sy'n ariannu grwpiau troseddu cyfundrefnol, terfysgwyr a gweithredwyr maleisus eraill, yn tanseilio llywodraethu da a ffydd yn ein heconomi, ac yn maeddu ein henw da ar lefel fyd-eang drwy adael i asedau llwgr gael eu dal yn y DU. O dan Gynllun Troseddu Economaidd 2019, byddwn yn cynyddu nifer yr ymchwilwyr ariannol hyfforddedig yn ein heddluoedd; yn diwygio ein system Adroddiadau Gweithgarwch Amheus i sicrhau bod cudd-wybodaeth hanfodol yn cyfrannu i'w hymchwiliadau; ac yn cryfhau'r Ganolfan Troseddu Economaidd Genedlaethol (NECC). Cyn gynted ag y bydd amser ar gael yn y Senedd, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i fynd i'r afael â throseddu economaidd, yn cynnwys y defnydd o strwythurau corfforaethol y DU i hwyluso'r gallu i wyngalchu arian ar lefelau uwch. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys mesurau i ddiwygio cofrestru yn Tŷ'r Cwmnïau a phartneriaethau cyfyngedig, ac yn cyflwyno cofrestr o endidau tramor sy'n berchen ar eiddo yn y DU. Yn ogystal â hyrwyddo camau ar dryloywder corfforaethol a chyflymu'r gallu i adennill asedau drwy ein llywyddiaeth ar y G7, byddwn yn defnyddio ein perthnasoedd cryf â marchnadoedd ariannol mawr eraill, fel UDA, i gynyddu ein heffaith ar y cyd.
- **Amrywiaethu cyflenwadau o nwyddau hanfodol i'r DU,** fel cyfarpar meddygol a phrinfwynau, drwy bartneriaethau masnach a chydweithio rhyngwladol. Gan ddechrau â'n llywyddiaeth ar y G7, byddwn yn dilyn strategaethau seiliedig ar y farchnad, fel camau i hyrwyddo masnach benodol a lleihau rhwystrau i fasnach; yn datblygu dulliau amlochrog i asesu gwendidau mewn cadwyni cyflenwi byd-eang, er enghraifft drwy'r OECD; yn hyrwyddo safonau byd-eang i gefnogi economi gylchol fwy yn unol â'n huchelgeisiau o ran twf glân; ac yn gwneud cytundebau i gadw masnach mewn nwyddau hanfodol yn agored yn ystod argyfyngau. O fewn y DU, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd domestig i gloddio a phrosesu mwynau hanfodol, fel lithiwm, yn ogystal â'u hadennill, eu hailgylchu a'u hailddefnyddio i sefydlu economi gylchol hyfyw. Mae'r Llywodraeth eisoes yn cefnogi nifer o brosiectau peilot ledled Cernyw, er enghraifft, drwy ei chronfa 'Getting Building', Partneriaeth Fenter Leol a Grantiau Smart.

16. Defnyddiwn yr holl ddulliau domestig a rhyngwladol sydd ar gael i'r Llywodraeth wrth gymryd y camau hyn: rhoi ein polisi masnach annibynnol ar ganol ein polisi ar ddiogelwch gwladol a rhyngwladol; a defnyddio diplomyddiaeth reoliadol i siapio'r safonau a gwerthoedd a fydd yn sail i'r economi fyd-eang yn y dyfodol, fel y byddwn mewn lle gwell i gystadlu. Bydd cydweithio rhyngwladol yn hollbwysig, drwy gydweithio'n amlochrog â Sefydliad Masnach y Byd a'r OECD, a hefyd â'r G7, G20 a grwpiau eraill, i sefydlu dulliau gweithredu cyffredin a dangos y manteision o gydweithredu wrth ddylanwadu ar ddadleuon amlochrog.

## Rhoi masnach ar ganol y Brydain Fyd-eang

Fel gwlad fasnachu annibynnol, ein nod yw cynyddu ffyniant ym mhob rhan o'r DU gyda pholisi masnach seiliedig ar werthoedd i ddatblygu marchnadoedd a diweddaru rheolau masnachu rhyngwladol. Mae ein polisi wedi'i seilio ar egwyddorion craidd democratiaeth, hawliau dynol, masnach rydd a safonau uchel mewn meysydd fel yr amgylchedd, bwyd, lles anifeiliaid a data.

Mae Tariff Byd-eang newydd y DU yn system dariff symlach ac is na Thariff Allanol Cyffredin yr UE sydd, er hynny, yn cadw tariffau ar rai sectorau allweddol. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hybu twf byd-eang drwy fasnach a'n penderfyniad i gadw marchnad agored a chystadleuol yn y DU er budd defnyddwyr yn y DU.

Defnyddiwn yr holl offer masnach sydd bellach ar gael i'r Llywodraeth, ar y cyd â'n dulliau gweithredu eraill, i gyflawni ein nodau cenedlaethol. Yn benodol, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Hyrwyddo masnach rydd a theg ac adfywio Sefydliad Masnach y Byd, gan gydweithio â phartneriaid o'r un anian i foderneiddio'r llyfr rheolau masnach, hybu masnach gynaliadwy a sicrhau bod pob gwlad yn cael ei thrin yn deg.
- Negodi cytundebau masnach rydd dwyochrog a rhanbarthol, gan leihau rhwystrau masnach, creu cyfleoedd i allforwyr yn y DU, cynnal safonau uchel ac adfywio perthnasoedd â phartneriaid masnachu, hen a newydd. Yr ymrwymiad ym maniffesto'r Llywodraeth yw y bydd yn gwneud cytundebau masnach â gwledydd sy'n cwmpasu 80% o fasnach y DU erbyn diwedd 2022. Yn ogystal â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu â'r UE, ein partner masnachu agosaf, rydym wedi sicrhau cytundebau masnach rydd â 66 o wledydd nad ydynt yn yr UE ac wedi gwneud cais i ymuno â'r CPTPP, i gysylltu'r DU ag un o'r ardaloedd masnachu mwyaf dynamig yn y byd.
- Sicrhau mynediad i farchnadoedd a dylanwadu ar reolau, rheoliadau a safonau ein partneriaid masnachu. Gwnawn hynny drwy sefydliadau rhyngwladol a thrwy ddeialogau rhwng llywodraethau fel Deialogau Economaidd ac Ariannol, Cydadolygiadau Masnach, Cydbwyllgorau Economaidd a Masnach (JETCOs), cytundebau cydnabyddiaeth gilyddol a chytuniadau buddsoddi dwyochrog.
- Hyrwyddo allforion a chefnogi busnes ledled y DU. Byddwn yn helpu busnesau drwy wahanol fathau o weithgarwch ledled y DU, yn cynnwys: ymgyrchoedd allforio mewn sectorau sy'n hanfodol i dwf allforio; rhaglen o deithiau masnach allforio i sioeau masnach; ehangu ein rhwydwaith o Reolwyr Cyllid Allforio ledled y DU; lansio Canolfannau Masnach a Buddsoddi newydd y DU yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, yn ychwanegol i'r un a sefydlwyd yn yr Alban, i gysylltu busnesau â chyfleoedd mewn masnach ryngwladol; cymorth drwy ein Cynghorwyr Masnach Ryngwladol a'r Rhaglen Cyfleoedd Potensial Mawr; a chymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint sy'n datblygu eu gallu i allforio drwy wasanaethau ar-lein ychwanegol. Byddwn hefyd yn cydweithio â phartneriaid i ddelio â gweithgarwch arall sy'n amharu ar degwch mewn masnach fyd-eang gan wneud cystadlu gan fusnesau'r DU yn fwy anodd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y defnydd o gyllid consesiynol clwm i ennill contractau tramor i gwmnïau domestig.
- Defnyddio ein polisi masnach i greu swyddi lleol ym mhob rhan o'r DU. Bydd yn hollbwysig sicrhau'r buddion o gyfleoedd masnach fyd-eang wrth helpu i greu swyddi, cynyddu cyflogau a lefelu cyfleoedd economaidd ledled y DU.

Bydd yn bwysig iawn creu cyfleoedd ar gyfer allforio: amcangyfrifwyd bod 6.5 miliwn o swyddi'n cael eu cynnal gan allforion yn 2016 – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – ac roedd bron tri chwarter o'r rhain y tu allan i Lundain.

- Sicrhau bod gan y DU yr offer sydd eu hangen i ddelio ag arferion annheg a niweidiol a chynnal ymddiriedaeth mewn masnach rydd a theg. Byddwn yn sefydlu'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach yn gorff annibynnol, i alluogi busnesau mewn nifer o sectorau gweithgynhyrchu yn y DU – dur a serameg yn enwedig – i geisio iawn am arferion masnachu annheg, fel dympio a sybsideiddio, ac ymchwydd mewn mewnforion. Bydd hyn yn hyrwyddo amodau sefydlog a rhagweladwy i allforwyr yn ogystal â buddsoddwyr.
- Galluogi gwledydd sy'n datblygu i integreiddio â'r economi fyd-eang, gan greu partneriaid masnach a buddsoddi cryfach ar gyfer y dyfodol – yn benodol, drwy gytundebau partneriaeth economaidd a chynllun gwell ar gyfer ffafriaethau masnach unochrog a fydd yn helpu i leihau tlodi a chryfhau ein cadwyni cyflenwi.

## 2.3 Ehangu'r drefn ryngwladol agored i feysydd newydd yn y dyfodol

17. Wrth i'r byd symud yn bellach i oes ddigidol sy'n seiliedig ar ddata, bydd darganfyddiadau gwyddonol, technolegau newydd a'r gallu i wneud defnydd o symiau anferth o ddata yn mynd â ni i feysydd newydd: bydd cynnydd mawr yn y posibiliadau ar gyfer gweithgarwch economaidd, cymdeithasol a milwrol mewn meysydd fel seiberofod a'r gofod. Bydd y meysydd newydd hyn yn creu cyfleoedd pwysig ar gyfer ffyniant a lles yn y dyfodol. Ond bydd cystadlu brwd yn y meysydd hyn a fydd yn codi cwestiynau pwysig ynghylch y rhyngweithio rhwng cyfleoedd economaidd, diogelwch a moeseg, a'r cydbwysedd rhwng rôl y wladwriaeth, busnesau ac unigolion.

18. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd o'n blaen, rhaid i ni sicrhau bod y meysydd newydd hyn yn datblygu mewn ffordd sy'n adlewyrchu gwerthoedd a buddiannau democrataidd: gyda marchnadoedd agored a dibynadwy, mesurau cryf i ddiogelu hawliau dynol, normau ymddygiad sy'n lleihau'r risg o wrthdaro ac yn cyfyngu gweithgarwch niweidiol, a chydweithredu rhyngwladol sy'n dod â budd i'n dinasyddion ac economïau. Bydd y DU yn cydweithio â'n cynghreiriaid a phartneriaid – a rhanddeiliaid ehangach, yn cynnwys diwydiant – **i ehangu'r drefn ryngwladol agored i feysydd newydd yn y dyfodol, gan sicrhau atebolrwydd effeithiol ond gwrthwynebu rheolaeth ormodol gan wladwriaethau.**

19. Bydd ein gallu i wneud hyn yn dibynnu ar ein llwyddiant wrth greu mantais gystadleuol yn y technolegau sy'n hybu datblygiad y meysydd newydd – drwy ein galluoedd seiber a galluoedd yn y gofod, neu drwy gynyddu ein dylanwad mewn meysydd fel deallusrwydd artiffisial. Felly, creu mantais gystadleuol drwy wyddoniaeth a thechnoleg yw hanfod ein dull o weithredu.

20. Bydd ein hymdrech yn cynnwys tri maes gweithgarwch yn bennaf: cymryd rhan wrth ddatblygu safonau technegol o dan arweiniad diwydiant; datblygu fframweithiau rheoliadol ar gyfer seilwaith, technolegau, data a gweithgarwch masnachol; a sefydlu'r rheolau ar gyfer ymddygiad cyfrifol gan wladwriaethau a gweithredwyr anwladwriaethol, y bydd yn rhaid eu negodi rhwng gwladwriaethau. Byddwn yn rhoi **blaenoriaeth i'r camau canlynol** er mwyn cyflawni hyn:

- **Hyrwyddo seiberofod agored, heddychlon, diogel a dirwystr.** Cydweithiwn â llywodraethau eraill ac mewn partneriaeth â diwydiant i sicrhau bod seiberofod yn dod o dan reolau a normau sy'n gwella cyd-ddiogelwch, yn hyrwyddo gwerthoedd democrataidd ac yn hybu twf economaidd byd-eang, ac yn gwrthsefyll awdurdodyddiaeth ddigidol. Bydd y DU yn cynnal rheolaeth y gyfraith mewn seiberofod: yn amlygu ymddygiad cyfrifol fel gwladwriaeth ac yn siapio'r arferion gorau rhyngwladol; ac yn cymell cydymffurfiaeth, yn atal ymosodiadau ac yn dal gwladwriaethau eraill yn atebol am ymddygiad anghyfrifol. Lle bo angen, byddwn yn siapio rheolau newydd fel y bydd offer seiber ymosodol yn cael eu datblygu a'u defnyddio'n gyfrifol ac yn unol â chyfraith ryngwladol.

- **Diogelu rhyngrwyd fyd-eang hygyrch a rhyngweithredol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol,** gan ddiogelu'r hawl i bawb rannu gwybodaeth a chyfathrebu'n ddirwystr a diogel dros y rhyngrwyd. Bydd y DU yn gwrthsefyll ymdrechion i ddod â'r rhyngrwyd o dan reolaeth rynglywodraethol gyfyngol, gan ailddyblu ein cefnogaeth i'r model rhanddeiliaid lluosog. Byddwn hefyd yn dadlau o blaid mwy o amrywiaeth mewn cyrff safonau.

### Niwed ar-lein

Mae'r DU yn cyflwyno dull newydd o lywodraethu technolegau digidol sy'n hyrwyddo twf cynhwysol a dynamig ym mhob rhan o'n cymdeithas. Ymysg y blaenoriaethau y mae hyrwyddo marchnadoedd digidol cystadleuol dynamig, meithrin ymddiriedaeth drwy sicrhau diogelwch ar-lein, rhyddhau gwerth data, a diogelu a hyrwyddo rhyddid mynegiant ar-lein.

Ond mae'r rhyngrwyd hefyd yn galluogi a hwyluso gwahanol fathau o weithgarwch niweidiol a throseddol. Byddwn yn delio â sawl agwedd ar y rhain drwy system reoliadol newydd i ddelio â niwed ar-lein a gyflwynwyd drwy'r Bil Diogelwch Ar-lein. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod yr economi ddigidol yn gymhleth, amrywiol a dynamig. Rydym wedi dyfeisio'r system newydd fel y bydd yn gymesur ac wedi'i seilio ar risg o niwed, ac yn ddigon hyblyg i gynnwys mathau newydd o niwed ac atebion technegol.

Bydd y system yn amddiffyn defnyddwyr rhag niwed ac yn diogelu rhyddid mynegiant a phlwraliaeth ar-lein drwy drefniadau newydd i sicrhau atebolrwydd a goruchwyliaeth ar gyfer cwmnïau technoleg sy'n mynd yn bellach o lawer na hunanreoleiddio. Bydd yn ofynnol bod systemau a phrosesau gan bob darparwr gwasanaethau ar-lein i ddelio â chynnwys a gweithgarwch anghyfreithlon ar eu llwyfannau, ac i ddiogelu plant rhag cynnwys a gweithgarwch niweidiol. Bydd disgwyl i gwmnïau gymryd mesurau cadarn iawn i fynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol ar blant a therfysgaeth. Gofynnir i'r cwmnïau mwyaf osod safonau o ran pa ddeunydd cyfreithlon a fydd yn dderbyniol neu'n annerbyniol ar eu gwasanaethau, a gorfodi eu telerau ac amodau mewn ffordd gyson a thryloyw.

Law yn llaw â'r fframwaith rheoliadol, darperir cymorth gan lywodraeth ar gyfer llythrennedd yn y cyfryngau a thwf ac arloesi yn sector technoleg diogelwch y DU.

- **Sicrhau bod hawliau dynol wedi'u diogelu ar-lein fel y maent all-lein** – hyrwyddo rhyddid mynegiant ar-lein, yn cynnwys drwy'r Gynghrair Rhyddid Ar-lein, a diogelu dinasyddion rhag niwed ar-lein, drwy adeiladu ar sail dull arloesol y DU o hyrwyddo diogelwch ar-lein (gweler y blwch testun). Wrth wneud hyn, ceisiwn sicrhau bod mynediad cyfreithlon at ddata yn cael ei gadw wrth i dechnolegau a gwasanaethau digidol ddatblygu, fel y bydd gallu gan wasanaethau cudd-wybodaeth a gorfodi'r gyfraith i ymchwilio i'r troseddau mwyaf difrifol, gan ddiogelu hawl unigolion i breifatrwydd yr un pryd.

- **Sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd yn rhan annatod o dechnolegau newydd o'r dechrau wrth eu dylunio a'u rhoi ar waith.** Bydd y DU yn cydweithio â diwydiant, y Sefydliad Safonau Prydeinig a gwledydd eraill i ddylanwadu ar safonau technegol newydd a datblygu dulliau polisi cyhoeddus newydd ar gyfer technoleg sy'n hybu arloesi a'r gallu i ryngweithredu, gan ddiogelu hawliau a rhyddidau yr un pryd. Drwy ein llywyddiaeth ar y G7, byddwn yn cynnal Fforwm Technoleg y Dyfodol er mwyn cynnwys llywodraethau, diwydiant, y byd academaidd a chymdeithas sifil mewn deialog ar set graidd o egwyddorion i lywio datblygiad yr amgylchedd technoleg rhyngwladol.

- **Hyrwyddo'r llif data rhyngwladol,** fel y gellir cyfnewid data mewn ffordd ddiogel, ddibynadwy a rhyngweithredol ar draws ffiniau, gan gynnal safonau diogelu data wrth wneud hynny. Nod strategaeth data genedlaethol y DU yw harneisio data i hybu twf economaidd, hyrwyddo ymchwil wyddonol, gwella polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chreu cymdeithas decach gan sicrhau bod yr holl ddata yn cael eu defnyddio'n gyfrifol, mewn ffyrdd diogel, moesegol ac atebol. Ceisiwn ehangu'r dull hwn o weithredu i gynnwys llywodraethu data byd-eang, gan gydweithio â'n partneriaid rhyngwladol i drechu rhwystrau i lifau data a hyrwyddo safonau data rhyngwladol sy'n rhoi'r gallu i dyfu ac arloesi.

- **Sicrhau amgylchedd yn y gofod sy'n ddiogel a chynaliadwy** (gweler y blwch testun). Parhawn i arwain mewn ymdrechion rhyngwladol i ddatblygu normau, rheolau ac egwyddorion ar gyfer ymddwyn yn gyfrifol yn y gofod, i leihau'r risg o wrthdaro, delio â bygythiadau i'r DU a'n cynghreiriaid, a sicrhau ein rhyddid i weithredu. Bydd y DU hefyd yn ceisio siapio'r safonau a rheoliadau ar y defnydd sifil o'r gofod, er mwyn diogelu amgylchedd y gofod a helpu i dyfu diwydiant gofod sofran yn y DU. Byddwn yn atgyfnerthu'r gwasanaethau lleoli, llywio ac amseru y mae ein seilwaith cenedlaethol hanfodol a'n heconomi'n dibynnu arnynt; ac yn defnyddio asedau yn y gofod i ddatrys problemau a rennir, gan gefnogi ymdrechion datblygu a'r ymateb i drychinebau.

## Polisi gofod integredig: gwneud y DU yn weithredwr effeithiol yn y gofod

Er 2010, y sector gofod yw un o'r sectorau sydd wedi tyfu gyflymaf yn y DU, a'i faint wedi treblu. Erbyn hyn, mae'n cyflogi 42,000 o bobl ac yn cynhyrchu incwm o £14.8 biliwn bob blwyddyn, ac mae ganddo gryfderau neilltuol o ran technoleg lloerennau bach, telathrebu lloeren a'r gofod pell, roboteg ac arsyllu ar y Ddaear.

Er hynny, mae'r DU yn dibynnu'n helaeth ar ein cynghreiriaid am fynediad at alluoedd hanfodol, fel y gallu i lansio lloerennau. Erbyn 2030, uchelgais y Llywodraeth yw y bydd y gallu gan y DU i fonitro, diogelu ac amddiffyn ein buddiannau yn y gofod a thrwy'r gofod, gan ddefnyddio cymysgedd o alluoedd sofran a phartneriaethau i rannu'r baich â'n cynghreiriaid.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, bydd y Cyngor Gofod Cenedlaethol yn datblygu strategaeth gofod genedlaethol gyntaf y DU yn 2021. Bydd y strategaeth hon yn pennu dull integredig o weithredu ar draws polisi gofod milwrol a sifil ar gyfer:

- Sefydlu Rheolaeth Ofod newydd erbyn haf 2021, gan sicrhau bod y galluoedd mwyaf modern gan y lluoedd arfog i hyrwyddo buddiannau'r DU ar y Ddaear ac yn y gofod – gan hyrwyddo'r cydweithredu â'n cynghreiriaid a sicrhau ein bod yn gallu cystadlu â'n gwrthwynebwyr.
- Datblygu cyfleusterau lansio masnachol yn y DU – lansio lloerennau Prydeinig yn yr Alban erbyn 2022 yn rhan o raglen Asiantaeth Ofod y DU i hwyluso marchnad ar draws y DU ar gyfer gwasanaethau hedfan i'r gofod. Bydd hyn yn rhoi mwy o ymreolaeth a hyblygrwydd strategol i ni o ran beth mae'r DU yn ei lansio i'r gofod, a pha bryd.
- Datblygu galluoedd gofod hanfodol eraill at ddibenion milwrol a sifil, yn cynnwys Ymwybyddiaeth o Barthau'r Gofod, sy'n defnyddio synwyryddion integredig yn y gofod ac ar y Ddaear i dracio malurion yn y gofod, ymchwilio i ddigwyddiadau yn y gofod, a darganfod, rhag-weld a phriodoli gweithgarwch gelyniaethus.
- Helpu sector gofod y DU i wireddu'r buddion economaidd o'r farchnad newydd a dynamig hon, ac ymestyn dylanwad y DU i barthau'r gofod. Wrth ddatblygu mantais strategol y DU drwy wyddoniaeth a thechnoleg, bydd y Llywodraeth yn creu'r amgylchedd sydd ei angen ar gyfer diwydiant gofod ffyniannus yn y DU a fydd yn datblygu technolegau ar gyfer y gofod a'r Ddaear. Hyrwyddwn arlwy 'oes gyfan' o'r cam ymchwil a datblygu hyd at ariannu, gweithredu lloerennau, cymhwyso data am alluoedd lansio a gwasanaethau diwedd oes. Ym maes amddiffyn, bydd gweithgarwch gwyddonol sy'n ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r gofod, gwaith ymchwil a datblygu, a gweithrediadau i arddangos cysyniadau.
- Atal twf technolegau sy'n peri bygythiad yn y gofod, fel technolegau taflegrau, drwy reolaeth gadarn ar allforion (gweler 3.3.3).
- Cynyddu'r cydweithredu rhyngwladol gan y DU yn yr holl amcanion sy'n ymwneud â'r gofod. Ein bwriad yw parhau i gymryd rhan yn rhaglen arsylwi Copernicus Earth yr UE, a byddwn yn cydweithredu'n fwy helaeth â NATO a thrwy'r fenter Gweithrediadau Gofod Cyfunol (CSpO). Byddwn hefyd yn datblygu ein gwaith gyda chyrff yn cynnwys NASA ac asiantaethau gofod Ewrop, Canada, Awstralia a Japan.



Gorsaf Ddaear Goonhilly ar benrhyn Lizard yng Nghernyw lle ceir nifer o antenau telathrebu ac Antena Gofod Pell masnachol cyntaf y DU (a elwir yn GHY-6, yn y tu blaen) sy’n gallu derbyn darlleniadau o gyfarpar llongau gofod sy’n troi o gwmpas y Lleuad, Mawrth a lleoliadau pellach. Llun: GES Ltd

## Y DU yn y byd: gwlad Ewropeaidd â buddiannau byd-eang

**Ymysg gwledydd Ewrop, mae gan y DU fuddiannau, partneriaethau a galluoedd byd-eang sy'n unigryw.** Fel un o bum aelod parhaol Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, â'n llais yn hyglyw mewn sefydliadau fel y G7, G20 a'r Gymanwlad, mae gennym bersbectif byd-eang a chyfrifoldebau byd-eang. Mae ein patrymau masnach a buddsoddi'n rhai byd-eang yn ogystal ag Ewropeaidd, ac mae ein polisi rhyngwladol yn adlewyrchu'r realiti hwn. Ein nod yw bod mewn lle da i fanteisio ar farchnadoedd newydd, newidiadau yn yr economi fyd-eang a chynnydd byd-eang mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, ac ysgwyddo cyfran deg o'r baich wrth ddarparu ar gyfer sefydlogrwydd a diogelwch ar lefel fyd-eang a hefyd yn y rhanbarth Ewro-Iwerydd. Bydd hyn yn arwain ein ffordd o flaenoriaethu ymdrechion diplomyddol, yn cynnwys y gogwydd tua'r rhanbarth Indo-Basiffig.

Bydd yr **Unol Daleithiau** yn parhau'n gynghreiriad a phartner strategol pwysicaf y DU. Ar ganol y berthynas y mae un ddynol: y llif o bobl a syniadau rhwng ein gwledydd, ein hanes cyffredin, ac iaith gyffredin. Mae bron miliwn o wladolion Prydeinig ac Americanaidd yn byw ac yn mynd i weithio yng ngwledydd ei gilydd bob diwrnod. Mae ein perthynas wedi'i seilio hefyd ar werthoedd cyffredin – cred gyffredin mewn democratiaeth, rheolaeth y gyfraith a rhyddidau sylfaenol. O ganlyniad i'r sylfeini hyn, rydym yn cydweithredu i raddau na welwyd o'r blaen. Ym mhob agwedd ar amddiffyn, cudd-wybodaeth, pŵer seiber, gwrthderfysgaeth a niwclear, mae'r bartneriaeth rhwng UDA a'r DU yn cynnal ein diogelwch ac yn achub bywydau. Parhawn i ddyfnhau ein perthynas, yn cynnwys drwy'r Grŵp Cyrchu Llongau Awyrennau, gwaith ar y cyd ar dechnolegau newydd, a chydweithio ar ein hatalfa niwclear i'r dyfodol. UDA yw partner masnachu dwyochrog mwyaf y DU, yn cyfrif am fasnach o fwy na £230 biliwn, bron 20% o allforion y DU a'r ffynhonnell fwyaf o fuddsoddi uniongyrchol o dramor yn 2019. Ceisiwn dyfu hyn ymhellach drwy gytundeb masnach rydd, a fydd yn helpu ein dwy economi i ymadfer ar ôl COVID-19 ac yn hybu ein huchelgais cyffredin i lefelu cyfleoedd, gan osod safon newydd ar gyfer cytundebau masnach y dyfodol o ran masnach ddigidol, diogelu eiddo deallusol a chyflymu ymdrechion ar yr economi carbon isel. Byddwn hefyd yn ceisio cydweithio'n agosach i ddelio â chyllid anghyfreithlon.

Mae ein cymdogion a chynghreiriaid **Ewropeaidd** yn parhau'n bartneriaid hanfodol. Y DU fydd yn cyfrannu fwyaf ar ei phen ei hun yn Ewrop at ddiogelwch y rhanbarth Ewro-Iwerydd hyd 2030. Cydweithiwn â'n partneriaid i amddiffyn gwerthoedd cyffredin, gwrthsefyll bygythiadau i'n gilydd a datblygu cadernid yn ein rhanbarth. Byddwn hefyd yn cynnal ein cysylltiadau o ran pobl a diwylliant, ac yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio, yn cynnwys wrth ddatblygu technoleg wyrdd a thrwy adferiad gwyrdd ar ôl COVID-19.

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r UE yn ei chyflawni yn heddwch a ffyniant Ewrop a byddwn yn dod o hyd i ffyrdd newydd i gydweithio â'r UE ar heriau cyffredin. Mae ein Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gosod sylfaen ar gyfer amddiffyn ein buddiannau economaidd hanfodol, a chydweithredu fel y bo'n briodol, gan ein galluogi i ddilyn llwybrau economaidd a gwleidyddol gwahanol mewn nifer o feysydd lle mae hyn o fudd i ni.

Mae gennym berthynas ddwfn a hirsefydlog ym maes diogelwch ac amddiffyn â **Ffrainc**, wedi'i seilio ar gytuniadau Lancaster House a'i hamlygu yn ein Cyd-fyddin Alldeithiol Gyfunol (CJEF). Parhawn i gydweithio i wrthsefyll terfysgaeth a bygythiadau gwladwriaethol, ac i gynnal diogelwch rhyngwladol. Bydd yn bwysig rheoli ein perthynas economaidd mewn ffordd adeiladol a chydweithredol, yn enwedig o ran delio â'r ffin gyffredin mewn perthynas â masnach a diogelwch, er

mwyn sicrhau bod y berthynas gyffredinol yn parhau'n un gadarnhaol. Ein bwriad yw gwella'r bartneriaeth hon ac adeiladu ar sail cytuniadau Lancaster House yn uwchgynhadledd y DU-Ffrainc yn 2021.

Mae'r **Almaen** yn gynghreiriad hanfodol sy'n rhannu cysylltiadau economaidd cryf â ni a phartneriaeth sy'n tyfu mewn polisi tramor, fel aelodau o'r E3 ac yn ddwyochrog. Parhawn i gydweithio i amddiffyn ein cymdogaeth a'n gwerthoedd, yn cynnwys drwy'r Cyd-ddatganiad ar Bolisi Tramor y gobeithiwn ei lofnodi yn 2021. Ceisiwn atgyfnerthu'r berthynas hon yn y blynyddoedd nesaf, yn cynnwys drwy gydweithredu ar faterion pwysig fel y newid yn yr hinsawdd.

Rydym wedi ymrwymo i bartneriaeth ddwyochrog gryf ag **Iwerddon**, sy'n rhannu Ardal Deithio Gyffredin â ni. Mae gennym gydgyfrifoldeb a buddiant cyffredin hanfodol mewn amddiffyn yr holl elfennau yng Nghytundeb Belfast 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y tri maes sydd ynddo: llywodraethiant mewnol Gogledd Iwerddon, cydweithredu rhwng y De a'r Gogledd a chysylltiadau rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin. Ceisiwn gydweithio'n adeiladol ag Iwerddon i sicrhau bod Cytundeb Ymadael â'r UE 2019 yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n diogelu'r cytundeb hwn a'r enillion a gafwyd drwy ymdrech fawr y broses heddwch, yn cynnwys ffyniant a sefydlogrwydd yng Ngogledd Iwerddon. Yn ogystal â hyn, byddwn yn datblygu ein perthynas ymhellach drwy gynyddu cysylltedd, twf glân a chydweithredu rhyngwladol.

Bydd partneriaid eraill yn Ewrop, y tu mewn a'r tu allan i'r UE, yn parhau'n hanfodol i'n dull o weithredu. Rydym yn mwynhau partneriaeth agos iawn â'r **Eidal** ar hyn o bryd yn rhinwedd ein llywyddiaeth ein dwy ar y G7 a'r G20 a COP26 yn 2021. Mae **Gwlad Pwyl** yn bartner hollbwysig ar ddiogelwch Ewropeaidd sy'n rhannu perthynas ddwfn â ni drwy hanes. Yn yr un modd, rydym yn cydweithio â phartneriaid eraill yn Ewrop, yn cynnwys **Sbaen, Portiwgal, yr Iseldiroedd, Denmarc, Norwy, Sweden, y Swistir a Thwrci,** ar set benodol o fuddiannau lle gallwn gydweithredu, fel ein gwerthoedd, masnach rydd ac ymrwymiad i Atlantigiaeth. Yn ddwyochrog, a thrwy NATO a'r Gyd-fyddin Ymgyrchol, rydym yn cydweithio â'n holl gynghreiriaid i hyrwyddo ein hamcanion cyffredin, er mwyn cwrdd â heriau amddiffyn a diogelwch a rennir. Parhawn i ddatblygu'r prosiect Future Combat Air System (FCAS) ar y cyd â'r Eidal a Sweden.

Mae'r DU yn parchu pobl, diwylliant a hanes **Rwsia**. Fodd bynnag, nes bydd cysylltiadau â'i llywodraeth yn gwella, byddwn yn cymryd camau i atal ac amddiffyn rhag yr holl fathau o fygythiadau sy'n deillio o Rwsia. Drwy NATO, byddwn yn sicrhau ymateb unedig gan y Gorllewin, gan gyfuno ein hasedau milwrol, diplomyddol a chudd-wybodaeth i hyrwyddo cyd-ddiogelwch. Cynhaliwn reolau a normau rhyngwladol a dal Rwsia yn atebol am dorri'r rhain, gan gydweithio â'n partneriaid rhyngwladol, fel y gwnaethom ar ôl yr ymosodiad yng Nghaersallog. Byddwn hefyd yn cefnogi eraill yng **nghylch Dwyrain Ewrop** a thu hwnt i gynyddu eu gallu i wrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol. Mae hyn yn cynnwys **Ukrain**, lle byddwn yn parhau i feithrin gallu ei lluoedd arfog.

Bydd y DU yn parhau i fuddsoddi'n helaeth yn ein partneriaethau ag **Awstralia**, **Canada a Seland Newydd**, sydd wedi'u seilio ar hanes a gwerthoedd cyffredin a chysylltiadau rhwng pobl, yn cynnwys y rheini fel cyd-aelodau o'r Gymanwlad. Parhawn i gydweithio'n ddwyochrog â phob un o'r tair gwlad ar faterion polisi tramor a diogelwch, cudd-wybodaeth, gorfodi'r gyfraith ac amddiffyn. Byddwn hefyd yn cydweithio, ynghyd ag UDA, drwy bartneriaeth unigryw a gwerthfawr y Pum Llygad. Rydym wedi cynyddu ein cydweithrediad ym mhartneriaeth y **Pum Llygad,** yn cynnwys hynny mewn ymateb i'r pandemig, a cheisiwn gryfhau'r cydweithredu ar bolisi ymhellach ar nifer o faterion. O dan ein polisi masnach annibynnol, ceisiwn wneud cytundeb masnach rydd pwrpasol â phob partner.

Mae'r DU yn un o 54 aelod y **Gymanwlad**, cymdeithas ryngwladol wirfoddol sy'n mawrbrisio sofraniaeth ddemocrataidd ac yn cwmpasu 2.4 biliwn o bobl – 60% ohonynt o dan dri deg oed. Mae'r Gymanwlad yn sefydliad pwysig o ran cefnogi trefn ryngwladol agored a chadarn, dod â gwladwriaethau ynghyd sydd â buddiant cenedlaethol mewn hyrwyddo democratiaeth, cynnal rhyddidau'r unigolyn, hyrwyddo datblygu cynaliadwy a hwyluso masnach drawsffiniol mewn nwyddau a gwasanaethau sy'n hybu twf economaidd.

Yn y degawd nesaf, bydd y DU yn dyfnhau ein hymgysylltu yn y rhanbarth **Indo-Basiffig** (gweler yr adran ddilynol), gan sefydlu presenoldeb cadarnach a mwy parhaol nag unrhyw wlad Ewropeaidd arall. Mae'r rhanbarth yn un hollbwysig i'n heconomi a diogelwch eisoes; yn ganolbwynt ar gyfer negodi cyfreithiau, rheolau a normau rhyngwladol; a bydd yn bwysicach i ffyniant y DU dros y degawd nesaf. **Japan** yw un o'n partneriaid strategol agosaf, yn cynnwys ar ddiogelwch, ac rydym wedi ymrwymo i ddyfnhau'r bartneriaeth hon. Byddwn yn disgwyl cryfhau ein cysylltiadau â **De Korea** a phwerau rhanbarthol eraill fel **Indonesia, Fiet-nam, Malaysia** a **Singapôr**. Ni fydd y partner mwyaf ymroddedig o hyd y tu allan i'r rhanbarth ar ddadniwcleareiddio **Gogledd Korea** ac ar orfodi sancsiynau. Mae gennym gysylltiadau hanesyddol agos â **Phacistan** a pharhawn i feithrin perthynas gadarn, fodern gan ganolbwyntio ar ddiogelwch, sefydlogrwydd a ffyniant. Parhawn i hyrwyddo sefydlogrwydd yn **Affganistan**, yn rhan o gynghrair ehangach.

Mae'r berthynas rhwng y DU ac **India** yn un gadarn eisoes, ond dros y deng mlynedd nesaf ceisiwn drawsnewid y cydweithredu rhyngom ar yr holl fuddiannau sy'n gyffredin i ni. Mae India – fel y ddemocratiaeth fwyaf yn y byd – yn weithredwr rhyngwladol o bwys cynyddol. Fel gwledydd yn y Gymanwlad, mae gennym gysylltiadau diwylliannol cryf: mae 1.5 miliwn o wladolion Prydeinig o dras Indiaidd; ac rydym yn cydweithredu'n helaeth yn y sector addysg. Roedd masnach rhwng y DU ac India wedi cynyddu ddwywaith a rhagor rhwng 2007 a 2019, mae ein perthynas buddsoddi yn cynnal mwy na hanner miliwn o swyddi yn economïau ein gilydd, a'r DU yw'r partner ymchwil ail fwyaf sydd gan India. Bydd y gallu i wneud ein cytundebau masnach ein hunain yn caniatáu i ni ddatblygu ein perthynas economaidd ymhellach, yn cynnwys drwy gynyddu llifau buddsoddi o'r ddwy ochr.

Mae ein gweledigaeth yn un ar gyfer adfywio masnach a buddsoddi, ar sail gwyddoniaeth a thechnoleg, gyda'r amcan o lefelu cyfleoedd yn y DU ac India yn yr un modd; gwell cydweithredu ar amddiffyn a fydd yn gwneud Rhanbarth Cefnfor India yn fwy diogel drwy adeiladu ar sail y Deialogau Amddiffyn Gweinidogol chwemisol presennol; ac arweinyddiaeth gan y DU ac India i fynd i'r afael â heriau byd-eang fel y newid yn yr hinsawdd, ynni glân ac iechyd byd-eang. Cymerwn gam mawr ymlaen at wireddu'r weledigaeth hon yn 2021 pan fyddwn yn lansio ein Partneriaeth Fasnach Agosach ag India fel map trywydd at gytundeb masnach cynhwysfawr posibl. Bydd y berthynas hon wedi'i seilio ar ein rhwydwaith diplomyddol, sy'n fwy na'r un arall sydd gennym mewn unrhyw wlad yn y byd, gyda mwy nag 800 o staff mewn 11 o swyddfeydd.

Statws rhyngwladol cynyddol **Tsieina** yw'r ffactor geowleidyddol pwysicaf un yn y byd heddiw, â'i oblygiadau mawr i werthoedd a buddiannau Prydain ac i strwythur a siâp y drefn ryngwladol. Mae'r ffaith bod Tsieina yn wladwriaeth awdurdodyddol â gwerthoedd gwahanol i'n rhai ni, yn cynnig heriau i'r DU ac i'n cynghreiriaid. Bydd Tsieina yn cyfrannu mwy at dwf byd-eang na'r un wlad arall yn y degawd nesaf gan ddod â buddion i'r economi fyd-eang. Mae Tsieina a'r DU ill dwy'n elwa o fasnach a buddsoddi dwyochrog, ond Tsieina hefyd yw'r bygythiad mwyaf sy'n deillio o wladwriaeth i ddiogelwch economaidd y DU.

Bydd arnom angen fframwaith diplomyddol cadarn ar gyfer y berthynas hon sy'n caniatáu i ni ddelio ag anghydfodau, amddiffyn ein gwerthoedd a chadw

lle ar gyfer cydweithredu lle mae ein buddiannau'n cyd-fynd. Mae Tsieina yn bartner cynyddol bwysig wrth ddelio â heriau byd-eang fel parodrwydd ar gyfer pandemigau, bioamrywiaeth a newid hinsawdd. Parhawn i geisio perthynas economaidd gadarnhaol, yn cynnwys cysylltiadau masnach dyfnach a mwy o fuddsoddi gan Tsieina yn y DU. Ar yr un pryd, byddwn yn cynyddu'r amddiffyniad i'n seilwaith cenedlaethol hanfodol, sefydliadau a thechnoleg sensitif, ac yn atgyfnerthu ein cadwyni cyflenwi hanfodol, fel y gallwn ymwneud yn hyderus â'n gilydd. Ni fyddwn yn petruso rhag sefyll dros ein gwerthoedd a'n buddiannau lle maent o dan fygythiad, neu pan fydd Tsieina yn gweithredu'n groes i gytundebau presennol. Mae'r DU wedi ymateb i weithredoedd Tsieina yn Hong Kong drwy greu llwybr mewnfudo newydd i Wladolion Prydeinig (Tramor) ac aelodau o'u teuluoedd a dibynyddion sy'n gymwys, ac i'r ymyriadau â hawliau dynol gan Tsieina yn Xinjiang drwy fesurau i sicrhau na fydd sefydliadau Prydeinig yn gyfrannog ohonynt nac yn elwa ohonynt.

**Affrica** yw'r cyfandir mwyaf amrywiol yn y byd lle ceir tueddiadau gwrthbwysol sylweddol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r **Undeb Affricanaidd** ar yr hinsawdd a bioamrywiaeth, diogelwch iechyd byd-eang, masnach rydd, rheoli argyfyngau, atal gwrthdaro a chyfryngu, yr agenda ar Fenywod, Heddwch a Diogelwch, a hyrwyddo llywodraethu da a hawliau dynol. Ar sail llwyddiant Uwchgynhadledd Buddsoddi Affrica 2020, byddwn yn adfywio'r ymgysylltu economaidd gan y DU ag Affrica, gan ddyfnhau a datblygu partneriaethau cilyddol, cydweithio i adeiladu economïau cadarn a chynhyrchiol a chymdeithasau agored, gyda gwell arlwy ar gyfer datblygu, buddsoddi ac ariannu, ymateb dyngarol mwy effeithiol, mwy o allu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a llai o fygythiadau i ddiogelwch.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â **De Affrica, Nigeria, Kenya, Ethiopia** a **Ghana** yn benodol i hyrwyddo ein nodau ffyniant cyffredin, ein gwerthoedd democrataidd a'n buddiannau diogelwch. Mae De Affrica a Nigeria yn bwerau rhanbarthol â chyrhaeddiad byd-eang drwy fforymau rhyngwladol, sydd â gwerthoedd a buddiannau masnachol a datblygu sy'n gyffredin â ni: gyda'i gilydd, maent yn gyfrifol am 46% o gynnyrch domestig gros Affrica Is-Sahara ac am 60% o'i masnach â'r DU.

Mae'r DU yn rhannu pryderon sylweddol ag Ethiopia a Kenya o ran diogelwch a gwrthderfysgaeth yn Horn Affrica. Byddwn yn buddsoddi rhagor mewn sefydlogrwydd rhanbarthol, gan gymryd camau i gydweithio'n agosach ar amddiffyn â Kenya, a hefyd ag Ethiopia os bydd y sefyllfa yno'n caniatáu. Byddwn yn ffurfio Partneriaeth Strategol y DU-Kenya, gan adeiladu ar sail ein perthynas hanesyddol, ddwfn.

Bydd y DU yn parhau i helpu mewn ymdrechion i ddatrys anghydfodau a sefydlogi yn **Somalia** a **Swdan** ac yn gweithio i sicrhau mordwyo dirwystr yng Ngwlff Aden a diogelwch morwrol yng Nghefnfor India. Parhawn i gefnogi ymgyrchoedd cadw heddwch gan y Cenhedloedd Unedig a gwledydd Affricanaidd – yn cynnwys drwy ymrwymiad cynyddol i'r genhadaeth sy'n dilyn Cenhadaeth yr Undeb Affricanaidd yn Somalia (AMISOM) – i ymateb i bryderon a rennir am ddiogelwch ac i amddiffyn y rhai sy'n fwyaf agored i niwed. Rydym wedi anfon milwyr y DU i gymryd rhan yng Nghenhadaeth Sefydlogi Integredig Amlddimensiwn (MINUSMA) y Cenhedloedd Unedig ym **Mali** ac rydym yn darparu hyfforddiant i filwyr Affricanaidd sy'n cyfrannu i genadaethau'r Cenhedloedd Unedig.

Mae gan y DU gysylltiadau dwyochrog hanesyddol, cryf yn rhanbarth y **Dwyrain Canol** a **Gogledd Affrica** – fel y rhai â **Gwlad yr Iorddonen** ac **Oman** – sy'n hanfodol i ffyniant a diogelwch y DU. Byddwn yn ceisio dyfnhau'r cysylltiadau hyn er mwyn dod yn un o'r prif bartneriaid masnach a buddsoddi yn y rhanbarth ac ennill cefnogaeth i'n hamcanion ar yr

hinsawdd. Byddwn yn creu darpariaeth ddiogelwch fwy integredig i amddiffyn ein buddiannau, gan ddelio â'r ffactorau sy'n ysgogi terfysgaeth ar lefel uwch, a chydweithio â'n partneriaid i wella a moderneiddio eu capasiti a'u galluoedd diogelwch er mwyn sicrhau sefydlogrwydd parhaus yn y rhanbarth. Bydd ein lluoedd arfog yn parhau i gyfrannu i'r Gynghrair Fyd-eang yn erbyn Daesh yn **Irac** a **Syria**. Byddwn hefyd yn adeiladu ar sail ein partneriaethau diogelwch agos, yn cynnwys y rhai ag **Israel** a Sawdi Arabia, er mwyn amddiffyn ein buddiannau yn y rhanbarth yn well.

Byddwn yn cynyddu ein gwaith i hyrwyddo cadernid economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gwell, yn cynnwys hynny mewn gwledydd allweddol fel yr **Aifft**. Cydweithiwn â phartneriaid i adeiladu cymdeithasau sy'n fwy agored, cynhwysol a chydnerth, gan roi sylw penodol i hyrwyddo a hybu cyfranogiad gan fenywod ac addysg merched. Ceisiwn gynyddu masnach a buddsoddi gyda'n partneriaid yn y Gwlff, er mwyn hyrwyddo'r agenda ar lefelu cyfleoedd yn y DU. Byddwn yn cynyddu'r cydweithio mewn meysydd fel gwyddorau bywyd a thechnoleg wyrdd gyda Sawdi Arabia, yr **Emiraethau Arabaidd Unedig** (UAE) ac Israel ac yn cefnogi gwaith ar dwf cynaliadwy a newid hinsawdd gydag Irac a **Moroco**. Byddwn hefyd yn cynyddu ein cydweithrediad â'n partner agos yr UAE i ddelio â llifau arian anghyfreithlon drwy'r byd.

Bydd yn flaenoriaeth i ni barhau â'n gwaith gyda phartneriaid mewn ymdrech ddiplomyddol newydd i atal **Iran** rhag datblygu arf niwclear, i'w dal yn atebol am ei gweithgarwch i ansefydlogi'r rhanbarth, a hynny'n cynnwys ymdrech i sicrhau closio rhwng gwledydd yn y rhanbarth. Bydd y DU yn parhau i geisio sicrhau atebion gwleidyddol parhaus yn **Yemen** a **Libya**. Yn yr un modd, byddwn yn ymateb i ganlyniadau dyngarol, economaidd a rhanbarthol y gwrthdaro yn Syria ac yn ymdrechu i sicrhau ateb gwleidyddol parhaus, yn cynnwys drwy ein cymorth i Wlad yr Iorddonen a **Libanus**.

Yn **America Ladin** a'r **Caribî**, bydd y DU yn parhau i ddatblygu set o bartneriaethau cadarn ar sail gwerthoedd democrataidd a rennir, twf cynhwysol a chadarn, masnach rydd a chydfuddiant mewn delio â throseddu difrifol a chyfundrefnol a llygredd. Am fod y rhanbarth hwn yn cynnwys o leiaf 23% o goedwigoedd trofannol y byd, 30% o'r cronfeydd byd-eang o ddŵr croyw a 25% o'r tir triniadwy yn y byd, mae hefyd yn bartner hanfodol yn yr ymdrech i ddelio â newid hinsawdd ac adfer bioamrywiaeth.

Byddwn yn dyfnhau ein cysylltiadau â **Brasil** a **Mecsico**, gan gryfhau partneriaethau ar fasnach, arloesi, yr hinsawdd, diogelwch a datblygu yn ogystal â chydweithio â'r **Ariannin, Chile** a **Cholombia** i hyrwyddo ein buddiannau. Parhawn i amddiffyn sofraniaeth y DU yn Ynysoedd Falkland, De Georgia ac Ynysoedd De Sandwich i sicrhau buddiannau'r 3,500 o bobl sy'n byw yno yn unol ag egwyddor hunanbenderfyniad.

Erbyn 2021, bydd Cytuniad yr Antarctig wedi bod mewn grym am 60 mlynedd. Y DU oedd y wlad gyntaf i lofnodi'r cytuniad, sy'n diogelu **Antarctica** fel cyfandir ar gyfer cydweithredu gwyddonol heddychlon. Drwy ddefnyddio ein llong Ymchwil Begynol fodern newydd RRS Syr David Attenborough, a thrwy ragor o fuddsoddi yn ein gorsafoedd a galluoedd gwyddonol yn yr Antarctig, bydd y DU yn parhau i gynnal a chryfhau System Cytuniad yr Antarctig a pharhau i arwain ar astudio'r goblygiadau byd-eang o newid hinsawdd yn Antarctica.

Y DU yw'r cymydog agosaf i ranbarth yr **Arctig**. Drwy ein rôl yn Sylwedydd Gwladwriaethol ar Gyngor yr Arctig, byddwn yn cyfrannu at gadw'r rhanbarth yn un lle mae llawer o gydweithredu a'r lleiaf o densiwn. Byddwn hefyd yn parhau i gyfrannu'n helaeth at y gwyddorau yn yr Arctig, gan ganolbwyntio ar ddeall goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio â'n partneriaid i sicrhau bod mynediad cynyddol i'r rhanbarth ac at ei adnoddau yn cael ei reoli'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn gyfrifol.



Ysgolorion Chevening mewn digwyddiad ymgynefino.
© Hawlfraint y Goron 2021

## Y gogwydd Indo-Basiffig: fframwaith

**Mae'r rhanbarth Indo-Basiffig yn bwysig i'r DU: mae'n hanfodol i'n heconomi, ein diogelwch a'n huchelgais byd-eang i gefnogi cymdeithasau agored.** Mae o leiaf 1.7 miliwn o ddinasyddion Prydeinig yn byw ar draws y rhanbarth ac mae ein cysylltiadau masnach yn parhau i gynyddu. Yn y degawdau nesaf, bydd nifer o'r heriau byd-eang mwyaf difrifol yn cael eu hwynebu yno – yn cynnwys yr hinsawdd a bioamrywiaeth yn ogystal â diogelwch morwrol a chystadlu geowleidyddol sy'n gysylltiedig â rheolau a normau.

Mae angen i'r DU ymgysylltu'n fwy helaeth:

- **I gael cyfleoedd economaidd** – yr Indo-Basiffig yw peiriant twf y byd: yn gartref i hanner poblogaeth y byd; 40% o'r cynnyrch domestig gros byd-eang; rhai o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf; ar y blaen mewn trefniadau masnach byd-eang newydd; yn arwain ac yn mabwysiadu safonau a dulliau arloesol technegol a digidol; yn buddsoddi'n helaeth mewn ynni adnewyddadwy a thechnoleg wyrdd; ac yn hanfodol i'n nodau ar gyfer buddsoddi a chadwyni cyflenwi cadarn. Mae'r rhanbarth Indo-Basiffig eisoes yn cyfrif am 17.5% o fasnach byd-eang y DU a 10% o'i mewnfuddsoddi uniongyrchol o dramor a byddwn yn ymdrechu i gynyddu hyn, yn cynnwys drwy gytundebau masnach newydd, deialogau a phartneriaethau dyfnach ym maes gwyddoniaeth, technoleg a data.
- **Er mwyn ein diogelwch** – mae'r rhanbarth yn ganolbwynt i gystadlu geowleidyddol cynyddol lle mae nifer o fflachbwyntiau dichonol, yn cynnwys anghydfodau tiriogaethol sydd heb eu datrys; twf arfogaeth niwclear a chamgymeriadau yn ei chylch; yn ogystal â'r newid yn yr hinsawdd a bygythiadau terfysgol anwladwriaethol a throseddu difrifol a chyfundrefnol. Mae yn y rheng flaen wrth wynebu heriau newydd i ddiogelwch, yn cynnwys rhai yn y seiberofod. Mae llawer o fasnach y DU ag Asia yn dibynnu ar forgludiant sy'n mynd drwy nifer o wahanol dagfeydd yn yr Indo-Basiffig. Felly mae cadw rhyddid i fordwyo yn hanfodol i fuddiannau cenedlaethol y DU. Rydym eisoes yn cydweithio'n agos â phartneriaid yn y rhanbarth a gwnawn ragor drwy ymgysylltu parhaus gan ein lluoedd arfog a'n gwaith ehangach i feithrin gallu o ran diogelwch.
- **Er mwyn ein gwerthoedd** – mae angen i ni ddyfnhau ac ehangu ein partneriaethau er mwyn hyrwyddo cymdeithasau agored a chynnal y rheolau a normau rhyngwladol sy'n sail i fasnach rydd, diogelwch a sefydlogrwydd. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddatblygu mewn rhanbarth sy'n gartref i un rhan o dair o bobl dlotaf y byd. Cydweithiwn yn agos â phartneriaid dwyochrog ac amlochrog o'r un anian, yn cynnwys drwy waith ar flaenoriaethau byd-eang fel addysg merched a delio â'r newid yn yr hinsawdd.

**Ein nod:** ni fydd y partner Ewropeaidd sydd â'r presenoldeb ehangaf a mwyaf integredig yn yr Indo-Basiffig – wedi ymrwymo dros y tymor hir, gyda phartneriaethau agosach a dyfnach, yn ddwyochrog ac amlochrog.

**Ein rôl:** byddwn yn arwain lle rydym yn y lle gorau i wneud hynny a gweithiwn mewn partneriaeth ag eraill a'u cefnogi fel y bo'r angen er mwyn cyflawni ein nodau. Bydd hyn yn cynnwys cynnal a chefnogi partneriaethau dwyochrog ac amlochrog yn y rhanbarth, fel Trefniadau Amddiffyn y Pum Pŵer (FPDA), a chydweithio â sefydliadau fel ASEAN a Fforwm Ynysoedd y Môr Tawel. Byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd i gydweithio'n fwy agos â phartneriaid Ewropeaidd, yn cynnwys Ffrainc a'r Almaen. Byddwn yn bartner masnach agored a rhyddfrydol, yn gwneud busnes mewn ffordd ddibynadwy a diffuant, ac yn adeiladu ar sail ein harbenigedd helaeth a'n hymwneud â materion heddwch a diogelwch rhyngwladol.

**Ein gweithredoedd:** gwireddir yr uchelgais hwn drwy ymgysylltu ar draws llywodraeth ar sail blaenoriaeth, gan ganolbwyntio ar naw maes:

- Cwblhau a gweithredu cytundebau masnach dwyochrog newydd ag Awstralia a Seland Newydd, a chytuno ar Bartneriaeth Fasnach Agosach ag India fel cam tuag at gytundeb masnach cynhwysfawr, yn ogystal â deialogau ac adolygiadau masnach â phartneriaid ar draws y rhanbarth.
- Dod yn rhan o Gytundeb Cynhwysfawr a Chynyddol y Bartneriaeth Draws-Basiffig er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd masnach a buddsoddi, a hefyd i amrywiaethu ein cysylltiadau masnachu a chadwyni cyflenwi, gan ymgorffori masnach agored ac integreiddio.
- Cryfhau'r cadwyni cyflenwi ar gyfer nwyddau a deunyddiau crai hanfodol, yn cynnwys cyflenwadau meddygol.
- Dod yn Bartner Deialog ASEAN er mwyn cydweithio ar heriau byd-eang, cefnogi rôl ganolog ASEAN mewn sefydlogrwydd a ffyniant rhanbarthol a hwyluso datblygu cynaliadwy yn Ne-ddwyrain Asia.
- Cryfhau'r cydweithredu ym maes amddiffyn a diogelwch, yn cynnwys hynny mewn diogelwch morwrol, ar sail ein gorsafoedd milwrol tramor a'n cyfraniad presennol yn y rhanbarth Indo-Basiffig, gan ymgysylltu'n well ac ymarfer gyda'n partneriaid yn FPDA, ac ymwneud yn fwy â grwpiau diogelwch rhanbarthol.
- Cydweithredu a meithrin gallu mewn seiberddiogelwch.
- Delio â'r newid yn yr hinsawdd, drwy weithgarwch addasu a lliniaru, er mwyn helpu i drawsnewid i dwf glân, cadarn a chynaliadwy yn y rhanbarth Indo-Basiffig drwy ddylanwadu ar weithredwyr sy'n achosi allyriadau mawr a chynyddol ac ar y gwledydd sy'n fwyaf agored i niwed, gan gysylltu hynny'n uniongyrchol â'n strategaeth ehangach ar gyfer COP26.
- Ein hagenda grym er daioni, drwy hyrwyddo cymdeithasau agored a diogelu lles y cyhoedd drwy atal gwrthdaro, rheolaeth gadarn y gyfraith, parch at hawliau dynol a rhyddid y cyfryngau, addysg merched ac ymateb dyngarol. Byddwn hefyd yn parhau i ddyfnhau ein cysylltiadau rhwng pobl, yn cynnwys drwy dymhorau diwylliannol dwyochrog gyda Japan, Awstralia ac India.
- Defnyddio ein cymorth datblygu swyddogol yn fwy strategol, i hyrwyddo nifer o'r amcanion hyn. Parhawn i gynorthwyo gwledydd sy'n bartneriaid i ni yn y rhanbarth i ymladd tlodi eithafol. Lle mae gwledydd yn gallu ariannu eu datblygiad, byddwn yn troi'n raddol oddi wrth gynnig grantiau i ddarparu arbenigedd y DU a chyfalaf dychweladwy i wynebu heriau rhanbarthol er ein budd cyffredin. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer seilwaith o ansawdd da.

Bydd cydweithredu dyfnach â phartneriaid ar draws y rhanbarth ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg yn hanfodol i'n partneriaeth gyffredinol â'r rhanbarth Indo-Basiffig, yn sail i'n llwyddiant yn y dyfodol yn yr holl feysydd hyn.

**Ein presenoldeb:** mae'r DU wedi buddsoddi'n helaeth yn y rhanbarth hwn eisoes gyda rhwydwaith o 52 o swyddfeydd, pedair ohonynt wedi agor er 2018. Penodwyd Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn gyfrifol am y rhanbarth Indo-Basiffig yn 2020, a phenodwyd Llysgennad ar gyfer ASEAN yn 2019. Er 2018, mae gennym Gomisiynwyr Masnach rhanbarthol â'u swyddfeydd yn Singapôr, Mumbai a Shanghai. Yn ystod 2020, gwnaethom gytundebau masnach newydd â Japan, Singapôr a Fiet-nam. Mae gennym bresenoldeb llyngesol hirsefydlog yn y Gwlff a Chefnfor India drwy Ymgyrch Kipion. Cafwyd mwy o ymweliadau gan y llynges a mwy o ddiplomyddiaeth amddiffyn yn y rhanbarth Indo-Basiffig ehangach yn 2019.




HMS Queen Elizabeth, RFA Tideforce a HMS Northumberland yn cymryd rhan yn WESTLANT 19.
UK MOD © Hawlfraint y Goron 2021

## 3. Cryfhau diogelwch ac amddiffyn gartref a thramor

1. Dim ond drwy fod yn **gryf a diogel gartref** y gall y DU gael y buddion mwyaf o fod yn agored – drwy sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed, gan amddiffyn ein democratiaeth, yr economi a'r seilwaith cenedlaethol hanfodol y dibynnwn arno yn ein bywyd pob dydd. Mae diogelwch yn hanfodol hefyd i drefn ryngwladol lle mae cymdeithasau ac economïau agored fel y DU yn gallu ffynnu a chydweithio i gyrraedd nodau a rennir, yn rhydd o orfodaeth ac ymyrraeth.

2. Byddwn yn **cymryd camau mwy cadarn** mewn ymateb i'r dirywiad yn yr amgylchedd diogelwch byd-eang, gan ymaddasu i gystadlu systemig ac ystod ehangach o **fygythiadau gwladwriaethol ac anwladwriaethol wedi'u galluogi gan dechnoleg. Wrth wneud hynny, rhaid i ni wella ein gallu i ddarganfod, ymyrryd, atal, ac amddiffyn rhag y bygythiadau a wynebwn yn y byd ffisegol ac yn y seiberofod.** Gall y rhain fod yn fygythiadau gwladwriaethol sy'n uwch ac yn is na'r trothwy traddodiadol ar gyfer rhyfel, yn heriau trawswladol i ddiogelwch fel terfysgaeth a throseddu difrifol a chyfundrefnol, neu'n gyfuniad o'r rhain. Byddwn yn dangos ein bod yn barod ac yn alluog i ymateb pan fydd ein dinasyddion a buddiannau wedi'u targedu, gan ddefnyddio grym os bydd angen.

3. I'r un graddau, rhaid i ni gydnabod na allwn ymyrryd neu atal pob bygythiad mewn byd sy'n fwy cydgysylltiedig lle mae'r gwahaniaeth rhwng diogelwch domestig a diogelwch rhyngwladol yn fwyfwy amhendant. Felly, rhaid i ni **ei gwneud yn fwy anodd a chostus i weithredwyr niweidiol – rhai gwladwriaethol ac anwladwriaethol – gael yr effeithiau y maent yn eu dymuno.** Bydd hyn yn golygu ein gwneud **ein hunain yn llai agored i effaith bygythiadau parhaus a gwella ein gallu i'w gwrthsefyll.** Yn ogystal â hyn, rhaid i ni leihau'r cyfle i eraill gamfanteisio ar wrthdaro ac ansefydlogrwydd er eu mantais eu hunain, ac atgyfnerthu'r strwythurau llywodraethu a rhyngwladol sy'n helpu i gadw'r heddwch.

4. **Bydd cydweithredu â chynghreiriaid a phartneriaid o'r un anian yn hanfodol i'r ymdrech hon.** Fel aelod parhaol o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, mae gennym gyfrifoldeb i gyfrannu at ddiogelwch rhyngwladol. Fel pŵer Ewropeaidd sydd â chyrhaeddiad byd-eang, rydym mewn lle da i wneud hyn, drwy **ddull gweithredu eang, integredig ar ddiogelwch sy'n wynebu heriau o bob math** i'n cyd-ddiogelwch a chydffyniant. Byddwn yn addasu ein presenoldeb a'n cefnogaeth yn ôl y wlad a'r rhanbarth, gan barhau i ganolbwyntio ar ein hymdrechion diogelwch yn y rhanbarth Ewro-Iwerydd yn bennaf a darparu cymorth yn Affrica – yn enwedig yn Nwyrain Affrica ac i bartneriaid pwysig yng Ngorllewin Affrica fel Nigeria – ac yn y Dwyrain Canol. Rhown fwy o bwyslais nag o'r blaen ar y rhanbarth Indo-Basiffig, gan adlewyrchu ei bwysigrwydd i nifer o'r heriau byd-eang mwyaf difrifol yn y degawd nesaf, fel diogelwch morwrol a chystadlu cysylltiedig â chyfreithiau, rheolau a normau.

5. **Ein nod cyntaf yw gwrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol gartref a thramor.** Rhaid i ni wella ein gallu – a gallu ein cynghreiriaid a phartneriaid – i ddarganfod, deall, priodoli a gweithredu mewn ymateb i'r holl fathau o heriau gwladwriaethol a wynebwn: rhannu risg a chyfuno galluoedd drwy gyd-ddiogelwch; defnyddio ein lluoedd arfog i ymyrryd ac atal drwy ymgysylltu parhaus dramor; a meithrin ein gallu ar y cyd i wrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol yn y byd ffisegol ac yn y seiberofod.

6. **Ein hail nod yw delio â gwrthdaro ac ansefydlogrwydd.** Byddwn yn ceisio rhoi sylw i'r ffactorau hirdymor sy'n eu hachosi, lleihau nifer yr achosion o wrthdaro a'u

dwysedd, a lleihau'r cyfleoedd i weithredwyr gwladwriaethol ac anwladwriaethol ailnegodi cydbwysedd grym a thanseilio diogelwch rhyngwladol.

7. **Ein trydydd nod yw cynyddu diogelwch domestig y DU drwy fynd i'r afael â heriau trawswladol i ddiogelwch,** gan roi sylw i nifer o wahanol fygythiadau i'n diogelwch gartref a thramor sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd yn amlach. Mae'r rhain yn cynnwys radicaleiddio a therfysgaeth, troseddu difrifol a chyfundrefnol, a thwf mewn galluoedd CBRN ac mewn uwch-dechnoleg filwrol.

## 3.1 Gwrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol: amddiffyn, ymyrryd ac atal

8. **Mae bygythiadau gwladwriaethol i'r DU, ac i'n cynghreiriaid, yn cynyddu ac yn mynd yn fwy amrywiol** wrth i'r cystadlu systemig ddwysáu. Mae gwladwriaethau'n dod yn fwyfwy penderfynol o ran y modd y maent yn hyrwyddo eu hamcanion eu hunain ac o ran eu parodrwydd i danseilio ein hamcanion ni. Er bod eu gweithredoedd yn aml yn llai na gwrthdaro agored, gallant fygwth ac ymyrryd â'n diogelwch, ein heconomi agored, ein democratiaeth a chydlyniant cymdeithasol – gan greu'r risg i hynny droi'n rhyfela. Mae bygythiadau gwladwriaethol yn rhai cyson ac o lawer math, yn cynnwys ysbïwriaeth, ymyrraeth wleidyddol, difrodi, llofruddio a gwenwyno, ymyrraeth etholiadol, twyllwybodaeth, propaganda, ymosodiadau seiber a dwyn eiddo deallusol. Hefyd gellir defnyddio dulliau gorfodi ac ymyrryd o'r fath ar y cyd â dulliau pŵer caled mwy traddodiadol.

9. Mae cystadlu rhwng pwerau mawr a chyflegarwch gwladwriaethau fel Rwsia, Iran a Gogledd Korea yn ffactorau allweddol yn nirywiad yr amgylchedd diogelwch ac yn gwanhau'r drefn ryngwladol. Ond mae dynameg cystadlu systemig yn fwy cymhleth ac mae'r DU yn wynebu bygythiadau oddi wrth ystod ehangach o wladwriaethau. Mae gweithredwyr anwladwriaethol yn cymryd rhan yn y cystadlu hwn hefyd. Byddant yn aml yn defnyddio'r un dulliau, fel ymosodiadau seiber a thwyllwybodaeth, i dargedu ein dinasyddion a chamfanteisio ar ein natur agored er eu mantais eu hunain. Ac mae gwladwriaethau'n cydweithio fwyfwy â gweithredwyr anwladwriaethol i gyrraedd eu nodau, yn cynnwys gweithredu fel dirprwyon mewn gwrthdaro. Mae hyn yn eu galluogi i wadu cyfrifoldeb ac yn tywyllu'r ffin rhwng bygythiadau gwladwriaethol a mathau eraill o fygythiad i ddiogelwch, fel terfysgaeth a throseddu difrifol a chyfundrefnol.

10. Rhaid i'r DU wella ei gallu i **ddarganfod, deall, priodoli a gweithredu** mewn ymateb i ymosodedd drwy'r holl fathau o fygythiadau gwladwriaethol, boed yn y byd ffisegol neu'r seiberofod, a boed yn filwrol neu'n anfilwrol. Rhaid i ni gydweithio â'n cynghreiriaid a phartneriaid o'r un anian i wneud yr un peth, fel y byddwn yn cydsefyll yn fwy cadarn ac fel y bydd ein cydymateb yn fwy na phe byddem yn ymateb ar wahân. Bydd hyn yn ein galluogi i reoli gwaethygiad, drwy ymateb yn y maes ac ar yr adeg o'n dewis. Bydd hefyd yn cryfhau cymdeithasau ac economïau agored, diogelwch rhyngwladol a'r drefn ryngwladol.

11. Mae hyn yn golygu **na ellir edrych bellach ar ymateb i fygythiadau gwladwriaethol fel mater sy'n ymwneud â 'diogelwch gwladol' neu 'amddiffyn' yn unig**. Rhaid i ni ddod â'r elfennau ynghyd yn ein gwaith ar draws y Fframwaith Strategol gartref a thramor, a'r holl offer sydd ar gael i lywodraeth, mewn ymateb integredig.

### 3.1.1 Amddiffyn y DU a'n pobl, gartref a thramor

12. Cyfrifoldeb cyntaf y Llywodraeth yw amddiffyn y DU a'i dinasyddion. Mae hyn yn cynnwys ein cyfrifoldeb i sicrhau diogelwch y pedair ar ddeg o Diriogaethau Tramor (TTau) a Thiriogaethau Dibynnol y Goron, sef Beiliaeth Jersey, Beiliaeth Guernsey ac Ynys Manaw. Mae gennym gyfrifoldebau hefyd at y pum miliwn o bobl Prydain sy'n byw y tu allan i'r DU, ac at wladolion Prydeinig sy'n ymweld â gwledydd tramor. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, rhown **flaenoriaeth i'r camau gweithredu** canlynol:

- **Diogelu tiriogaeth Brydeinig rhag ymosodiadau ffisegol.** Bydd y Llynges Frenhinol yn parhau'n weithredol ym moroedd tiriogaethol y DU ac yn y Parth Economaidd Neilltuedig, yn cynnwys drwy fuddsoddi mewn galluoedd newydd i amddiffyn seilwaith cenedlaethol hanfodol o dan y môr. Bydd yr Awyrlu Brenhinol yn parhau i ddarparu awyrlu sy'n gallu ymateb yn gyflym ddydd a nos i amddiffyn gofod awyr y DU a bydd ein hawyrennau patrôl milwrol Poseidon newydd yn patrolio Gogledd Cefnfor Iwerydd o'u gorsaf yn RAF Lossiemouth yn yr Alban.
- **Cynorthwyo TTau a Thiriogaethau Dibynnol y Goron i atal ac amddiffyn rhag bygythiadau gwladwriaethol ac anwladwriaethol.** Bydd y lluoedd arfog yn parhau i atal a herio cyrchoedd yn Nyfroedd Tiriogaethol Gibraltar Prydain. Bydd buddsoddi sylweddol yn Ardaloedd y Gorsafoedd Sofran yng Nghyprus yn sicrhau ein gallu i gyfrannu at ddiogelwch, ar y cyd â chynghreiriaid, yn Nwyrain Môr y Canoldir. Bydd y lluoedd arfog hefyd yn cadw presenoldeb parhaol yn Ynysoedd Falkland, Ynys y Dyrchafael a Thiriogaeth Brydeinig Cefnfor India; a phresenoldeb morwrol parhaol yng Nghefnfor Iwerydd a'r Caribî, gan gyfrannu i ymgyrchoedd atal masnachu a darparu cymorth dyngarol a chymorth ar ôl trychinebau yn ystod y tymor corwyntoedd blynyddol. Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r hawl i hunanbenderfyniad ar ran pobloedd y TTau ac yn parhau i amddiffyn a chynrychioli tair Tiriogaeth Ddibynnol y Goron ar lefel ryngwladol. Byddwn yn cyflawni rhwymedigaethau'r DU o dan Gytuniad yr Antarctig, yn cynnwys rhai yn Nhiriogaeth Brydeinig yr Antarctig.
- **Gwella'r cymorth a chefnogaeth sydd ar gael i wladolion y DU dramor,** gan gynnig mwy o ddewis o wasanaethau digidol ar gyfer cymorth consylaidd. Bydd y lluoedd arfog yn barod drwy'r amser i symud gwladolion Prydeinig sydd wedi'u dal mewn digwyddiadau mewn gwledydd tramor pan fo angen.

### 3.1.2 Amddiffyn ac atal drwy gyd-ddiogelwch

13. Y rhwydwaith o gynghreiriau a phartneriaethau milwrol y DU sydd wrth wraidd ein gallu i atal ac amddiffyn rhag gwladwriaethau gwrthwynebus. Mae hefyd yn dangos yn gryf y cydymrwymiad i gymdeithasiad rhydd rhwng gwledydd sofran a'r parodrwydd i rannu'r baich o gynnal trefn ryngwladol agored.

14. NATO yw'r garreg sylfaen i gyd-ddiogelwch yn y rhanbarth Ewro-Iwerydd, lle mae ein hymrwymiad i Erthygl 5 o Gytuniad Gogledd Iwerydd yn parhau'n brif atalfa. Mewn oes o ddatblygiadau cyflym mewn technoleg a dysgeidiaeth, rhaid i'r Gynghrair fod yn barod i ddelio â'r holl fathau o fygythiadau posibl. Mae'r rhain yn cynnwys arfau taro manwl o hirbell, arfau seiber ac arfau sydd wedi'u bwriadu i ddifrodi seilwaith yn y gofod. Maent hefyd yn cynnwys gweithgarwch niweidiol sydd â'r bwriad o roi prawf ar y ffin rhwng heddwch a rhyfel, a'n penderfyniad wrth ymateb i hynny. Rwsia yw'r bygythiad mwyaf difrifol yn y rhanbarth a byddwn yn cydweithio â'n Cynghreiriaid yn NATO i sicrhau ymateb unedig gan y Gorllewin sy'n cyfuno ymdrechion milwrol, diplomyddol a chudd-wybodaeth. Parhawn i gefnogi cydweithredu ymarferol agosach rhwng NATO a'r UE i geisio cyrraedd y nod hwn. Byddwn yn cydweithredu â'r UE ar faterion diogelwch ac amddiffyn fel partneriaid annibynnol, lle mae hyn er budd i ni.

15. Er mwyn atgyfnerthu cyd-ddiogelwch â'n cynghreiriaid ledled y byd – yn enwedig yn y rhanbarth Ewro-Iwerydd a chyda phwyslais newydd ar yr Indo-Basiffig – byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r camau gweithredu hyn:

- **Ailddatgan ein hymrwymiad i arweinyddiaeth yn NATO, gan ei helpu i addasu i fygythiadau sy'n uwch ac yn is na'r trothwy rhyfel o dan gyfraith ryngwladol.** Byddwn yn cynyddu ein cyllideb amddiffyn o fwy na £24 biliwn dros y pedair blynedd nesaf ac yn parhau i wario'r mwyaf ar amddiffyn o blith y gwledydd Ewropeaidd yn NATO, lle mae ein gwariant bellach yn 2.2% o gynnyrch domestig gros. Byddwn yn parhau i neilltuo arfogaeth o bob math i'r Gynghrair, a hynny'n cwmpasu ein hatalfa niwclear a'n galluoedd seiber ymosodol; yn cyfrannu'n helaeth i Lu Ymateb a Phresenoldeb Blaen Estynedig NATO; ac yn sicrhau ein bod ar y blaen wrth weithredu Cysyniad Atal ac Amddiffyn newydd NATO. Byddwn hefyd yn parhau'n wlad fframwaith sydd â'r gallu i gysylltu a chyd-drefnu lluoedd NATO yn effeithiol, tra bydd mwy o gyfarpar y DU yn cael ei ragleoli yn yr Almaen i hwyluso ymateb cyflym. Drwy weithredu ledled y rhanbarth Ewro-Iwerydd, gan ganolbwyntio ar ffiniau gogleddol a deheuol Ewrop, byddwn yn cynnal cyd-ddiogelwch rhwng y Môr Du a'r Gogledd Pell, yng ngwledydd y Baltig, yn y Balcanau ac ym Môr y Canoldir.
- **Gwella ein gallu i ryngweithredu â'n cynghreiriaid yn y rhanbarth Ewro-Iwerydd.** Byddwn yn cryfhau perthnasoedd dwyochrog – yn enwedig, ond nid yn unig, â'n cynghreiriaid allweddol yr Unol Daleithiau, Ffrainc (drwy gytuniadau Lancaster House a'r CJEF) a'r Almaen – yn ogystal â grwpiau amlochrog fel y Gyd-fyddin Ymgyrchol, sy'n cynnwys y DU, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Latfia, Lithiwania, yr Iseldiroedd, Norwy a Sweden.
- **Moderneiddio lluoedd arfog y DU,** gan gadw'r holl fathau o alluoedd, fel y nodwyd yn y Papur Gorchymyn ar Amddiffyn. Rhown flaenoriaeth i ddatblygu ac integreiddio technolegau newydd – yn cynnwys y rheini sydd eu hangen ar gyfer rhyfela uwchdechnolegol yn erbyn rhai â gallu tebyg – ac 'asgwrn cefn digidol' i gynnal ymgyrchoedd mewn nifer o feysydd gweithredol a'r gallu i ryngweithredu â chynghreiriaid a phartneriaid. Yn y rhanbarth Ewro-Iwerydd, bydd y DU yn un o ddim ond dau o Gynghreiriaid NATO a fydd yn darparu arfau niwclear, seiberymosod, a tharo manwl ac awyrennau ymosod y bumed genhedlaeth. Byddwn hefyd yn cyfrannu at amddiffyn â thaflegrau, at ymwybyddiaeth a chadernid yn y gofod (yn cynnwys drwy Reolaeth Ofod newydd) ac at y gallu i wrthsefyll ymosodiadau CBRN. Bydd cenhedlaeth newydd o longau rhyfel yn ein helpu i gyflawni ein rôl hanesyddol yn cadw Cefnfor Gogledd Iwerydd yn ddirwystr. Bydd ein hawyrluoedd a lluoedd tir a môr yn gallu symud yn gyflym i atgyfnerthu Cynghreiriaid ar fyr rybudd. Bydd ein lluoedd ar y tir yn mynd drwy'r broses moderneiddio fwyaf cynhwysfawr ers dau ddegawd, ac yn cael eu hintegreiddio'n well â meysydd gweithredol eraill, gyda mwy o allu i ymyrryd yn gyflym ac effeithiol dros bellter hir, ac wedi'u hamddiffyn yn well rhag bygythiadau electronig, rhai o'r awyr a Cherbydau Awyr Di-griw, ac yn meddu mwy o allu i ymosod ar wrthwynebwyr dros bellter hir. Bydd ein Lluoedd Arbennig yn barod i weithredu yn yr amgylcheddau mwyaf gelyniaethus ac yn erbyn y gwrthwynebwyr mwyaf soffistigedig. Ar y cyd â phartneriaid rhyngwladol, yn cynnwys yr Eidal a Sweden, byddwn yn parhau i ddatblygu FCAS i gymryd lle ein hawyrennau jet Typhoon cyflym, gan wneud defnydd o dechnolegau arloesol o'r sector amddiffyn a sectorau eraill.
- **Gwella ein gallu i reoli a lleihau argyfyngau mewn nifer o feysydd gweithredol,** gan adlewyrchu'r gystadleuaeth gynyddol gan ein gwrthwynebwyr posibl a'r ffyrdd mwy cymhleth o gynyddu argyfyngau, yn cynnwys rhai'n arwain at orfodaeth niwclear. Bydd y DU yn cynnal cyfres o ymarferiadau cenedlaethol ar lefel strategol i roi prawf ar gadernid ac ar ein gallu i ddelio ag argyfyngau. Byddwn yn cefnogi ymarferiadau tebyg gan NATO a'r UE-NATO.

- **Parhau â'n hymrwymiad i gyd-ddiogelwch y tu allan i'r rhanbarth Ewro-Iwerydd,** gan gryfhau ein cysylltiadau a'n dealltwriaeth. Yn benodol, oherwydd pwysigrwydd cynyddol y rhanbarth Indo-Basiffig, byddwn yn cryfhau ein hymrwymiad i'r FPDA ac yn cynyddu ein presenoldeb morwrol yn y rhanbarth er mwyn cefnogi normau a chyfreithiau yn y rhanbarth. Yn 2021, bydd HMS Queen Elizabeth yn arwain tasglu cydwladol ar daith fyd-eang, gan ymweld â Môr y Canoldir, y Dwyrain Canol a'r Indo-Basiffig.

### Moderneiddio amddiffyn ar gyfer oes gystadleuol

Rhaid i ni foderneiddio ein dulliau atal i ymateb i'r cynnydd mewn cystadleuaeth gan wladwriaethau sy'n is na throthwy rhyfel o dan gyfraith ryngwladol. Fel y nodwyd yn y Cysyniad Gweithredu Integredig 2020, mae hyn yn golygu'r gallu i symud yn ddi-dor rhwng 'gweithredu' a 'rhyfela'. Bydd hyn yn galw am strwythur lluoedd sy'n atal yn bennaf drwy 'ymgysylltu parhaus' sy'n is na throthwy rhyfel, gan aros yn barod i ryfela pan fo angen. Mae pob math o weithgarwch, yn cynnwys hynny a welwyd yn weithgarwch rheolaidd o'r blaen, yn cynnig y potensial i gyfyngu neu atal gwrthwynebwyr.

Yn ymarferol, bydd ymgysylltu parhaus yn golygu lleoli mwy o'n lluoedd mewn gwledydd tramor, yn amlach ac am gyfnodau hirach, gyda NATO ac ochr yn ochr â'n rhwydwaith ehangach o gynghreiriaid a phartneriaid. Drwy gynyddu ein presenoldeb byd-eang, cawn well dealltwriaeth o ddigwyddiadau, bydd yn haws darganfod a delio â phroblemau'n gynharach, a bydd gennym sylfaen ar gyfer ymateb yn fwy pendant i fygythiadau. Bydd ein lluoedd arfog yn parhau'n barod i ymladd mewn rhyfeloedd mawr ond byddant yn gweithredu fel llu ymgyrchu hyblyg.

Er mwyn gosod sylfaen gadarnach mewn gwledydd tramor, byddwn yn buddsoddi yn y canolfannau strategol sy'n rhoi cyrhaeddiad, mynediad, dylanwad a mewnwelediad i'n lluoedd arfog. Yn ogystal â buddsoddi yn ein cyfleusterau a seilwaith yng Nghyprus, Gibraltar a'r Almaen, byddwn yn gwella'r rheini sydd yn Oman, Singapôr a Kenya. Byddwn yn buddsoddi tua £60 miliwn hefyd i ehangu a gwella ein rhwydwaith byd-eang o Staff Amddiffyn Prydeinig, gan ei gynyddu o bron un rhan o dair.

Rhown fwy o flaenoriaeth i ddynodi, ariannu, datblygu a defnyddio technolegau a galluoedd newydd yn gynt na'n gwrthwynebwyr posibl, o dan strategaeth gwyddoniaeth a thechnoleg y Weinyddiaeth Amddiffyn 2020. Bydd hyn yn caniatáu i'n lluoedd gael effaith bendant o bellter hirach, integreiddio'n well â chynghreiriaid a bod yn fwy effeithlon a chosteffeithiol, gan wrthdroi'r duedd i gael llai o lwyfannau sy'n fwyfwy costus. Bydd hefyd yn sbarduno'r sylfaen gwyddoniaeth a thechnoleg genedlaethol mewn diwydiant ac yn y byd academaidd. Byddwn yn buddsoddi o leiaf £6.6 biliwn dros y pedair blynedd nesaf mewn gwyddoniaeth a thechnoleg mewn meysydd a fydd yn cynnwys y gofod, seiber, technolegau cwantwm, peirianneg fiolegol, arfau ynni cyfeiriedig a thaflegrau datblygedig cyflym iawn. Drwy fuddsoddi mewn heriau Sbarduno Amddiffyn a Diogelwch yn ogystal â rhwydwaith o ganolfannau arloesi'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn clystyrau technoleg pwysig yn y DU, gwneir gwell defnydd o fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu i gynhyrchu cyfarpar arloesol. Byddwn hefyd yn cyhoeddi strategaeth deallusrwydd artiffisial amddiffyn ac yn buddsoddi mewn canolfan newydd er mwyn mabwysiadu'r dechnoleg hon yn gyflymach yn ein holl alluoedd a gweithgareddau.

Yn olaf, byddwn yn gweithredu strategaeth ddiwydiannol newydd ar amddiffyn a diogelwch a fydd yn gyson â chynllun y Llywodraeth ar gyfer twf. Bydd yn cynnig dull mwy strategol ar gyfer ein sylfaen ddiwydiannol graidd, yn cynnwys adeiladu llongau yn yr Alban a cherbydau arfog yng Nghymru, a gweithgynhyrchu awyrennau yn Lloegr a lloerennau yng Ngogledd Iwerddon. Drwy ein buddsoddi mewn cyfarpar a thechnolegau sydd â blaenoriaeth i gwrdd ag anghenion diogelwch gwladol, byddwn

yn fwy effeithiol wrth droi arloesi'n gyfleoedd masnachol ac yn hybu ffyniant a thwf yn yr economi ehangach. Byddwn yn symud oddi wrth y polisi yn 2012 o 'gystadleuaeth yn gyntaf' ac yn rhoi blaenoriaeth i alluoedd diwydiannol y DU lle bo angen am resymau sy'n ymwneud â diogelwch gwladol a gofynion gweithredol. Byddwn hefyd yn diwygio ac yn adfywio ein dull o ddelio â chaffael, allforio a chydweithio rhyngwladol, gan gynnwys mwy o ddefnydd o drefniadau rhwng llywodraethau.

### 3.1.3 Gwrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol i'n democratiaeth, cymdeithas ac economi

16. Bydd ein hymdrechion ehangach i wrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol yn atgyfnerthu ein cyd-ddiogelwch. Ceisiwn atal gwladwriaethau rhag cyflawni gweithredoedd ymosodol: drwy'r rhagolwg o gael eu cosbi – drwy ddarganfod, priodoli ac ymateb yn briodol; a thrwy eu hamddifadu o'r cyfle i weithredu, drwy leihau ein gwendidau a gwella ein cydnerthedd. Yn y DU, bydd hyn yn golygu cyfuno gwaith y rhaglen Amddiffyn Democratiaeth – rhaglen drawslywodraethol i ddiogelu ein sefydliadau a swyddogion etholedig rhag bygythiad, ymyrraeth ac ysbïwriaeth – â'n hymdrechion i amddiffyn ein diogelwch economaidd, cryfhau seiberddiogelwch y DU, gwella ein cyfathrebu ar ddiogelwch gwladol a chynyddu ein cydnerthedd cenedlaethol.

17. Roedd y profiad o'r ymosodiad yng Nghaersallog yn 2018 yn dangos y gwerth sydd mewn cydymateb i ymosodedd. I'r un graddau, mae rhai bygythiadau fel seiberymosod a thwyllwybodaeth yn croesi ffiniau'n rhwydd ac yn galw am weithredu rhyngwladol. Felly rhaid i ni gydweithio hefyd â chynghreiriaid a phartneriaid o'r un anian i gryfhau eu dull o ddelio â bygythiadau gwladwriaethol. Bydd hyn yn golygu dyfnhau ein cysylltiadau diogelwch yn y rhanbarth Ewro-Iwerydd ehangach, Affrica a'r Dwyrain Canol, a rhoi mwy o bwyslais ar yr Indo-Basiffig. Drwy ein cymorth i eraill ar gyfer meithrin gallu, byddwn yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r bygythiadau i'n diogelwch, yn cynnwys drwy rannu mwy o wybodaeth; yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant ac ymarferiadau ar y cyd; ac yn darparu cymorth ac arbenigedd ar ddatblygu polisi, deddfwriaeth a fframweithiau rheoliadol.

18. Byddwn yn rhoi **blaenoriaeth i'r camau gweithredu** hyn:

- **Gweithredu drwy ddull llywodraeth gyfan i ddiogelu democratiaeth yn y DU,** gan gefnogi system ddemocrataidd sy'n deg, yn ddiogel ac yn dryloyw. Ein nod o dan y rhaglen Amddiffyn Democratiaeth yw sicrhau uniondeb prosesau democrataidd y DU a chynnal hyder ynddynt ymysg y cyhoedd. Rydym yn ymestyn galluoedd llywodraeth i sicrhau bod digwyddiadau democrataidd yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys strwythurau gweithredu fel y Gell Etholiadau, sy'n darparu mecanwaith monitro ac ymateb, a'r Uned Atal Twyllwybodaeth drawslywodraethol. Bydd ein rhaglen waith yn cynnwys: cyflwyno dulliau adnabod etholwyr mewn gorsafoedd pleidleisio; gwneud ymgyrchoedd gwleidyddol ar-lein yn fwy tryloyw gyda system imprintiau digidol; a chyflwyno sancsiwn etholiadol newydd i fynd i'r afael â chamddefnydd. Rydym hefyd yn cydymdrechu'n fwy â phartneriaid rhyngwladol i amddiffyn democratiaeth a hyrwyddo gwerthoedd a rennir, yn cynnwys drwy ein llywyddiaeth ar y G7 (gweler 2.1).

- **Atgyfnerthu ein dull trawslywodraethol i wrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol.** Byddwn yn diwygio cyfreithiau, polisïau ac arferion i ddileu rhwystrau i'r gallu i warchod diogelwch gwladol, gan sicrhau bod yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a'r heddlu yn cael pwerau priodol i wrthsefyll yr holl fygythiadau a wynebwn ar hyn o bryd gan ddiogelu hawliau cyfreithiol unigolion mewn ffordd briodol. Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth Atal Bygythiadau Gwladwriaethol pan fydd amser ar gael yn y Senedd. Bydd hon yn diwygio troseddau presennol – i

ddelio'n fwy effeithiol â'r bygythiad o ysbïwriaeth – ac yn creu troseddau newydd, i droseddoli gweithgarwch niweidiol arall a gyflawnir gan ac ar ran gwladwriaethau. Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn cyflwyno math o gynllun ar gyfer cofrestru gweithredwyr gwledydd tramor yn y DU. Lle mae deddfwriaeth yn galw am ddilyn Confensiwn Sewel, byddwn yn ceisio cael cydsyniad deddfwriaethol, yn ogystal ag ystyried barn y gweinyddiaethau datganoledig a chydweithio â nhw.

- **Sicrhau diogelwch rhwydwaith telathrebu'r DU at y dyfodol** yn sylfaen i seilwaith cenedlaethol hanfodol diogel a sicr. O dan ddarpariaethau'r Bil Telathrebu (Diogelwch), ac ar sail strategaeth amrywiaethu'r gadwyn gyflenwi 5G, byddwn yn rheoli a lliniaru risgiau a achosir gan werthwyr risg uchel; yn cyflwyno fframwaith diogelwch cadarn, newydd ar gyfer telathrebu i sicrhau bod ein rhwydweithiau'n ddiogel ac yn gallu gwrthsefyll heriau yn y dyfodol; ac yn cydweithio â phartneriaid, yn cynnwys y Pum Llygad, i greu sylfaen gyflenwi mwy amrywiol a chystadleuol ar gyfer rhwydweithiau telathrebu.
- **Cryfhau gallu mewn seiberddiogelwch a chydweithredu â phartneriaid o'r un anian.** Bydd ein rhaglenni dwyochrog i feithrin gallu yn gwneud defnydd o arweinyddiaeth syniadol ac arbenigedd y DU mewn seiberddiogelwch, mewn llywodraeth ac yn y sector preifat. Byddant yn cryfhau gallu gwleidyddol partneriaid i wrthsefyll bygythiadau cyffredin cysylltiedig â gwladwriaethau a bygythiadau cyson datblygedig eraill yn y seiberofod; yn cryfhau seilwaith mewn gwledydd tramor; yn rhannu gwybodaeth am fygythiadau a risgiau i gadwyni cyflenwi; ac yn cynyddu gallu partneriaid sy'n gorfodi'r gyfraith ym maes seiber. Parhawn i ymestyn ein cydweithredu ymysg y Pum Llygad ar bolisi seiberddiogelwch ac i gryfhau llwyfannau rhanbarthol ac amlochrog ar gyfer meithrin gallu.
- **Hybu ymdrechion i atal twyllwybodaeth gartref a thramor.** Byddwn yn cynyddu gallu cymdeithas yn y DU i wrthsefyll pob math o dwyllwybodaeth drwy fframwaith rheoleiddio newydd o dan y Bil Diogelwch Ar-lein a strategaeth llythrennedd yn y cyfryngau. Cawn gymorth i ymateb yn well i ymgyrchoedd twyllwybodaeth hefyd drwy'r buddsoddi yn arbenigedd y Llywodraeth yng ngwyddorau ymddygiad, mewn dulliau sganio'r gorwel a chyfathrebu strategol. Yn ogystal â rhaglenni dwyochrog i feithrin gallu partneriaid tramor sydd â blaenoriaeth, bydd y rhaglen Atal Twyllwybodaeth a Datblygu Cyfryngau yn ariannu mentrau i ddeall a datgelu'r bygythiad o dwyllwybodaeth ac i gynorthwyo cyfryngau annibynnol, yn enwedig mewn gwledydd tramor agos i Rwsia. Byddwn hefyd yn cryfhau cydweithredu rhyngwladol drwy grwpiau amlochrog fel y G7.
- **Defnyddio ein lluoedd arfog i ddarganfod, deall ac atal bygythiadau gwladwriaethol sy'n is na'r trothwy rhyfel drwy ymgysylltu cyson dramor** (gweler y blwch testun ar amddiffyn). Bydd y DU yn lleoli mwy o'n lluoedd arfog dramor, yn amlach ac am gyfnodau hirach, i hyfforddi, ymarfer, a gweithredu ochr yn ochr â chynghreiriaid a phartneriaid yn yr holl ranbarthau sy'n flaenoriaeth i ni. Drwy gydweithio'n ddwyochrog, gyda phartneriaid ac i gefnogi cenadaethau NATO, byddwn yn meithrin gallu gwledydd eraill i atal ac amddiffyn rhag bygythiadau gwladwriaethol; yn cefnogi, yn mentora a, lle bo angen, yn helpu gwledydd i wrthsefyll heriau anwladwriaethol; ac yn cryfhau ein rhwydwaith o berthnasoedd.
- **Rhoi lle canolog i ddiplomyddiaeth mewn ymdrechion rhyngwladol i wrthsefyll bygythiadau gwladwriaethol,** gan adeiladu cynghreiriau rhyngwladol i briodoli ac ymateb i fygythiadau gwladwriaethol, yn cynnwys drwy sancsiynau. Byddwn hefyd yn darparu cymorth diplomyddol ac arbenigol i sefydliadau amlochrog sy'n cynnal normau rhyngwladol ar ddiogelwch, fel NATO, y Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithredu yn Ewrop (OSCE) a Chyngor Ewrop. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth gadarn i Genhadaeth Monitro Arbennig OSCE yn Ukrain a gwaith Cyngor Ewrop yn priodoli gweithgarwch gelyniaethus a gweithgarwch ansefydlogi i Rwsia.

## Yr atalfa niwclear

Mae atalfa niwclear annibynnol y DU yn bodoli ers mwy na 60 mlynedd i atal y bygythiadau mwyaf eithafol i'n diogelwch gwladol a'n ffordd o fyw, gan helpu i sicrhau ein diogelwch ni a diogelwch ein Cynghreiriaid. Rydym wedi canfod risgiau o'r blaen i'r DU oddi wrth wladwriaethau mawr sydd ag arfau niwclear, gwladwriaethau niwclear sy'n datblygu, a therfysgaeth niwclear a noddir gan wladwriaethau. Nid yw'r risgiau hynny wedi darfod. Mae rhai gwladwriaethau bellach yn cynyddu ac amrywiaethu eu harfogaeth niwclear yn sylweddol. Maent yn buddsoddi mewn technolegau niwclear newydd ac yn datblygu systemau niwclear newydd ar gyfer 'rhyfela' sy'n cael eu hintegreiddio â'u strategaethau a dysgeidiaethau milwrol a hefyd â'u rhethreg wleidyddol er mwyn ceisio gormesu eraill. Mae'r cynnydd mewn cystadlu byd-eang, yr heriau i'r drefn ryngwladol, a thwf technolegau a all fod yn darfol yn ffactorau sydd i gyd yn bygwth sefydlogrwydd strategol. Rhaid i'r DU sicrhau na fydd gwrthwynebwyr dichonol byth yn gallu defnyddio eu galluoedd i'n bygwth ni neu ein Cynghreiriaid yn NATO. Ni allwn chwaith ganiatáu iddynt gyfyngu ein gallu i benderfynu mewn argyfwng na noddi terfysgaeth niwclear.

### Atalfa niwclear gredadwy, warantedig, leiaf y DU

Pwrpas sylfaenol ein harfau niwclear yw cadw heddwch, atal gweithgarwch gormesol a rhwystro ymosodedd. Mae atalfa niwclear annibynnol, gredadwy, leiaf, wedi'i neilltuo i amddiffyn NATO, yn hanfodol o hyd i warantu ein diogelwch ni a'n Cynghreiriaid. Yn 2010 datganodd y Llywodraeth ei bwriad i ostwng terfyn cyffredinol uchaf ein nifer o arfbennau niwclear o ddim mwy na 225 i ddim mwy nag 180 erbyn canol y 2020au. Fodd bynnag, gan gydnabod yr amgylchedd diogelwch sy'n datblygu, yn cynnwys yr ystod newydd o fygythiadau technolegol ac athrawiaethol, nid yw hyn yn bosibl bellach, a bydd y DU yn mabwysiadu nifer cyffredinol o arfau niwclear o ddim mwy na 260 o arfbennau.

Er mwyn sicrhau nad yw ein hatalfa yn agored i weithredu rhagataliol gan wrthwynebwyr posibl, byddwn yn cadw ein pedair llong danfor fel y bydd o leiaf un ar batrôl Atalfa Barhaus ar y Môr bob amser. Mae ein llongau tanfor ar batrôl yn gallu tanio ar ôl sawl diwrnod o rybudd ac, er 1994, nid ydym yn anelu ein taflegrau at unrhyw wladwriaeth. Rydym wedi ymrwymo o hyd i gadw'r pŵer dinistriol lleiaf sydd ei angen i warantu bod atalfa niwclear y DU yn parhau'n gredadwy ac effeithiol yn erbyn yr holl fathau o fygythiadau niwclear gwladwriaethol o bob cyfeiriad.

Parhawn i ddal sylw'n gyson ar ein sefyllfa niwclear yng nghyd-destun yr amgylchedd diogelwch rhyngwladol a gweithredoedd gwrthwynebwyr dichonol. Cadwn y gallu sydd ei angen i orfodi costau ar wrthwynebydd a fyddai'n fwy na'r manteision y gallai obeithio eu cael pe byddai'n bygwth ein diogelwch ni neu ein Cynghreiriaid.

### Polisi arfau niwclear y DU

Mae arfau niwclear y DU o dan reolaeth weithredol annibynnol a'r Prif Weinidog yw'r unig un a gaiff roi awdurdod i'w defnyddio. Mae hyn yn sicrhau bod rheolaeth wleidyddol drostynt bob amser. Dim ond mewn amgylchiadau eithafol ar gyfer hunanamddiffyn, yn cynnwys amddiffyn ein Cynghreiriaid yn NATO, y byddem yn ystyried defnyddio ein harfau niwclear.

Er nad oes amheuaeth ynghylch ein penderfyniad a'n gallu i wneud hynny os bydd angen, byddwn yn parhau'n fwriadol amwys ynghylch pa bryd, sut ac ar ba raddfa'n union y byddem yn ystyried defnyddio arfau niwclear. Oherwydd natur gyfnewidiol yr amgylchedd diogelwch a thechnolegol, byddwn yn ymestyn y polisi hirsefydlog hwn o amwysedd bwriadol ac ni fyddwn bellach yn cyhoeddi ffigurau am ein stôr gweithredol, arfbennau a leolwyd neu daflegrau a leolwyd. Mae'r amwysedd hwn yn drysu'r gallu i asesu gan ymosodwyr dichonol, yn lleihau'r risg o ddefnyddio arfau niwclear yn fwriadol gan y rheini sy'n ceisio cael mantais drwy daro'n gyntaf, ac yn cyfrannu at sefydlogrwydd strategol.

Ni fydd y DU yn defnyddio, nac yn bygwth defnyddio, arfau niwclear yn erbyn unrhyw wladwriaeth sydd heb arfau niwclear sy'n barti i'r Cytuniad ar Atal Amlhau Arfau Niwclear 1968. Nid yw'r sicrwydd hwn yn gymwys i unrhyw wladwriaeth sy'n torri'r rhwymedigaethau hynny ar atal amlhau arfau niwclear mewn ffordd sylweddol. Er hynny, cadwn yr hawl i adolygu'r sicrwydd hwn os bydd y bygythiad yn y dyfodol o arfau distryw mawr, fel galluoedd cemegol a biolegol, neu dechnolegau newydd a allai gael effaith debyg, yn gwneud hynny'n angenrheidiol.

## Cydweithio â NATO, yr Unol Daleithiau a Ffrainc

Mae NATO yn cydnabod y byddai unrhyw ddefnydd o arfau niwclear yn erbyn NATO yn newid natur gwrthdaro mewn ffordd sylfaenol. Felly, tra bydd arfau niwclear mewn bodolaeth, bydd NATO yn parhau'n gynghrair niwclear. Er 1962, mae'r DU wedi datgan ein gallu niwclear er amddiffyn y Gynghrair. Parhawn i wneud hynny, gan warchod diogelwch Ewrop a'r rhanbarth Ewro-Iwerydd. Cydweithiwn â Chynghreiriaid i sicrhau bod galluoedd atal niwclear NATO yn parhau'n ddiogel, sicr ac effeithiol, yn addasu i heriau sy'n codi, yn cynnwys y bygythiadau niwclear cynyddol a mwyfwy amrywiol y gall y Gynghrair eu hwynebu, ac yn cyfrannu at gyd-ddiogelwch y Gynghrair.

Mae cydweithredu niwclear yn parhau'n elfen bwysig yn y berthynas rhwng yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig, gan wella diogelwch trawsatlantig. Parhawn i gydweithio'n agos â'r Unol Daleithiau ar faterion niwclear, yn cynnwys polisi atal niwclear.

Mae'r Cytundeb Cydamddiffyn 1958 wedi bod yn hanfodol i'r nodau a rannwn ar ddiogelwch niwclear ac rydym wedi ymrwymo i'w adnewyddu yn 2024.

Er 1995, mae Ffrainc a'r Deyrnas Unedig, yr unig bwerau niwclear yn Ewrop, wedi datgan na allant ddychmygu unrhyw amgylchiadau lle na fyddai bygythiad i fuddiannau allweddol y naill heb fod yn fygythiad i fuddiannau allweddol y llall. Parhawn â'r cydweithredu dyddiol ac unigryw rhyngom ar faterion niwclear, yn cynnwys ein cydweithio o dan Gytuniad Teutates 2010.

## Ein gallu yn y dyfodol

Mae ein hatalfa niwclear annibynnol yn berthnasol nid yn unig heddiw ond hefyd i'r dyfodol agos. Y rhesymau hyn sy'n cyfrif am ein hymrwymiad i raglen unwaith mewn dwy genhedlaeth i foderneiddio ein galluoedd niwclear. Mae'r buddsoddiad hwn yn niogelwch y DU a'n Cynghreiriaid ar gyfer y dyfodol yn dangos nad yw ymrwymiad niwclear y DU wedi lleihau.

Mae'r Senedd wedi pleidleisio i adnewyddu ein hatalfa niwclear a chyfnewid y llongau tanfor Dosbarth Vanguard am bedair llong danfor Dosbarth Dreadnought newydd. Mae'r rhaglen wedi aros o fewn terfynau ei chyllideb ac mae ar y trywydd iawn i gyflwyno'r gyntaf o'r llongau tanfor newydd i wasanaethu ar ddechrau'r 2030au.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal atalfa effeithiol drwy gydol cyfnod comisiynu'r Dosbarth Dreadnought, byddwn yn amnewid ein harfben niwclear presennol. Cydweithiwn â'r Sefydliad Arfau Atomig i ddatblygu'r cyfleusterau, galluoedd a thimau medrus iawn sydd eu hangen i gyflawni hyn, gan barhau i gynnal yr arfben presennol nes caiff ei dynnu'n ôl o wasanaeth. Parhawn i gydweithio'n agos â'r Unol Daleithiau i sicrhau bod ein harfben yn parhau'n gydweddol â System Arfau Strategol Trident, gan gydweithredu ar sail y Cytundeb Cydamddiffyn a Chytundeb Gwerthiant Polaris 1963.

Bydd y gwaith o foderneiddio'r atalfa yn dod o dan broses y Llywodraeth ar gyfer cymeradwyo a goruchwylio rhaglenni mawr. Parhawn i ddarparu diweddariadau drwy adroddiad blynyddol i'r Senedd. Cydweithiwn ar draws y sectorau niwclear amddiffyn a sifil i optimeiddio'r Fenter Niwclear Amddiffyn ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod atalfa niwclear annibynnol, gredadwy, sylfaenol gan y DU tra bydd arni ei hangen.

### Rheoli arfau, diarfogi ac atal amlhau arfau: ein hymrwymiad i gytuniadau rhyngwladol

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i'r nod hirdymor o fyd heb arfau niwclear. Parhawn i weithio o blaid cadw a chryfhau mesurau effeithiol i reoli arfau, diarfogi ac atal amlhau arfau, gan roi sylw i'r amgylchedd diogelwch ar y pryd. Rydym wedi ymrwymo'n gadarn i lwyr weithredu pob agwedd ar y Cytuniad ar Atal Amlhau Arfau Niwclear, yn cynnwys diarfogi niwclear, atal amlhau arfau, a defnyddio ynni niwclear at ddibenion heddychlon; nid oes llwybr credadwy arall at ddiarfogi niwclear. Mae'r DU wedi ymdrin mewn ffordd gyson a blaengar â diarfogi niwclear. Y DU sydd â'r stôr lleiaf o blith yr holl wladwriaethau ag arfau niwclear sydd wedi'u cydnabod gan y Cytuniad ar Atal Amlhau Arfau Niwclear. Ni yw'r unig un o'r gwladwriaethau hynny sy'n gweithredu un system arfau niwclear yn unig. Parhawn i bwyso am gamau allweddol tuag at ddiarfogi amlochrog, yn cynnwys gweithredu'r Cytuniad Cynhwysfawr ar Atal Profion Niwclear a negodi llwyddiannus ar Gytuniad ar Dorri Deunyddiau Ymholltol yn y Gynhadledd ar Ddiarfogi. Parhawn i arwain yn rhyngwladol ar wirio diarfogi niwclear; mae hwn yn gam hanfodol ar gyfer diarfogi niwclear o dan reolaeth ryngwladol gadarn ac effeithiol.

Bydd y DU yn parhau i weithio ar lefel ryngwladol i leihau'r risg o wrthdaro niwclear a gwella cydymddiried a chyd-ddiogelwch. Byddwn yn hyrwyddo camau strategol i leihau risg ac yn ceisio cychwyn deialog ymysg gwladwriaethau sydd ag arfau niwclear, a rhwng gwladwriaethau sydd ag arfau niwclear a rhai sydd hebddynt, er mwyn cynyddu dealltwriaeth a lleihau'r risg o gamddehongli a chamasesu. Mae'r DU yn cymryd o ddifrif ei chyfrifoldebau fel gwladwriaeth ag arfau niwclear a pharhawn i annog gwladwriaethau eraill i wneud yr un modd.

## 3.2 Gwrthdaro ac ansefydlogrwydd

19. Ni fydd modd atal pob gwrthdaro drwy atalfeydd a thrwy feithrin y gallu i wrthsefyll bygythiadau i ddiogelwch. Bydd gwrthdaro ac ansefydlogrwydd yn parhau i roi prawf mawr ar ddiogelwch a chadernid byd-eang, drwy wladwriaethau gwan neu fethedig, tlodi eithafol a heriau cryf i ddiogelwch trawswladol. Mae ymyrraeth allanol mewn gwrthdaro ar gynnydd hefyd, wrth i wladwriaethau geisio adennill grym a herio cyfreithiau a normau rhyngwladol.

20. Bydd y DU yn ymdrechu i leihau amlder a dwyster gwrthdaro ac ansefydlogrwydd, er mwyn lliniaru dioddefaint a lleihau cyfleoedd i weithredwyr gwladwriaethol ac anwladwriaethol danseilio diogelwch rhyngwladol. Bydd ein hymdrechion dwyochrog yn canolbwyntio ar gyd-destunau sydd â blaenoriaeth lle mae'r cynnydd yn y bygythiad a'n gallu i gael effaith yn cyd-ddigwydd. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi ymdrechion byd-eang, yn cynnwys drwy: hyrwyddo Cyfraith Ddyngarol Ryngwladol; cyfrannu galluoedd penodol mewn partneriaeth â chynghreiriaid a sefydliadau amlochrog; ein gwaith yn y Cenhedloedd Unedig ac ar ei ran; a thrwy gyfrannu'n ariannol ac yn filwrol i genadaethau cadw heddwch y Cenhedloedd Unedig. Y **camau gweithredu y rhoddwn flaenoriaeth** iddynt fydd:

- **Sefydlu dull mwy integredig o weithio gan lywodraeth ar wrthdaro ac ansefydlogrwydd,** gan roi mwy o bwyslais ar ddelio â ffactorau sy'n sbarduno gwrthdaro (fel rhesymau dros ddrwgdeimlad, ymyleiddio gwleidyddol ac economïau troseddol), atal erchyllterau a chryfhau'r gallu sydd gan wledydd gwan i wrthsefyll ymyrraeth allanol. Canolbwyntiwn ar ddulliau gwleidyddol o ddatrys gwrthdaro, gan harneisio holl alluoedd llywodraeth, gyda nodau gwleidyddol clir a damcaniaethau ar gyfer newid. Bydd hyn yn cynyddu ein heffaith ac yn lleihau'r risg o grwydro oddi wrth amcanion gwreiddiol neu wneud niwed yn anfwriadol.

- **Sefydlu canolfan gwrthdaro newydd** o fewn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu. Bydd y ganolfan hon yn gwneud defnydd o arbenigedd ar draws llywodraeth a'r tu allan iddi er mwyn datblygu ac arwain agenda strategol ar wrthdaro a chydweithio â phartneriaid i gynyddu ein heffaith wrth atal, rheoli a datrys gwrthdaro mewn rhanbarthau sydd â blaenoriaeth.

- **Cynyddu ymdrechion i atal trais rhywiol mewn gwrthdaro.** Yn benodol, cydweithiwn ag eraill i gryfhau cyfiawnder i oroeswyr trais rhywiol sy'n gysylltiedig â gwrthdaro, yn ogystal â darparu cymorth i oroeswyr a phlant a anwyd o ganlyniad i drais rhywiol cysylltiedig â gwrthdaro. Wrth wneud hynny, parhawn i ddilyn egwyddor 'na wna niwed' a gweithredu drwy ganolbwyntio ar y goroeswr.

- **Tynhau ffocws y Gronfa Gwrthdaro, Sefydlogrwydd a Diogelwch.** Byddwn yn rhoi blaenoriaeth wrth ddefnyddio ein hadnoddau i'r cyswllt sylfaenol rhwng sefydlogrwydd, cydnerthedd a diogelwch, ac yn cydweithio â llywodraethau a chymdeithas sifil mewn rhanbarthau sydd â'r flaenoriaeth fwyaf i'r DU. Darperir cyllid o £874 miliwn ar gyfer y gweithgarwch hwn yn 2021-22.

## 3.3 Diogelwch gartref a heriau i ddiogelwch trawswladol

21. Mae bygythiadau i ddiogelwch trawswladol fel terfysgaeth, troseddu difrifol a chyfundrefnol a thwf arfau CBRN ac uwch-dechnoleg filwrol yn parhau'n fygythiad uniongyrchol i ddinasyddion, buddiannau a gwerthoedd y DU, pa un a ydynt yn deillio o'r DU neu dramor. Wrth i'r bygythiadau hyn ddatblygu a gorgyffwrdd fwyfwy, parhawn â'n hymrwymiad i ddiogelwch gartref ac adeiladu ar sail ein harbenigedd sylweddol, gan gysylltu ein hymdrechion cenedlaethol a rhyngwladol.

### 3.3.1 Gwrthsefyll radicaleiddio a therfysgaeth

22. Mae terfysgaeth yn parhau'n fygythiad mawr i ddinasyddion y DU ac i'n buddiannau gartref a thramor. Er bod y risgiau wedi newid a datblygu yn y blynyddoedd diwethaf, terfysgaeth Islamaidd yw'r prif fygythiad i'r DU o hyd. Mae bygythiad amrywiol hefyd gan derfysgaeth y de eithaf ac, i lai o raddau, y chwith eithaf, terfysgaeth anarchaidd a therfysgaeth ar un pwnc. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r bygythiad gan Weriniaethwyr Gwrthwynebol yn parhau ac mae lleiafrif o hyd sy'n ceisio dadsefydlogi'r broses heddwch. Mae gweithgarwch paramilwrol a throseddol gan grwpiau Gweriniaethol Gwrthwynebol a Theyrngarol yn ychwanegu at yr heriau ehangach i ddiogelwch a wynebwn yng Ngogledd Iwerddon.

23. Byddwn yn ymateb mewn ffordd gadarn ym mhob maes. Bydd hyn yn galw am roi sylw i'r amodau sy'n achosi terfysgaeth, yn cynnwys drwy wrthsefyll radicaleiddio o dan ddylanwad unigolion neu grwpiau eithafol, yn ogystal â chynnal galluoedd ar lefel uchel i atal ac ymyrryd ag ymosodiadau terfysgol. Drwy weithio yn y DU ac ar y cyd â phartneriaid dramor – yn enwedig y rheini yn y cylch Ewropeaidd ehangach, Affrica a'r Dwyrain Canol – byddwn yn rhoi **blaenoriaeth i'r camau gweithredu** hyn:

- **Cryfhau system gwrthderfysgaeth y DU.** Gan adeiladu ar sail y gwaith a wnaed ers Adolygiad Anderson a'r Adolygiad Gwella Gweithredol, byddwn yn integreiddio galluoedd gwrthderfysgaeth y DU mewn Canolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth newydd (gweler y blwch testun); yn cryfhau'r system cyfiawnder troseddol o dan y Bil Gwrthderfysgaeth a Dedfrydu a Deddf Troseddwyr Terfysgol (Cyfyngu Rhyddhau Cynnar) 2020; ac yn parhau â'r cynnydd o £70 miliwn mewn cyllid ar gyfer plismona gwrthderfysgaeth yng Nghymru a Lloegr yn 2021-22. Mae cyllid cyfatebol ar gael i Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar gyfer plismona gwrthderfysgaeth.

#### Canolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth

Bydd ein Canolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth newydd yn creu un ganolfan gwrthderfysgaeth integredig am y tro cyntaf, lle bydd yr holl weithredwyr allweddol yn gweithio ochr yn ochr i gadw dinasyddion yn ddiogel ledled y DU. Bydd y ganolfan yn cwmpasu adrannau llywodraeth, yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, partneriaid gweithredu a gorfodi'r gyfraith, ac elfennau o'r system farnwrol.

Bydd y dull integredig hwn yn cyflymu'r ymateb drwy sefydlu timau amlasiantaethol mewn ffordd ddynamig i ddelio â digwyddiadau wrth iddynt ddatblygu; yn cryfhau'r dull o reoli troseddwyr terfysgol o ddechrau'r broses i'r diwedd; ac yn hybu arloesi, a fydd yn cynnwys datblygu a defnyddio galluoedd newydd i helpu'r DU i achub y blaen ar y bygythiadau a wynebwn wrth iddynt ddatblygu.

- **Atgyfnerthu ein dull o wrthsefyll radicaleiddio a therfysgaeth yn y DU.** Parhawn i wella'r dull o ddarparu'r rhaglen PREVENT er mwyn diogelu pobl sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio, yn cynnwys drwy adolygiad annibynnol o'i heffeithiolrwydd a phecyn hyfforddi newydd ar gyfer llunwyr polisi ac ymarferwyr yn 2021. Bydd dyletswydd PROTECT newydd yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i berchnogion a gweithredwyr mannau a chanolfannau cyhoeddus gymryd mesurau i gadw'r cyhoedd yn ddiogel rhag ymosodiadau terfysgol.
- **Lleihau galluoedd gweithredol a bwriad y rheini sy'n ymwneud â therfysgaeth gysylltiedig â Gogledd Iwerddon (TGGI).** Ymdrechwn i oresgyn yr amodau cyffredinol sy'n cynnal y bygythiad o TGGI drwy ymateb gweithredol mwy hyblyg. Bydd ein hymdrechion i atal unigolion a grwpiau rhag ymwneud â TGGI yn cynnwys hyrwyddo llwybrau amgen. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliannau o ran rheoli troseddwyr i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.
- **Rhoi sylw i'r amodau sy'n achosi terfysgaeth dramor** drwy ein cefnogaeth i gymdeithasau agored a'n hymdrechion i ddelio â gwrthdaro ac ansefydlogrwydd. Byddwn hefyd yn parhau i gryfhau galluoedd gwrthderfysgaeth ein partneriaid rhyngwladol drwy feithrin gallu, yn ogystal â chydweithredu ar gudd-wybodaeth a gorfodi'r gyfraith.
- **Ymyrryd â'r grwpiau terfysgol uchaf o ran blaenoriaeth dramor gan ddefnyddio ein holl alluoedd gwrthderfysgaeth.** Mae'r rhain yn cynnwys ein galluoedd YMLID lefel uchel, drwy weithgarwch milwrol cyfeiriedig, rhannu cudd-wybodaeth a chydweithredu â phartneriaid rhyngwladol. Drwy ymgysylltu parhaus, bydd ein lluoedd arfog yn parhau i gyfrannu i'r Gynghrair Fyd-eang yn erbyn Daesh yn Irac a Syria, darparu cymorth i Lywodraeth Affganistan a chefnogi ymgyrchoedd Ffrainc yn y Sahel.
- **Atal gweithgarwch terfysgol ar-lein.** Ein hamcan yw sicrhau na fydd unman diogel ar-lein lle gall terfysgwyr hyrwyddo neu rannu eu safbwyntiau eithafol. Er mwyn cyflawni hyn, parhawn i herio presenoldeb terfysgwyr ar-lein gan gydweithio â chwmnïau technoleg, partneriaid rhyngwladol a sefydliadau cymdeithas sifil, a gweithredu drwy'r Fforwm Rhyngrwyd Byd-eang i Atal Terfysgaeth, sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid, a sefydliadau sy'n gorfodi'r gyfraith yn y DU. Bydd ein system newydd i ddelio â niwed ar-lein (gweler y blwch testun yn 2.3) yn atgyfnerthu'r ymateb i gynnwys ar-lein niweidiol cyfreithlon ac anghyfreithlon yn y DU a thrwy'r byd, gan ddelio â deunydd terfysgol a chynnwys sy'n ymwneud â cham-drin a chamfanteisio rhywiol ar blant yn benodol.
- **Cryfhau diogelwch hedfanaeth drwy'r byd,** yn cynnwys camau drwy ein rhaglenni dwyochrog â mwy na 25 o wledydd. Drwy gydweithio â'r Sefydliad Hedfan Sifil Rhyngwladol, y Gynhadledd Hedfan Sifil Ewropeaidd a'n partneriaid Pum Llygad, byddwn yn sicrhau bod safonau diogelwch byd-eang wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol, gan rag-weld y bygythiadau i hedfanaeth sy'n datblygu.

### Asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth o'r radd flaenaf

Mae asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y DU yn gweithio i ddiogelu'r DU a gwneud cyfraniad allweddol i'r drefn ryngwladol agored. Byddant yn gwneud hynny drwy ein helpu i ddeall ac achub y blaen ar weithredwyr niweidiol, gan weithio mewn partneriaeth â chynghreiriaid ledled y byd i atal niwed, gan wella'r gallu i briodoli cyfrifoldeb am ymosodiadau a drwgweithredu, a chryfhau'r ymateb ar y cyd.

Mae'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn cynnwys SIS, GCHQ ac MI5. Maent yn gweithio ar amrywiaeth o faterion yn cynnwys gwrthderfysgaeth, bygythiadau gwladwriaethol, seiberddiogelwch, troseddu difrifol a chyfundrefnol, atal amlhau arfau a helpu i amddiffyn y DU. Er 2019, mae'r gyllideb ar gyfer y gweithgarwch hwn wedi cynyddu 5.4% y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real, i £3.1 biliwn yn 2021-22. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol o £695 miliwn ar gyfer ymchwil a datblygu rhwng 2021-22 a 2024-25 i helpu i ddatblygu galluoedd arloesol.

Mae ein dull o weithredu ar gudd-wybodaeth wedi'i seilio ar asesu annibynnol, trwyadl ar gyfer llunio polisïau effeithiol ar ddiogelwch gwladol, ac mae'r proffesiwn dadansoddi cudd-wybodaeth yn cael ei oruchwylio ar draws llywodraeth gan y Cyd-bwyllgor Cudd-wybodaeth. Mae deddfwriaeth gadarn hefyd yn sicrhau bod gwaith yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn llwyr adlewyrchu ein gwerthoedd drwy fod yn ddemocrataidd atebol, mor dryloyw â phosibl ac yn unol â'n rhwymedigaethau hawliau dynol.

### 3.3.2 Troseddu difrifol a chyfundrefnol

24. Mae troseddu difrifol a chyfundrefnol[2] yn tanseilio'n uniongyrchol ddiogelwch dinasyddion y DU, uniondeb y wladwriaeth a hyder yn ein system ariannol – ar gost o £37 biliwn o leiaf bob blwyddyn. Mae troseddu cyfundrefnol yn gysylltiedig â llawer o'r troseddu a brofir mewn cymunedau: amcangyfrifwyd bod 45% o'r holl droseddu meddiangar yn cael ei gyflawni gan bobl sy'n defnyddio heroin, cocên neu grac cocên yn rheolaidd a bod bron 50% o lofruddiaethau'n gysylltiedig â chyffuriau. Mewn gwledydd tramor, mae troseddu difrifol a chyfundrefnol yn fygythiad i ddiogelwch a ffyniant rhyngwladol: mae'n ymestyn ac yn gwaethygu gwrthdaro; yn tanseilio sefydlogrwydd cynghreiriaid a phartneriaid; ac yn peri'r gost economaidd fwyaf i'r gwledydd isaf eu hincwm.

25. Mae grwpiau troseddu cyfundrefnol yn gallu gwrthsefyll ymyrraeth, drwy newid rhwng mathau o droseddu er mwyn achub ar gyfleoedd am elw troseddol. Mae'r grwpiau mwyaf soffistigedig yn defnyddio technoleg fel cyfathrebu wedi'i amgryptio i osgoi sylw gorfodwyr y gyfraith. Rhaid i ni ymdrin â symptomau gweledol, galluogwyr ac achosion sylfaenol troseddu difrifol a chyfundrefnol, drwy ymyrryd, datgymalu a dinistrio mentrau troseddol gartref a thramor. Am fod troseddu difrifol a chyfundrefnol yn drawswladol o'i hanfod, rhaid i ni weithredu drwy gysylltu'r ymateb lleol ag ymatebion rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Y **camau gweithredu y rhoddwn flaenoriaeth iddynt,** mewn ymateb i Adolygiad Mackey 2020, fydd:

- **Atgyfnerthu ein hymateb i'r bygythiadau mwyaf dirfawr i'r DU gan droseddwyr cyfundrefnol,** yn cynnwys: troseddu economaidd, cyllid anghyfreithlon a thwyll, drwy fuddsoddi £83 miliwn ychwanegol i sicrhau bod ein

2 Y diffiniad o droseddu difrifol a chyfundrefnol yw unigolion sy'n cynllunio, yn cydgysylltu ac yn cyflawni troseddau difrifol, yn unigol, mewn grwpiau a/neu yn rhan o rwydweithiau trawswladol. Y prif gategorïau o droseddau difrifol sy'n dod o dan y term hwn yw: cam-drin plant yn rhywiol; caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl; troseddau mewnfudo cyfundrefnol; cyffuriau anghyfreithlon; arfau tanio anghyfreithlon; troseddu meddiangar cyfundrefnol; troseddu seiber; twyll; gwyngalchu arian; a llwgrwobrwyo, llygredd ac efadu sancsiynau.

heconomi'n lle diogel i wneud busnes (gweler 2.2); mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol drwy strategaeth drawslywodraethol newydd a gyhoeddwyd yn Ionawr 2021; dyblu ein buddsoddiad i ddelio â llinellau cyffuriau a chyflenwi cyffuriau; a mynd i'r afael â'r mathau mwyaf niweidiol o droseddu seiber, fel meddalwedd wystlo, yn cynnwys atal gweithgarwch maleisus ar-lein ar raddfa fawr drwy Seiberamddiffyn Gweithredol. Byddwn hefyd yn cymryd mesurau i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o dechnolegau digidol yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau eu diogelwch.

- **Cryfhau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol** (NCA), gan gyflawni'r ymrwymiad yn ein maniffesto a datblygu'r galluoedd hanfodol sydd eu hangen o ran data, cudd-wybodaeth ac ymchwilio, i alluogi'r NCA i arwain system gorfodi'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn ceisio sicrhau mwy o integreiddio lle mae gorgyffwrdd â bygythiadau eraill fel terfysgaeth a bygythiadau gwladwriaethol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod mecanwaith ariannu'r NCA yn ei helpu i gyflawni nodau tymor hir ac i addasu i fygythiadau newydd.
- **Cynyddu'r gallu plismona lleol a rhanbarthol.** Byddwn yn atgyfnerthu Unedau Troseddu Cyfundrefnol Rhanbarthol, drwy gydgysylltu â phlismona lleol a'r NCA. Mae hyn yn cynnwys recriwtio 300 o swyddogion heddlu yn 2021-22 i ddelio'n benodol â throseddu difrifol a chyfundrefnol, yn rhan o'n hymrwymiad i recriwtio cyfanswm o 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol erbyn 2023. Byddwn yn adolygu'r Gofyniad Plismona Strategol i sicrhau ei fod yn fwy effeithiol o ran cefnogi'r ymateb drwy blismona i fygythiadau cenedlaethol. Yn 2021-22 byddwn yn treialu ffordd well o ddefnyddio Gorchmynion Atal Troseddu Difrifol i atal troseddau cyn iddynt ddigwydd. Bydd ein buddsoddiad ychwanegol o £275 miliwn yn y system cyfiawnder troseddol yn helpu i sicrhau bod mwy o droseddwyr yn wynebu cyfiawnder.
- **Cryfhau ymdrechion rhyngwladol i ymyrryd a datgymalu rhwydweithiau troseddu difrifol a chyfundrefnol.** Wrth wneud hynny, byddwn yn adeiladu ar sail gwaith ein rhwydweithiau diplomyddol a gweithredol, fel swyddogion cyswllt yr NCA, ac yn cydweithio'n agos â phartneriaid rhyngwladol fel y Pum Llygad a'r UE, yn cynnwys drwy ein swyddogion cyswllt yn Europol. Yn benodol, byddwn yn cydweithio â phartneriaid o'r un anian i gryfhau'r gefnogaeth gan Interpol i orfodwyr y gyfraith yn y rheng flaen, drwy fwy o rannu data a buddsoddi yn ei alluoedd technegol.
- **Mynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfundrefnol o fewn môr tiriogaethol y DU,** drwy gydgysylltu gweithredu rhwng Llu Ffiniau'r DU, gorfodwyr y gyfraith a'r Llynges Frenhinol; a gweithredu strategaeth ffiniau'r DU 2025 (gweler y blwch testun). Drwy gydgysylltu'n agos â Ffrainc yn benodol, parhawn i gydweithio â phartneriaid yn Ewrop i reoli parthau morwrol a rennir fel y Sianel, Môr y Gogledd a Môr Iwerddon.

### Ffin y DU: y porth i'r Brydain Fyd-eang

Ein gweledigaeth yw mai ffin y DU erbyn 2025 fydd y ffin fwyaf effeithiol yn y byd. Mae'r ffin yn fwy na llinell ar fap: mae'n gyfuniad o bolisïau, prosesau a systemau a gyflawnir gan sefydliadau cyhoeddus a phreifat mewn mwy na 270 o bwyntiau croesi cydnabyddedig a nifer o bwyntiau mynediad eraill llai ledled y DU.


Mae gweithredu dirwystr wrth y ffin yn hanfodol i economi'r DU, drwy alluogi teithio a masnachu â gweddill y byd. Mae hefyd yn bwynt ymyrryd unigryw wrth hyrwyddo diogelwch a bioddiogelwch y DU: drwy atal terfysgwyr, troseddwyr a nwyddau

anghyfreithlon rhag cyrraedd ein strydoedd; atal ymfudo anghyfreithlon; a diogelu iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion. Fodd bynnag, oherwydd newid mewn tueddiadau o ran masnach, ymfudo a diogelwch, yn ogystal â digwyddiadau mawr fel y pandemig COVID-19, mae ein ffin o dan fwy o bwysau nag erioed o'r blaen.

Bydd ein gweithredu ar draws llywodraeth o dan strategaeth ffiniau'r DU 2025 yn adeiladu ar sail cyflwyno ein system mewnfudo newydd sy'n seiliedig ar bwyntiau, strategaeth forwrol 2050 a strategaeth allforio'r Llywodraeth, a'n hymdrechion i ddelio ag ymfudo anghyfreithlon (gweler y blwch testun yn 4.3). Drwy gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig ac awdurdodau lleol, gorfodwyr y gyfraith, diwydiant a phartneriaid rhyngwladol, byddwn yn sicrhau'r saith trawsnewidiad a'r Model Gweithredu Targed sydd eu hangen i wireddu ein gweledigaeth. Bydd hyn yn golygu gwneud gwell defnydd o ddata a dadansoddeg uwch, technoleg ac arloesi, a chreu gweithlu hyfedr.

### Strategaeth ffiniau'r DU 2025

Byddwn yn cynyddu effeithiolrwydd ffin y DU drwy chwe thrawsnewidiad a fydd yn hyrwyddo ffyniant ac yn gwella diogelwch.




### 3.3.3 Cryfhau rheolaeth fyd-eang ar arfau, diarfogi ac atal amlhau arfau

26. Mae atal amlhau arfau[3] yn hanfodol i ddiogelwch a ffyniant y DU. Mae'n helpu i gynnal sefydlogrwydd rhanbarthol a byd-eang, yn lleihau bygythiadau i'n dinasyddion a'n lluoedd arfog, yn hwyluso masnach deg i'n diwydiant ac yn diogelu swyddi crefftus ledled y DU. Mae ein llwyddiannau yn y pum mlynedd diwethaf – yn cynnwys

3 Y diffiniad o atal amlhau arfau yma yw atal lledaenu neu ddatblygu galluoedd CBRN a ffyrdd o'u defnyddio, neu uwch-dechnoleg filwrol, i weithredwyr gwladwriaethol neu anwladwriaethol a allai fygwth buddiannau'r DU neu sefydlogrwydd rhanbarthol.

yr ymateb i ymosodiad Rwsia yng Nghaersallog a phriodoli'r defnydd o arfau cemegol yn Syria – wedi cyfrannu i'n henw da drwy'r byd fel grym er daioni a phŵer gwyddoniaeth a thechnoleg.

27. Er mwyn cadw'r enillion hyn, rhaid i ni roi sylw i'r bygythiadau cynyddol gan wladwriaethau fel Iran, Rwsia a Gogledd Korea; ymateb i fygythiadau newydd fel caffael uwch-dechnoleg a thechnoleg defnydd deuol yn anghyfreithlon; ac atgyfnerthu'r strwythur byd-eang i atal amlhau arfau rhag pwysau cynyddol, gan siapio ei ddyfodol er budd i ni. Rhoddwn flaenoriaeth i'r camau gweithredu hyn:

- **Atgyfnerthu'r llywodraethu rhyngwladol ar fynediad gan wladwriaethau at arfau a deunyddiau CBRN neu dechnoleg gysylltiedig** drwy gydweithio â chyrff y cytuniadau perthnasol – yn enwedig y Sefydliad Gwahardd Arfau Cemegol a'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol, lle byddwn yn cryfhau ei system diogelu niwclear. Yn benodol, gwnawn ragor i ddatgelu diffyg cydymffurfio â chytuniadau rheoli (gweler yr adran ar yr atalfa niwclear). Ochr yn ochr â'n cynghreiriaid, bydd y DU yn dal Iran yn atebol am ei gweithgarwch niwclear, gan fod yn barod o hyd i gynnal trafodaethau ar gytundeb niwclear a rhanbarthol mwy cynhwysfawr. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu'n fwy na'r un partner arall o'r tu allan i'r rhanbarth ar ddadniwcleareiddio Gogledd Korea ac ar orfodi sancsiynau.
- **Lleihau tensiynau yn Ne Asia,** drwy hyrwyddo deialog rhanbarthol ar gyfrifoldebau niwclear, a thrwy gydweithio â gwladwriaethau yno i ddeall ac ymateb i fygythiadau i ddiogelwch yn y rhanbarth.
- **Atal amlhau ymysg gwladwriaethau.** Drwy ddadansoddi cudd-wybodaeth, byddwn yn cael gwybod mwy am y rheini sy'n ceisio cael gafael ar arfau CBRN ac uwch-dechnoleg filwrol a thechnoleg defnydd deuol. Byddwn yn mynd i'r afael â rhwydweithiau amlhau a chyllid amlhau drwy ganfod mannau problemus, llwybrau a mecanweithiau ar gyfer eu trosglwyddo. Bydd gwelliannau i'r Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd yn helpu i atal gwladwriaethau rhag manteisio ar gysylltiadau ymchwil â'r byd academaidd yn y DU i ddwyn eiddo deallusol a chael gafael ar wybodaeth y gellid ei defnyddio i ddatblygu arfau CBRN a ffyrdd i'w defnyddio, neu uwch-dechnoleg filwrol.
- **Atal trosglwyddo i weithredwyr anwladwriaethol,** gan gryfhau'r mesurau i sicrhau a diogelu deunyddiau niwclear mewn gwledydd sydd â blaenoriaeth. Byddwn hefyd yn lleihau'r risg o gaffael cyfryngau biolegol gan derfysgwyr drwy ein Rhaglen Diogelwch Biolegol Rhanbarthol a Phartneriaeth Fyd-eang y G7 yn erbyn Lledaenu Arfau a Deunyddiau Distryw Mawr.
- **Cydbwyso'r cyfleoedd o dechnolegau newydd â mesurau rheoli,** gan barhau â'n buddsoddiad cyfreithlon ein hunain a helpu gwladwriaethau cyfrifol eraill i ddefnyddio technolegau newydd drwy gydweithredu technegol. Drwy gydweithio ag arbenigwyr, diwydiant a chynghreiriaid, bydd y DU yn cynnal system rheoli allforion effeithlon ar arfau a thechnoleg defnydd deuol sy'n addasu i newid technolegol. Byddwn hefyd yn argymell newidiadau mewn systemau atal amlhau a llywodraethu rhyngwladol sy'n delio â llwybrau newydd i gaffael arfau CBRN ac arfau datblygedig sy'n seiliedig ar dechnoleg.

Mynydd Iâ A-68(a): un o'r mynyddoedd iâ mwyaf a gofnodwyd erioed, yn arnofio ger ynys De Georgia yng Nghefnfor De Iwerydd. UK MOD © Hawlfraint y Goron 2021



# 4. Meithrin cadernid gartref a thramor

1. Mae'n annhebygol mai COVID-19 fydd argyfwng byd-eang olaf y 2020au. Wrth i'r byd ddod yn fwy cydgysylltiedig a chystadleuol, mae digwyddiadau mewn un rhanbarth – feirws newydd, colli cynefinoedd neu seiberymosodiad – yn gallu creu canlyniadau systemig drwy'r byd na fyddwn bob amser yn gallu eu rhag-weld neu osgoi. Oherwydd hyn, yn ogystal â chryfhau ein diogelwch, mae angen i ni **feithrin cadernid** ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, **drwy roi sylw i achosion sylfaenol risgiau, a sicrhau bod y DU yn fwy parod i wrthsefyll argyfyngau ac ymadfer ar eu hôl pan fyddant yn digwydd.**

2. Mae cadernid y DU wedi'i gydblethu â chadernid byd-eang. Oherwydd natur drawswladol nifer o'r heriau, yn cynnwys newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn ogystal ag argyfyngau bioddiogelwch a sicrwydd ynni, ni all yr un llywodraeth eu hwynebu ar ei phen ei hun. Er hynny, mae COVID-19 wedi dangos pa mor gyflym y mae cydweithredu rhyngwladol yn gallu arafu o dan bwysau. Mae hefyd wedi amlygu'r gwendidau sydd wedi codi o ganlyniad i'r duedd fyd-eang i optimeiddio llywodraethu a phrosesau ar gyfer effeithlonrwydd, yn hytrach nag ar gyfer cadernid.

3. Wrth i'r byd ymadfer ar ôl y pandemig, rhaid i ni **atgyfnerthu cadernid byd-eang** – gan sicrhau bod gwledydd mwy cydnerth drwy'r byd yn gallu dod at ei gilydd drwy sefydliadau rhyngwladol cryfach i weithredu ar yr heriau cyffredin mwyaf dirfawr. Ochr yn ochr â'n hymdrechion i ymateb i amgylchedd diogelwch mwy heriol, rhaid atgyfnerthu ein cadernid os ydym i sicrhau trefn ryngwladol lle mae cymdeithasau ac economïau agored yn gallu ffynnu.

4. **Ein nod cyntaf yw adeiladu ein cadernid cenedlaethol,** fel y gallwn leihau effaith ergydion difrifol a heriau tymor hwy ar fywydau a bywoliaethau yn y DU. Mae cadernid cenedlaethol yn ganlyniad i nifer o ffactorau, yn cynnwys llywodraethu effeithiol a dibynadwy, galluoedd llywodraeth, cydlyniant cymdeithasol, a chadernid unigolion a busnesau. Felly, er mwyn cyrraedd y nod hwn, bydd angen ymdrech genedlaethol, wedi'i hategu gan agenda ddomestig ehangach y Llywodraeth. Yn benodol, byddwn yn mabwysiadu dull newydd o baratoi ar gyfer risgiau ac ymateb iddynt a fydd yn llawn gydnabod bod peryglon naturiol a risgiau eraill yn gallu ymyrryd â buddiannau craidd y DU i'r un graddau â bygythiadau i ddiogelwch.

5. **Ein hail nod yw delio â'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth,** sy'n galw am gydweithredu ar unwaith ledled y byd. Hon fydd **blaenoriaeth ryngwladol fwyaf y DU,** yn adeiladu ar sail ein hymrwymiad domestig i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050. Ymdrechwn i gyflymu'r newid i economi fyd-eang ddi-garbon, i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth, ac i hyrwyddo addasu a chadernid – yn enwedig ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed drwy'r byd.

6. **Ein trydydd nod yw meithrin cadernid iechyd** gartref ac ar lefel ryngwladol, gan gydnabod natur gydgysylltiedig ein system iechyd fyd-eang. Yn benodol, byddwn yn cryfhau ein hymdrechion i wella parodrwydd i ddelio â phandemigau – gan ddilyn llwybr Un Iechyd – ac i ddiwygio Sefydliad Iechyd y Byd, gan ddysgu'r gwersi o'r pandemig COVID-19.

## 4.1 Meithrin cadernid cenedlaethol y DU

7. Mae cadernid wedi bod yn rhan o ddull gweithredu'r DU o ran diogelwch gwladol ers amser hir. Ond mewn byd sy'n fwyfwy cydgysylltiedig, lle na allwn rag-weld neu atal yr holl heriau sydd o'n blaen, mae angen adnewyddu ein dull o weithredu – gan wneud cadernid yn ymdrech genedlaethol, fel y byddwn yn barod fel gwlad at yr argyfwng nesaf, o ba fath bynnag.

8. Bydd y Llywodraeth yn parhau i baratoi ar gyfer risgiau penodol ac ymateb iddynt, boed y rheini'n derfysgaeth, llifogydd neu'n bandemig newydd. Gan ddysgu gwersi o'r pandemig COVID-19, byddwn hefyd yn ceisio meithrin gwell dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r DU, a gwella ein parodrwydd cenedlaethol i ddelio â risgiau o'r dechrau i'r diwedd, o adeg eu rhag-weld hyd at yr ymadfer ar eu hôl. Er mwyn gwneud hyn, bydd y Llywodraeth yn dechrau datblygu **strategaeth cadernid cenedlaethol gynhwysfawr** yn 2021, mewn partneriaeth â'r gweinyddiaethau datganoledig a rhanbarthau Lloegr, llywodraeth leol, y sector preifat a'r cyhoedd. O dan y strategaeth hon, y **camau gweithredu a gaiff flaenoriaeth** fydd:

   - **Sefydlu dull 'cymdeithas gyfan' o drafod cadernid,** fel y bydd unigolion, busnesau a sefydliadau i gyd yn chwarae rhan mewn meithrin cadernid ledled y DU. Ceisiwn ddatblygu dull integredig, gan ddod â holl lefelau llywodraeth at ei gilydd ynghyd â gweithredwyr seilwaith cenedlaethol hanfodol, y sector preifat ehangach, cymdeithas sifil a'r cyhoedd. Yn rhan o hyn, byddwn yn gwella'r cyfathrebu â'r cyhoedd ar barodrwydd gan lywodraeth; yn ystyried cryfhau rôl a chyfrifoldebau fforymau cadernid lleol yn Lloegr; ac yn ystyried cwmpas gweithredu a chyfrifoldebau perchnogion a gweithredwyr seilwaith cenedlaethol hanfodol i sicrhau safon cadernid gyson yn yr holl sectorau seilwaith cenedlaethol hanfodol. Mae hyn yn ychwanegol i unrhyw ddeddfwriaeth sydd ei hangen mewn sectorau penodol, fel y Bil Telathrebu (Diogelwch). Bydd y strategaeth seiber newydd yn cyfrannu at y dull gweithredu cyffredinol hwn, drwy roi mwy o allu i'r DU i wrthsefyll risgiau seiber. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu seiberddiogelwch yn yr holl sectorau seilwaith cenedlaethol hanfodol a sicrhau bod Fframwaith Asesu Seiber yr NCSC yn cael ei fabwysiadu'n fwy eang.
   - **Ystyried pob agwedd ar fygythiadau a pheryglon,** fel y gallwn feithrin cadernid cenedlaethol i wrthsefyll y risgiau amrywiol sy'n wynebu'r DU: rhai maleisus ac anfaleisus, uniongyrchol ac anuniongyrchol, a byrhoedlog a chronig – yn cynnwys digwyddiadau isel eu tebygolrwydd sy'n cael effaith drychinebus. Mae hyn yn golygu integreiddio diogelwch gwladol â pholisi economaidd, iechyd ac amgylcheddol, a gweithredu mewn ffordd sy'n cwmpasu risg o'r dechrau i'r diwedd: rhag-weld, atal, paratoi, ymateb ac ymadfer. Wrth wneud hynny, byddwn yn cysylltu gweithredu domestig a gweithredu rhyngwladol yn fwy agos, gan roi mwy o bwyslais ar weithredu ar lefel uwch i ddelio â ffynonellau risgiau – yn cwmpasu gweithredu ar yr hinsawdd, meithrin gallu seiber ac ymdrechion i ymyrryd â grwpiau troseddu cyfundrefnol trawswladol.
   - **Datblygu mwy o alluoedd – pobl, sgiliau a chyfarpar – y gellir eu defnyddio mewn nifer o senarios gwahanol.** Byddwn yn gwella ein gallu i brofi a datblygu ein galluoedd drwy gynllunio wrth gefn ac ymarferiadau rheolaidd, gan ddod â llywodraeth ynghyd â'r gwasanaethau brys, y lluoedd arfog, ymatebwyr lleol eraill a diwydiant. Bydd y lluoedd arfog hefyd yn parhau i gynorthwyo wrth ymateb i argyfyngau – fel COVID-19 – drwy Gymorth Milwrol i'r Awdurdodau Sifil, a bwriadwn wneud mwy o ddefnydd o'r lluoedd arfog wrth gefn i hyrwyddo blaenoriaethau diogelwch gwladol domestig. Byddwn hefyd yn ystyried sut

i ymestyn hyn i gynnwys cnewyllyn o sifiliaid wrth gefn i roi cymorth mewn cyfnodau o argyfwng.

- **Adolygu ein dull o asesu risg.** Mae'r Asesiad Risg Diogelwch Gwladol (ARDG) yn ddogfen ddosbarthedig sy'n rhestru ac yn asesu effaith a thebygolrwydd y risgiau mwyaf difrifol sy'n wynebu'r DU a'i buddiannau dramor. Fe'i cynhyrchir ar y cyd â'r holl adrannau ac asiantaethau sy'n berchen ar risgiau ac adolygwyd ei ganfyddiadau yng nghyd-destun y pandemig COVID-19. Roedd y fersiwn o'r ARDG sydd ar gael i'r cyhoedd, y Gofrestr Risgiau Genedlaethol, wedi'i cyhoeddi yn Rhagfyr 2020. Mae adolygiad o fethodoleg yr ARDG yn cael ei gynnal ar hyn o bryd: bydd yn rhoi sylw i bob agwedd ar y fethodoleg sylfaenol, yn cynnwys y ffordd rydym yn disgrifio cyd-ddibyniaethau, rhaeadru a risgiau cyfansawdd.
- **Cryfhau ein hoffer dadansoddi, polisi a gweithredu – yn cynnwys casglu a defnyddio data – i asesu risgiau cymhleth, trawsbynciol yn well.** Sefydlwn Ganolfan Sefyllfaoedd newydd i ddarparu data byw a dadansoddi cyflym i hyrwyddo cydweithio ar draws llywodraeth a chyfrannu at benderfynu mewn argyfwng. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn trawsnewid digidol yn yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth ac mewn asesu 'pob ffynhonnell' sy'n dod â chudd-wybodaeth a gwybodaeth o ffynonellau agored at ei gilydd.

## 4.2 Delio â'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth

9. Mae'r amser sydd ar gael i'r byd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth yn prinhau. Mae angen cymryd camau brys i gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C ac atal dirywiad rhywogaethau a dinistr amgylcheddol. Os na wneir hynny, byddai colli natur yn gallu arwain at gost economaidd gronnol o hyd at $10 triliwn rhwng 2011 a 2050. Yn benodol, rhaid i ni gyflymu'r newid byd-eang i allyriadau sero net, gan osod y sylfeini ar gyfer twf yn y dyfodol a chreu cyflogaeth gynaliadwy, newydd yn niwydiannau'r dyfodol. Yn ogystal â hyn, rhaid i ni gynyddu ein gallu ar y cyd i wrthsefyll effeithiau'r difrod a wnaed eisoes, yn enwedig drwy gynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed drwy'r byd i addasu i effeithiau newid hinsawdd a cholli natur.

10. Mae'r DU eisoes ar y blaen o ran gweithredu ar yr hinsawdd. Er 2000, rydym wedi lleihau allyriadau'n gynt na'r un wlad arall yn y G20, a ni oedd yr economi fawr gyntaf i fabwysiadu rhwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn 2050. Roedd y DU wedi buddsoddi £5.8 biliwn mewn Cyllid Hinsawdd Rhyngwladol rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2021. Ym mis Tachwedd 2021 byddwn yn croesawu COP26 i Glasgow, gan dynnu ynghyd y 197 o bartïon sydd wedi llofnodi neu dderbyn Cytundeb Paris er mwyn cytuno ar gamau pellach i liniaru, addasu ac ariannu mewn perthynas â newid hinsawdd.

11. Delio â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth fydd **blaenoriaeth ryngwladol y DU** yn ystod COP26 ac wedyn. Byddwn yn rhoi **blaenoriaeth i'r camau gweithredu hyn:**

    - **Cyflymu'r newid i allyriadau sero net yn y DU erbyn 2050,** gan gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig a thynnu ar gryfderau ac arbenigedd ledled y DU, fel hydrogen gwyrdd a phŵer gwynt yng Nghymru. Byddwn yn cymryd camau uchelgeisiol, yn cynnwys drwy gynllun deg pwynt ar gyfer chwyldro diwydiannol gwyrdd, cyfres o strategaethau sector a gyhoeddir cyn hir (fel y cynllun datgarboneiddio trafnidiaeth) a'n strategaeth sero net gyffredinol. Ein nod yw dod yn brif ganolfan y byd ar gyfer technoleg wyrdd, cyllid ac ynni gwynt, gan


ddefnyddio buddsoddiad o £12 biliwn gan lywodraeth a llawer mwy o fuddsoddi preifat i greu a chefnogi hyd at 250,000 o swyddi ledled y DU. Byddwn yn cynyddu'r cymorth ar gyfer arloesi sero net a diwydiannau newydd, yn cynnwys cynhyrchu hydrogen carbon isel a dal a storio carbon. Drwy'r Fargen Drawsnewid arfaethedig ar gyfer Môr y Gogledd, byddwn yn helpu canolfannau olew a nwy y DU i arallgyfeirio i feysydd ynni newydd, gan ddiogelu a chreu swyddi newydd mewn ardaloedd fel gogledd-ddwyrain Lloegr a'r Alban. Byddwn yn cynnig Bond Gwyrdd Sofran cyntaf y DU yn 2021 a ni fydd y wlad gyntaf yn y G20 i'w gwneud yn orfodol bod datgeliadau a bennwyd gan y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd yn cael eu gwneud ar draws yr economi erbyn 2025, a chyflwynir y rhan fwyaf o'r gofynion erbyn 2023.

- **Cyflymu'r newid byd-eang i allyriadau sero net,** gan sicrhau bod pawb yn gallu cyfranogi'n gynt o'r cyfleoedd am dwf glân. Mae'r newid i economi fyd-eang wyrdd yn galw am weithredu gan bawb – o'r economïau cryfaf a mwyaf datblygedig i wledydd sy'n datblygu a gwladwriaethau sy'n datblygu ar ynysoedd bach, gan gynnwys llywodraethau, busnesau a dinasyddion unigol. Fel llywydd COP26, bydd y DU yn ceisio cyrraedd canlyniad cadarnhaol drwy negodi a fydd yn cydbwyso buddiannau'r holl Bartïon i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd a chyfraniadau mwy uchelgeisiol a benderfynir ar lefel genedlaethol a strategaethau hirdymor ar ddatgarboneiddio. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gysoni ein holl Gymorth Datblygu Swyddogol â Chytundeb Paris, a byddwn yn ymgynghori ar derfynu cymorth uniongyrchol newydd i ariannu neu hyrwyddo'r sector ynni tanwyddau ffosil mewn gwledydd tramor.
- **Cryfhau'r addasu i effeithiau newid hinsawdd na ellir eu hatal neu eu gwrthdroi,** gan gynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed drwy'r byd yn benodol. Byddwn yn ceisio sicrhau ymrwymiadau uchelgeisiol ar gyllid ar gyfer mesurau addasu a chryfhau yn COP26. Mae'r DU eisoes wedi neilltuo £11.6 biliwn i Gyllid Hinsawdd Rhyngwladol rhwng 2021 a 2025 ac wedi dyblu ein cyfraniad i'r Gronfa Hinsawdd Wyrdd i £1.44 biliwn. Gartref mae'r Ail Raglen Addasu Genedlaethol (2018) yn pennu strategaeth bum mlynedd i roi mwy o allu i'r DU wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, yn cynnwys gweithredu ar y risgiau mwyaf dirfawr fel llifogydd. Byddwn hefyd yn chwilio am atebion seiliedig ar natur, fel yr Her Adferiad Gwyrdd o £80 miliwn – sy'n ariannu prosiectau i adfer natur – a'r Gronfa Natur er mwyn Hinsawdd o £640 miliwn ar gyfer plannu coed ac adfer mawnogydd.
- **Gwrthdroi'r golled bioamrywiaeth erbyn 2030,** drwy gyflawni'r nodau a osodwyd yng Nghytundeb Paris, yr ymrwymiadau yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, ac Adduned yr Arweinwyr i Natur yn 2020. Byddwn yn gwarchod ac adfer natur, yn cynnwys drwy hyrwyddo cefnogaeth i dargedau byd-eang newydd uchelgeisiol ar gyfer natur yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (CBD COP15) yn Kunming yn 2021, i gryfhau ecosystemau ac adferiad rhywogaethau, a mynd i'r afael ag achosion colli natur. Parhawn i ymgyrchu o blaid cytundeb byd-eang i warchod o leiaf 30% o dir a chefnfor y byd ar lefel fyd-eang erbyn 2030, drwy Gynghrair y Cefnfor Byd-eang ac fel cyd-gadeirydd, gyda Costa Rica a Ffrainc, ar y Gynghrair Uchelgais Mawr i Natur a Phobl, ac i arwain Cynghrair y Cefnfor Byd-eang. Bydd y DU yn arwain drwy osod esiampl, drwy warchod 30% o'n tir a môr ein hunain erbyn 2030.
- **Hyrwyddo defnydd cynaliadwy a chyfreithlon o adnoddau naturiol.** Bydd y DU yn hyrwyddo amaethyddiaeth sy'n adfywio ecosystemau ac yn darparu bwyd iachach a mwy cynaliadwy. Byddwn yn cynnull y Deialog Masnach Coedwigoedd, Amaethyddiaeth a Nwyddau gan dynnu ynghyd y gwledydd

yn y byd sy'n cynhyrchu ac yn defnyddio'r mwyaf o nwyddau sy'n peryglu coedwigoedd i gytuno ar gamau gweithredu ar y cyd a fydd yn gwarchod coedwigoedd yn ogystal â hyrwyddo masnach a datblygu. Gartref byddwn yn cyflwyno cyfraith newydd i atal masnach mewn cynhyrchion yn y DU sy'n cyfrannu at ddatgoedwigo anghyfreithlon. Byddwn hefyd yn parhau i ymdrechu i derfynu'r farchnad mewn cynhyrchion bywyd gwyllt anghyfreithlon, gan gryfhau ymdrechion i orfodi'r gyfraith a chefnogi bywoliaethau amgen cynaliadwy.

- **Buddsoddi mewn natur ac economi 'natur bositif',** gan integreiddio bioamrywiaeth â phenderfyniadau economaidd mewn ymateb i ganfyddiadau Adolygiad Dasgupta. Byddwn yn cynyddu cyllid ar gyfer natur ac atebion seiliedig ar natur i newid hinsawdd, yn cynnwys drwy wario o leiaf £3 biliwn o'n Cyllid Hinsawdd Rhyngwladol ar natur dros y pum mlynedd nesaf, a rhoi cymorth i warchod ac adfer cynefinoedd hanfodol, yn cynnwys drwy ein Cronfa Tirweddau Bioamrywiol a Chronfa'r Blaned Las.

## Cynllun deg pwynt ar gyfer chwyldro diwydiannol gwyrdd



## Diogelu ffynonellau ynni

Mae sicrhau'r cyflenwad o ynni diogel, fforddiadwy a glân yn hanfodol i fuddiannau cenedlaethol y DU. Yn y blynyddoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar y newid i ynni glân. Fel y nodwyd yn y papur gwyn ar ynni, byddwn yn datgarboneiddio ein system ynni, yn rhoi hwb i gynhyrchu ynni glân ac yn ceisio lleihau costau technolegau newydd drwy eu defnyddio ar raddfa fawr.

Wrth gyflawni'r newid hwn, bydd olew a nwy yn parhau'n rhan bwysig, os llai, o gyflenwad ynni'r DU. Cydweithiwn â'n partneriaid rhyngwladol i gynnal cyflenwadau byd-eang diogel o olew, yn enwedig yn y Dwyrain Canol. Fel aelod o'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol, mae'r DU yn parhau i ddal stociau olew rhyngwladol y gellir eu rhyddhau os ceir ymyrraeth fawr. Byddwn hefyd yn cefnogi ymdrechion i sicrhau bod ffynonellau nwy yn Ewrop yn ddiogel, gan geisio osgoi ymyrraeth a allai gael effaith ganlyniadol ar brisiau a chyflenwadau.

Yn fwy eang, byddwn yn amddiffyn seilwaith cenedlaethol hanfodol ynni'r DU sy'n darged deniadol o hyd i ymosodiadau gan wladwriaethau a gweithredwyr anwladwriaethol fel terfysgwyr a throseddwyr. Bydd hyn yn golygu sicrhau amddiffyniad digonol rhag risgiau newydd i seiberddiogelwch wrth i'n system ynni ddod yn fwyfwy dibynnol ar dechnolegau digidol. Byddwn hefyd yn hyrwyddo diogelwch, safonau uchel a mesurau diogelu ym maes ynni niwclear drwy gymryd rhan yn yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol ac yn ddwyochrog.

## Cryfhau'r cefnfor

Mae un cefnfor gan y byd a rennir gan yr holl wledydd. Mae'r cefnfor yn darparu 50% o'r ocsigen a anadlwn, yn cynnal bywoliaethau drwy'r byd, yn cynnwys adnoddau biolegol a mwynol enfawr, ac yn hanfodol i fasnach. Ond mae'n dod o dan bwysau oherwydd newid hinsawdd a dirywiad amgylcheddol, tensiynau cynyddol o gwmpas tagfeydd morwrol, yn cynnwys Culfor Hormuz a Môr De Tsieina, yn ogystal ag ymfudo, môr-ladrad a throseddu difrifol a chyfundrefnol.

Gweledigaeth y DU yw y bydd y cefnfor erbyn 2030 yn cael ei lywodraethu'n effeithiol, yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fioamrywiol, yn cysylltu cymunedau arfordirol cadarn a ffyniannus, ac yn hybu twf economaidd cynaliadwy ar gyfer y DU, y Tiriogaethau Tramor a Thiriogaethau Dibynnol y Goron. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, byddwn yn cyfuno ein gwaith ar ddiogelwch morwrol, yr amgylchedd a masnach. Elfen hanfodol yn y gwaith hwn fydd ymrwymiad llwyr i gynnal Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr yn ei holl agweddau, fel ffordd hanfodol i gynnal ffyniant byd-eang, diogelwch a phlaned iach.

Bydd Llong Wyliadwriaeth Gefnforol Aml-rôl newydd y Llynges Frenhinol yn dangos y dull mwy integredig hwn ar waith, yn amddiffyn ein seilwaith cenedlaethol hanfodol ar y môr ac yn gwella ein gwybodaeth am yr amgylchedd morol. Bydd Llongau Patrôl Môr y Llynges Frenhinol, ynghyd â Llu Ffiniau'r DU, yn parhau i helpu i gadw gwyliadwriaeth ar y ffin, i ddiogelu morgludiant, i warchod amgylchedd y môr, i reoli gweithgareddau pysgota, i gynnal gweithgareddau chwilio ac achub, a gorfodi tollau.

Yn ogystal â hyn, cymerwn y camau canlynol:

- Gwarchod amgylchedd y môr, gan gefnogi camau gweithredu rhyngwladol drwy Gynghrair y Cefnfor Byd-eang, sy'n cael ei harwain gan y DU, a chynghreiriau eraill. Byddwn yn cryfhau ein galluoedd yng ngwyddorau'r môr, gan gyfrannu i Ddegawd Gwyddorau'r Cefnfor er Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, ac yn defnyddio ein Cronfa Planed Las newydd i warchod ac adfer ecosystemau ac adnoddau morol, cefnogi pysgodfeydd cynaliadwy a lleihau tlodi. Byddwn hefyd yn parhau i wella gwarchodaeth yn y moroedd o gwmpas y Tiriogaethau Tramor, yn cynnwys yr amgylchedd morol 4.3 miliwn o gilometrau sgwâr sydd eisoes yn cael ei warchod drwy raglen Blue Belt.
- Defnyddio mwy o'n hasedau llyngesol ledled y byd i ddiogelu llwybrau'r môr a chynnal rhyddid mordwyo. Bydd y Ganolfan Cyd-ddiogelwch Morwrol yn cefnogi hyn, gan gryfhau'r camau i gydgysylltu gweithrediadau morwrol ar draws llywodraeth. Bydd Rheolaeth Elfen Forwrol y Llynges Frenhinol yn Bahrain yn parhau i sicrhau llif masnach yn y Gwlff, yn cynnwys drwy gymorth i ran o'r Strwythur Diogelwch Morwrol Rhyngwladol newydd.
- Cyfrannu at ddiogelwch morwrol ehangach, yn cynnwys mynd i'r afael â môr-ladrad oddi ar lannau Gorllewin Affrica fel cyd-gadeirydd Grŵp Cyfeillion Gwlff Guinea y G7 yn 2021.

## 4.3 Meithrin cadernid iechyd

12. Mae'n debygol y bydd achosion o glefydau heintus yn digwydd yn amlach yn y blynyddoedd nesaf, tra bydd ymwrthedd gwrthficrobaidd yn parhau'n her hirdymor i iechyd pobl. Fel y mae COVID-19 wedi dangos, mae argyfyngau iechyd o'r fath yn gallu dod â chanlyniadau dinistriol i bobl, yr economi a chymdeithas, gan roi prawf ar ymatebion cenedlaethol a'r system iechyd fyd-eang, a rhoi straen ar gydweithredu rhyngwladol.

13. Rhaid i ni ddysgu'r gwersi o'r pandemig COVID-19, **gan gryfhau ein hymdrechion domestig a rhyngwladol i ymateb i risgiau iechyd byd-eang** yn rhan o'n dull ehangach o ddelio â bioddiogelwch.[4] Wrth wneud hynny, adeiladwn ar sail ein dull Un Iechyd sy'n cydnabod y cysylltiad agos rhwng iechyd pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd. Gan adlewyrchu natur gydgysylltiedig ein system iechyd fyd-eang, parhawn â'n cefnogaeth i raglenni iechyd mewn gwledydd sy'n datblygu. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â phartneriaid, yn cynnwys yr UE a'r banciau datblygu amlochrog, ar faterion fel ymwrthedd gwrthficrobaidd, AIDS, twbercwlosis a malaria. Byddwn yn **rhoi blaenoriaeth i'r camau gweithredu** hyn:
    - **Cyflymu mynediad teg at frechlynnau, therapiwteg a diagnosteg COVID-19 ledled y byd** fel y ffordd gyflymaf at adferiad cenedlaethol a byd-eang o'r argyfwng presennol. Ein nod yw bod wedi cynnig y dos cyntaf o frechlyn coronafeirws i'r holl boblogaeth o oedolion yn y DU erbyn diwedd Gorffennaf 2021 o dan ein rhaglen frechu ddomestig, sydd hefyd yn cwmpasu ein Tiriogaethau Tramor. Bydd y DU yn parhau i helpu gwledydd sy'n datblygu i gael mynediad at frechlynnau COVID-19 drwy Ragymrwymiad Marchnad COVAX, drwy ein cyfraniad o £548 miliwn, arweiniad parhaus ar gau'r bwlch ariannu, a chymorth i

4 Y diffiniad o fioddiogelwch yw amddiffyn y DU a'n buddiannau rhag risgiau biolegol (yn enwedig brigiadau sylweddol o achosion o glefyd) pa un a fydd y rhain yn codi'n naturiol, drwy ddigwyddiad llai tebygol lle mae deunydd biolegol peryglus wedi'i ryddhau'n ddamweiniol o gyfleusterau labordy, neu o ganlyniad i ymosodiad biolegol bwriadol. Gallai'r risgiau hyn effeithio ar bobl, anifeiliaid neu blanhigion.

gymeradwyo brechlynnau'n gyflym yn unol â safonau rhyngwladol ar ddiogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi ymrwymo i rannu'r mwyafrif o unrhyw frechlynnau dros ben o'n cyflenwad yn y dyfodol â COVAX, tra bydd ein hymrwymiad o £1.65 biliwn dros bum mlynedd i Gavi, y Gynghrair Frechlynnau, yn helpu i imiwneiddio plant yng ngwledydd tlotaf y byd. Ac er mwyn ategu'r gallu i ddarganfod amrywiolynnau COVID-19 newydd drwy'r byd, bydd ein harbenigwyr hefyd yn cynnig cymorth o ran dilyniannu genomau i wledydd eraill drwy'r Llwyfan Asesu Amrywiolynnau Newydd.

- **Adolygu ac atgyfnerthu'r dull o ddelio â bioddiogelwch ar draws llywodraeth,** yn rhan o'n hymdrechion i ddysgu'r gwersi o'r ymateb i COVID-19 a meithrin ein cadernid cenedlaethol. Bydd ein hadolygiad parhaus o gyfrifoldeb dros fioddiogelwch o fewn llywodraeth yn cyfrannu at ystyriaeth yn y dyfodol i strategaeth bioddiogelwch ddiwygiedig a newidiadau posibl ym mheirianwaith llywodraeth.
- **Gwella parodrwydd y DU at bandemigau yn y dyfodol, gan ddilyn dull Un Iechyd.** Yn dilyn creu'r Gyd-ganolfan Bioddiogelwch a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Diogelu Iechyd yn 2020, byddwn yn gwella gwyliadwriaeth, dealltwriaeth a chyfathrebu ynghylch bygythiadau domestig a thrawsffiniol newydd i iechyd, yn cynnwys milheintiau.[5] Byddwn yn dadansoddi senarios ac yn cynllunio wrth gefn yn y DU, yn cynnwys gwaith i sicrhau bod cadwyni cyflenwi meddygol yn gydnerth. A byddwn yn adolygu ein stôr cenedlaethol o nwyddau a gwrthfesurau clinigol fel cyfarpar diogelu personol, gallu ychwanegol i gynnal profion a chyfarpar labordai, gan sicrhau eu bod yn cwrdd â'r rhagdybiaethau cynllunio yng Nghofrestr Risgiau Cenedlaethol 2020.
- **Diwygio'r system iechyd fyd-eang,** gan wella cydlyniant yn y strwythurau rhyngwladol – yn cynnwys hynny rhwng sefydliadau iechyd ac economaidd – a harneisio'r defnydd o ddata i wella gwyliadwriaeth iechyd fyd-eang. Byddwn yn ceisio sicrhau diwygio Sefydliad Iechyd y Byd, gan ei gefnogi drwy gynyddu cyllid craidd y DU 30% i £340 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Byddwn yn cefnogi systemau iechyd cryfach drwy'r byd, gyda gwell gallu i gydymffurfio â'r Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol. Er mwyn cryfhau'r dull Un Iechyd drwy'r byd, byddwn yn ceisio sefydlu Canolfan Gwybodaeth Un Iechyd Fyd-eang, i ddarparu ffynhonnell wybodaeth sengl i wledydd a sefydliadau ar risgiau i bobl, anifeiliaid a'r amgylchedd, yn ogystal â rhwydweithiau byd-eang o arbenigwyr ar filheintiau a chanolfannau rhagoriaeth milheintiau – yn cynnwys canolfan yn y DU. Byddwn hefyd yn cryfhau ymdrechion domestig a rhyngwladol i wrthweithio'r bygythiad o ymwrthedd cynyddol i fiotigau.
- **Gwella parodrwydd byd-eang at bandemigau,** gan adeiladu ar sail cynllun pum pwynt y Prif Weinidog i atal pandemigau yn y dyfodol. Bydd y DU yn ceisio cyflymu'r gwaith o ddatblygu a defnyddio brechlynnau, therapiwteg a diagnosteg ar gyfer clefydau newydd, gan ddefnyddio ein llywyddiaeth ar y G7 i leihau'r cyfnod ar gyfer datblygu a chyflwyno brechlynnau ar gyfer pathogenau sydd â blaenoriaeth i 100 diwrnod drwy bartneriaeth rhwng llywodraethau, diwydiant a sefydliadau rhyngwladol. Byddwn hefyd yn ceisio cynyddu a gwella'r ymchwil a datblygu ar gyfer brechlynnau, therapiwteg a diagnosteg, yn cynnwys drwy ddilyniannu genomau ac asesu cysylltiadau â milheintiau; mwy o arloesi o ran storio a defnyddio brechlynnau; a safoni treialon clinigol a harneisio data. Byddwn hefyd yn sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer paratoi ac ymateb i bandemigau, ac yn ystyried y posibilrwydd o gytuniad parodrwydd at bandemigau o dan arweiniad Sefydliad Iechyd y Byd, i wella cydweithio a chydweithredu rhyngwladol.

5 Clefydau wedi'u hachosi gan feirysau, bacteria neu barasitiaid sy'n ymledu o anifeiliaid i bobl.

### Cadernid ac ymfudo

Mae'n debygol y bydd ymfudo ar draws ffiniau'n cynyddu dros y degawd nesaf, wedi'i sbarduno gan dwf yn y boblogaeth fyd-eang a newid hinsawdd, ansefydlogrwydd a ffactorau economaidd. Bydd hyn yn dod â chanlyniadau i nifer o wledydd o gwmpas y byd, yn cynnwys y DU.

Mae hanes hir a chadarnhaol o ymfudo yn y DU. Bydd y rhan fwyaf o ymfudwyr yn symud drwy lwybrau diogel, cyfreithlon. Mae'r buddion economaidd o wneud hynny yn fawr iawn – i wledydd sy'n eu derbyn, yn cynnwys y DU, ac i'w gwledydd gwreiddiol, er enghraifft drwy anfon taliadau. Yn dilyn ein hymadawiad â'r UE, defnyddiwn ein system mewnfudo newydd sy'n seiliedig ar bwyntiau i sicrhau'r talentau sydd eu hangen ar gyfer sectorau allweddol yn ein heconomi, yn enwedig i gadw ein mantais gystadleuol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, sy'n hanfodol i gynhyrchiant a swyddi mewn sectorau eraill ym mhob rhan o'r DU.

Fel grym er daioni yn y byd, bydd y DU yn aros yn sensitif i ofid ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae gennym hanes anrhydeddus o amddiffyn y rheini sydd mewn angen, yn unol â'n rhwymedigaethau rhyngwladol. Mae ein cynlluniau adsefydlu wedi darparu llwybrau diogel a chyfreithlon i ddegau o filoedd o bobl gael dechrau bywyd newydd yn y DU. Er 2015, rydym wedi adsefydlu mwy na 25,000 o ffoaduriaid drwy ein holl gynlluniau adsefydlu, tua hanner ohonynt yn blant, yn cynnwys nifer mawr a effeithiwyd gan y gwrthdaro yn Syria.

Mae'r DU wedi ymrwymo hefyd i fynd i'r afael ag ymfudo afreolaidd am ei fod yn peryglu bywydau, a bywydau'r rhai mwyaf agored i niwed yn aml, ac am ei fod yn faich ar wledydd sy'n derbyn ymfudwyr. Cydweithiwn â phartneriaid yn Ewrop a thu hwnt i reoli symudiad pobl yn y cylch Ewropeaidd ehangach, yn cynnwys hynny i gyfeiriad y DU – pa un a ydynt yn chwilio am gyfleoedd economaidd mewn gwledydd tramor neu'n dianc rhag ansefydlogrwydd gartref.

Gall llifau ymfudo o'r fath fod yn gymhleth, gan rychwantu nifer o awdurdodaethau dros bellter mawr. Byddwn yn delio â'r llwybr ymfudo o'r dechrau i'r diwedd, gan weithio drwy ein rhwydwaith diplomyddol a datblygu ar hyd llwybrau ymfudo allweddol – o Affrica drwy Fôr y Canoldir, o'r Dwyrain Canol drwy ddwyrain Môr y Canoldir ac o Asia drwy Ddwyrain Ewrop. Wrth wneud hynny, byddwn yn helpu i hybu sefydlogrwydd a gwella amodau economaidd-gymdeithasol mewn rhanbarthau gwan, gan roi sylw drwy hynny i'r materion sy'n sbarduno ymfudo afreolaidd yn y lle cyntaf. Byddwn hefyd yn meithrin gallu ar lefel uwch ar gyfer gorfodi, yn cynnwys camau i ddelio â throseddau mewnfudo cyfundrefnol sy'n camfanteisio ar bobl agored i niwed. Byddwn yn amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, yn cynnwys drwy gynnig cymorth i ddioddefwyr masnachu mewn pobl, caethwasiaeth fodern a chamfanteisio.

Byddwn yn dychwelyd pobl sydd heb hawl i aros yn y DU i'w gwledydd gwreiddiol neu i wlad ddiogel arall, gan newid cydbwysedd y system lloches i ddileu'r cymhelliad i ddefnyddio llwybrau anghyfreithlon penodol ac i gryfhau'r broses dychwelyd. Byddwn hefyd yn cynyddu ein gallu i ddelio â'r her ymfudo yn y Sianel, yn cynnwys rhoi pen ar y croesi peryglus, anghyfreithlon a diangen mewn cychod bach, drwy gydweithredu â Ffrainc a chymdogion agos eraill.

# V. Gweithredu'r Adolygiad Integredig

1. Mae'r Adolygiad Integredig wedi gosod uchelgeisiau newydd ac ymestynnol ar gyfer diogelwch gwladol a pholisi rhyngwladol y DU mewn cyd-destun byd-eang sy'n fwyfwy cymhleth, cystadleuol a chydgysylltiedig. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar strwythurau a galluoedd mwy integredig, ymaddasol ac arloesol, yn cyrraedd yn bellach na llywodraeth ganolog lle bo angen.

2. Nid yw 'integreiddio' yn thema newydd yn null gweithredu'r DU ar ddiogelwch gwladol, er bod y termau a ddefnyddiwyd i'w ddisgrifio mewn amrywio dros amser. Mae systemau a galluoedd wedi'u hintegreiddio fwyfwy ar draws ac o fewn adrannau, yn fwyaf gweladwy drwy unedau ar y cyd, mecanweithiau ariannu ar y cyd a mecanweithiau llywodraethu ar draws Whitehall, a'r Cyngor Diogelwch Gwladol (NSC) ar y brig. Roedd sefydlu'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn 2020 yn dangos bwriad y Llywodraeth i sicrhau integreiddio dyfnach yng ngalluoedd a dulliau darparu rhyngwladol y DU, ac yn cydnabod bod strwythurau trefniadol sylfaenol yn bwysig o hyd. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer hwyluso ffyrdd integredig o lunio a chyflawni strategaethau ar draws llywodraeth a thu hwnt, gan sicrhau bod uchelgeisiau'r Adolygiad Integredig yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

## Cryfhau strategaethau a gweithredu

3. Bydd yr NSC yn parhau'n brif fecanwaith ffurfiol lle bydd gweinidogion yn pennu strategaeth a pholisi ar y cyd ar ddiogelwch gwladol, ac yn goruchwylio eu gweithredu. Yn 2018, roedd yr Adolygiad o Allu Diogelwch Gwladol wedi diwygio'r strwythurau sy'n cynnal yr NSC ac wedi cyflwyno mecanweithiau newydd ar draws Whitehall i ddarparu cyngor a helpu i weithredu ei flaenoriaethau. Mae'r diwygiadau hyn wedi bod yn effeithiol mewn rhai meysydd, fel bod y cyngor ar faterion strategol cymhleth yn fwy cydlynol a strwythuredig, a gwell cymorth i gydgysylltu dulliau darparu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae angen mwy o hyblygrwydd ac ystwythder yn y ffordd y mae adrannau'n delio â heriau trawsbynciol, gydag atebolrwydd cliriach am gyflawni o dan oruchwyliaeth gryfach gan weinidogion. Dylai gweinidogion gymryd rhan ar y cyd wrth ddechrau llunio polisïau ac mae angen rhoi mwy o bwyslais ar weithredu effeithiol, yn cynnwys wrth adrodd i'r NSC ac mewn adolygu ganddo.

4. Felly bydd y Cynghorydd Diogelwch Gwladol yn adolygu systemau a phrosesau diogelwch gwladol i sicrhau bod amcanion a chamau gweithredu sydd â blaenoriaeth yn yr Adolygiad Integredig, yn ogystal â phenderfyniadau polisi yn y dyfodol, yn cael eu gweithredu'n gyflym ac effeithiol, ac i sefydlu systemau sy'n rhoi gwell cymorth i'r NSC.

## Blaenoriaethau ar gyfer diwygio

5. **Gallu strategol:** mae cryfhau gallu ar y cyd o ran strategaeth yn hanfodol ar gyfer gweithredu llwyddiannus, integredig. Yn ystod proses yr Adolygiad Integredig, rydym wedi datblygu neu arfer nifer o offer a thechnegau ar gyfer dadansoddi, asesu a herio strategol, yn ogystal â gwella cysylltiadau â nifer o gyrff allanol er mwyn datblygu polisi. Bydd rhywfaint o'r gallu hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn rhoi cymorth parhaus i weithredu a datblygu strategaeth. Mae hyn yn cynnwys:
   - Gwell sgiliau a gallu technolegol mewn swyddogaethau strategaeth.
   - Gallu o ran cyfathrebu strategol ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

- Gwell mynediad at dystiolaeth, yn cynnwys y defnydd o syniadau ar gyfer y dyfodol, technegau rhag-weld, data a herio.
- Mae'r swyddogaeth Asesu Net newydd yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn enghraifft o'r math o allu a grëwn ar gyfer llunio strategaethau ar draws llywodraeth.

6. **Digidol a data:** bydd angen parhau i ganolbwyntio ar y gallu i ryngweithredu drwy strwythurau, safonau a dulliau datblygu fel bod timau ar draws llywodraeth yn gallu cydweithio'n effeithiol ar bob lefel diogelwch. Bydd angen seilio hyn ar fuddsoddi yn llwyfannau technoleg, data a digidol diogel y genhedlaeth nesaf, ar sgiliau ac ar bwyslais ar wella arferion rheoli gwybodaeth a hysbysrwydd. Canolbwyntiwn ar y defnydd cyfrifol o lwyfannau data, offer digidol a phrosesau cyfranogol newydd er mwyn helpu i lunio polisi a gwella cynwysoldeb a thryloywder. Bydd ein Swyddfa Digidol a Data Ganolog newydd yn gyfrwng pwysig i sicrhau newid pellach.

7. **Diwylliant, amrywiaeth a chynhwysiant:** mae'n hanfodol sicrhau diwylliant sy'n hybu integreiddio, addasu ac arloesi. Y gymuned diogelwch gwladol oedd un o'r rhannau cyntaf o'r Llywodraeth i dreialu dull newydd ar draws y Gwasanaeth Sifil i newid diwylliant. Gan gydnabod bod amrywiaeth a chynhwysiant yn hanfodol i weithrediadau, rydym wedi hyrwyddo mentrau fel y pecyn 'Mission Critical' ar gyfer staff a byrddau cysgodol. Wrth wneud hynny, rydym wedi elwa o'r gwersi a ddysgwyd mewn adroddiadau, yn cynnwys yr Adolygiad o Gudd-wybodaeth am Arfau Distryw Mawr (Butler), Adroddiad Ymchwiliad Irac (Chilcot) a Windrush Lessons Learned (Williams). Rydym hefyd wedi rhoi prawf ar ddulliau arloesol o ran mentora o chwith, targedu recriwtio a datblygu, trawsnewid fetio ar gyfer diogelwch gwladol, addasiadau i'r gweithle ac allgymorth digidol.

8. Er hynny, mae llawer o waith i'w wneud eto o ran harneisio'r persbectifau a phrofiad amrywiol sy'n sbarduno arloesi ac addasu ac o ran cynnal yr ymddygiadau cydweithredol, ystwyth a chynhwysol sydd eu hangen ar gyfer integreiddio. Byddwn yn dysgu gwersi o'r trefniadau a wnaed yn ystod y pandemig COVID-19 a oedd yn dangos y potensial i weithio'n fwy hyblyg a chynhwysol. Bydd angen:
    - Meithrin gwell cysylltiadau â'r bobl a wasanaethwn a bod yn gwbl gynrychiadol ohonynt.
    - Er bod rhywfaint o gynnydd, mae llawer o waith i'w wneud eto yn y gymuned diogelwch gwladol a pholisi rhyngwladol.
    - Meithrin diwylliant sy'n hybu mwy a gwahanol fathau o heriau, gan wneud rhagor i ddatblygu galluoedd fel dulliau asesu gwrthwynebol er mwyn lliniaru'r tueddiadau gwybyddol sy'n effeithio ar benderfynu.
    - Datblygu dull strategol o recriwtio a datblygu er mwyn cynyddu llif ac amrywiaeth y bobl sy'n gadael ac yn ymuno â'r gymuned fel bod gennym gyflenwad dibynadwy o dalentau amrywiol ar gyfer y dyfodol.
    - Targedu rolau ar gyfer recriwtio allanol lle byddai profiad o'r fath yn llesol, a lleoli mwy o wahanol fathau o rolau yn holl ranbarthau'r DU.

9. **Proffesiynoli, hyfforddiant a sgiliau:** bydd y gallu i gyflawni'r Adolygiad Integredig yn dibynnu ar y gallu i gael pobl sydd â'r sgiliau, profiad a chliriad diogelwch priodol i ffurfio timau hyblyg, amrywiol ac amlddisgyblaethol. Mae profiad rheolaidd o gydweithio, mwy o ymdrechion yn y blynyddoedd diwethaf i ddatblygu cyrsiau proffesiynol perthnasol, a datblygu clystyrau o wasanaethau fetio diogelwch yn bethau sy'n helpu i feithrin y galluoedd hyn. Er hynny, mae angen gwneud cynnydd yn gynt. Wrth baratoi at yr Adolygiad o Wariant nesaf, byddwn yn adolygu'r achos o blaid cael Coleg Diogelwch Gwladol pwrpasol yn rhan o'r Cwricwlwm a Champws newydd ar gyfer Sgiliau Llywodraeth. Byddai hyn yn gallu uwchraddio ein gweithlu a'r offer sydd ar gael iddo, gan hybu newid mewn diwylliant, darparu llwyfan ar gyfer cydweithio rhyngwladol a sefydlu gwyddoniaeth a thechnoleg yn sgil craidd. Byddwn yn gwneud defnydd pellach o luoedd wrth gefn i hyrwyddo blaenoriaethau o bob math ar gyfer diogelwch gwladol ac yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer cynyddu'r llu o sifiliaid wrth gefn.

## Gweithredu

10. Mae'r Llywodraeth wedi lansio Fframwaith Perfformiad a Chynllunio newydd ac mae'n sefydlu Tasglu Gwerthuso. Mae'r Fframwaith yn nodi canlyniadau sydd â blaenoriaeth, yn cynnwys pedwar a fydd yn cwmpasu prif themâu'r Adolygiad Integredig ac sydd i'w cefnogi gan nifer o adrannau. Bydd adrannau Llywodraeth yn datblygu Cynlluniau Sicrhau Canlyniadau a bydd gweinidogion yn cael adroddiadau perfformiad rheolaidd am y rhain. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i fonitro gweithredu (prosiectau, rhaglenni ac allbynnau) a mesur effaith (canlyniadau a buddion), yn ogystal ag ategu mecanweithiau monitro eraill i dracio cyflawniadau, fel Portffolio Prosiectau Mawr y Llywodraeth.

11. Cyhoeddir Papur Gorchymyn ar Amddiffyn ochr yn ochr â'r Adolygiad Integredig, yn amlinellu cynlluniau ar gyfer amddiffyn yn fwy manwl. Bwriadwn gyhoeddi rhagor o strategaethau, yn cynnwys rhai ar gadernid, seiber a datblygu rhyngwladol, maes o law. Bydd cyfleoedd pellach mewn Adolygiadau o Wariant yn y dyfodol i gydweddu cynlluniau gwariant â'r blaenoriaethau a bennwyd gan yr Adolygiad Integredig.

# Atodiad A: Blaenoriaethau'r Adolygiad Integredig a ariannwyd yn Adolygiad o Wariant 2020

Mae'r Adolygiad Integredig yn disgrifio gweledigaeth y Prif Weinidog ar gyfer y DU lle bydd yn gryfach gartref ac yn y byd, gan sicrhau ein bod yn gallu gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer Prydain Fyd-eang. Adlewyrchir y weledigaeth honno mewn penderfyniadau ar wariant yn Adolygiad o Wariant 2020, yn cynnwys setliadau ariannol a chyllid ar gyfer mentrau newydd. Mae Adolygiad o Wariant 2020 wedi ein rhoi ar ben ffordd i gyflawni ein canlyniadau gan ddarparu cyllid ar sail blaenoriaeth ar gyfer meysydd cadernid, diogelwch, newid hinsawdd, ymchwil a datblygu domestig, technoleg lân a chynnal ein rhwydwaith milwrol blaengar a'n rhwydwaith diplomyddol o'r radd flaenaf. Bydd y Fframwaith Strategol yn llywio Adolygiadau o Wariant yn y dyfodol pan fydd rhagor o gyfleoedd i gydweddu adnoddau ag uchelgais dros y tymor hwy.

Mae'r adran hon yn dangos y mesurau penodol yn Adolygiad o Wariant 2020 a fydd yn helpu i gyflawni'r Fframwaith Strategol. Rydym wedi rhannu'r wybodaeth isod yn gategorïau pennod ond mae'r rhan fwyaf o'r galluoedd a ddisgrifiwyd yn rhai trawsbynciol ac fe'u defnyddir ar gyfer gweithgarwch a ddisgrifiwyd mewn mwy nag un bennod.

| Ymrwymiad Adolygiad o Wariant 2020 | Disgrifiad |
|---|---|
| **1. Mantais strategol drwy wyddoniaeth a thechnoleg** | |
| **Technolegau ynni glân (BEIS)** | • £1bn ar gyfer Dal a Storio Carbon a chymorth i'r diwydiant cynhyrchu hydrogen carbon isel gyda Chronfa Hydrogen Sero Net newydd o £240 miliwn a £81 miliwn i dreialu gwresogi â hydrogen. |
| **Ymchwil a datblygu (BEIS)** | Cyllid o bron £15bn yn cynnwys:<br>• Ymrwymiad i gynyddu'r buddsoddi mewn ymchwil a datblygu ar draws yr economi i 2.4% o gynnyrch domestig gros erbyn 2027.<br>• Setliad aml-flwydd ar gyfer cyllidebau ymchwil craidd yr Academïau Cenedlaethol ac Ymchwil ac Arloesi yn y DU, a fydd yn tyfu mwy na £400 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd dros y tair blynedd nesaf.<br>• Erbyn 2023-24 bydd y Llywodraeth yn buddsoddi £1.4bn yn rhagor bob blwyddyn mewn cyllid craidd ar gyfer ei sylfaen ymchwil o'r radd flaenaf.<br>• Hyd at £17 miliwn yn 2021-22 i sefydlu uned a chronfa newydd a fydd yn canolbwyntio ar y filltir olaf o arloesi er mwyn helpu i sicrhau bod asedau gwybodaeth y sector cyhoeddus (ymchwil a datblygu, eiddo deallusol, ac asedau anniriaethol eraill) yn cael eu troi'n swyddi uwch-dechnoleg newydd, busnesau a thwf economaidd.<br>• Mae rhaglenni grant Innovate UK a Rhwydwaith y Catapwlt yn darparu cymorth hanfodol i fusnesau arloesol bach a chanolig eu maint a darparwyd £490 miliwn ar gyfer cyllidebau craidd Innovate UK y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn helpu cwmnïau uwch-dechnoleg ledled y DU i ddatblygu technolegau'r dyfodol. |

| Ymrwymiad Adolygiad o Wariant 2020 | Disgrifiad |
|---|---|
| **Ymchwil a Datblygu Amddiffyn** | • Buddsoddi o leiaf £6.6bn mewn ymchwil a datblygu, fel y gellir ymchwilio i ddeallusrwydd artiffisial a thechnolegau eraill i ennill brwydrau yn rhan o setliad pedair blynedd y Weinyddiaeth Amddiffyn (gweler isod). |
| **Ymchwil a datblygu asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y DU** | • £695 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer ymchwil a datblygu rhwng 2021-22 a 2024-25. I helpu i ddatblygu galluoedd arloesol yn yr asiantaethau. |
| **Llu Seiber Cenedlaethol (MOD)** | • Mae setliad y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnwys cyllid ar gyfer y Llu Seiber Cenedlaethol mewn partneriaeth â'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth i wella sefyllfa'r DU fel pŵer seiber cyfrifol, democrataidd. |
| **Seiberddiogelwch (NCSP)** | • Buddsoddiad dilynol o £305 miliwn yn 2021-22 yn y Rhaglen Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSP) i ariannu prosiectau seiberddiogelwch trawsnewidiol er mwyn cynorthwyo adrannau, y sector preifat a chymdeithas ehangach. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi'r DU i aros ar y blaen wrth weithredu ar lefel fyd-eang i sicrhau dyfodol digidol diogel a mabwysiadu technoleg newydd yn llwyddiannus i hybu cadernid a thwf economaidd. Mae cyllid ychwanegol o £18 miliwn yn 2021-22 ar gyfer rhaglenni rhyngwladol i feithrin gallu seiber, digidol a data, a phrosiectau o'r Gronfa Gwrthdaro, Sefydlogrwydd a Diogelwch. |
| **Digidol a data (DCMS)** | • £45 miliwn ar gyfer rhaglenni i sbarduno twf drwy dechnolegau digidol a data, gan wella diogelwch a sicrwydd ar-lein. |
| **2. Siapio trefn ryngwladol agored y dyfodol** | |
| **Rhwydwaith diplomyddol (FCDO)** | • Buddsoddi ym mhrosiectau stadau blaenoriaethol FCDO er mwyn darparu llwyfan modern, diogel ar gyfer ein rhwydwaith mewn gwledydd tramor. |
| **Masnach (DIT)** | • Parhau i weithredu polisi masnach annibynnol newydd y DU – yn cynnwys parhau â negodiadau masnach â'r Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd, a derbyn y DU i'r CPTPP – gyda'r nod o allu cynnwys 80% o fasnach y DU o dan gytundebau masnach erbyn diwedd 2022. |
| **Pŵer meddal (FCDO/DCMS/DfE)** | • Parhau â chymorth i'r British Council (£150 miliwn o Gymorth Datblygu Swyddogol a £39 miliwn o gyllid grant nad yw'n Gymorth Datblygu Swyddogol gan FCDO ar gyfer 2021- 22, a chymorth ariannol ychwanegol i ganiatáu i'r British Council ddiwygio a buddsoddi).<br>• Mwy na £284 miliwn ar gyfer orielau ac amgueddfeydd.<br>• Mwy na £150 miliwn i barhau i atgyfnerthu ein seilwaith diwylliannol a threftadaeth, yn cynnwys drwy'r Gronfa Buddsoddi Diwylliannol a'r Gronfa Seilwaith Amgueddfeydd. |

| Ymrwymiad Adolygiad o Wariant 2020 | Disgrifiad |
|---|---|
| **Pŵer meddal (FCDO/DCMS/DfE)** | • Buddsoddiad cyfalaf o fwy na £100 miliwn ar gyfer cyrff a noddir gan DCMS sy'n gweithio ym meysydd diwylliant, treftadaeth a chwaraeon.<br>• £72 miliwn yn 2021-22 i gynnal yr ymrwymiad i adeiladu 20 o Athrofeydd Technoleg.<br>• Mwy na £42 miliwn i VisitBritain i hyrwyddo'r DU ymysg ymwelwyr o bob rhan o'r byd, gan wneud gwerthoedd y DU yn fwy cyfarwydd. |
| **Troseddu economaidd (HO)** | • £63 miliwn i fynd i'r afael â throseddu economaidd, yn cynnwys diwygio'r system Adroddiadau Gweithgarwch Amheus, ac i dyfu'r NECC, sy'n cydgysylltu ymateb gorfodwyr y gyfraith i wyngalchu arian.<br>• £20 miliwn i helpu i ddiwygio cofrestr Tŷ'r Cwmnïau. |
| **3. Cryfhau diogelwch ac amddiffyn gartref a thramor** | |
| **Amddiffyn (MOD)** | • Cynnydd o fwy na £24bn yn nhermau arian parod dros bedair blynedd, yn cynnwys o leiaf £6.6bn ar gyfer ymchwil a datblygu (fel y nodwyd uchod) i gynnal lluoedd arfog o'r radd flaenaf. Mae hyn yn cadarnhau ymrwymiad y DU i'w chynghreiriaid, fel mai'r DU yw'r wlad Ewropeaidd sy'n gwario'r swm mwyaf ar amddiffyn yn NATO a'r swm ail fwyaf yn y Gynghrair.<br>• Y cyllid ychwanegol yn y setliad hwn fydd:<br>◦ Galluogi ymchwil i ddeallusrwydd artiffisial a thechnolegau eraill i ennill brwydrau.<br>◦ Ail-lunio lluoedd arfog y DU ar gyfer oes fwy cystadleuol.<br>◦ Sefydlu Rheolaeth Ofod newydd i ehangu ein galluoedd yn y gofod.<br>◦ Parhau i adnewyddu atalfa niwclear y DU.<br>◦ Datblygu'r genhedlaeth nesaf o longau'r llynges, yn cynnwys ffrigadau Math 32 a llongau Fleet Solid Support, a chyflawni ein cynlluniau ar gyfer wyth ffrigad Math 26 a phum ffrigad Math 31.<br>◦ Cynyddu ein galluoedd o ran awyrennau ymosod ar longau awyrennau, ac o leiaf 48 o awyrennau F-35 erbyn 2025.<br>◦ Datblygu'r prosiect Future Combat Air System i'r Awyrlu Brenhinol, yn ogystal â darparu offer radar Typhoon wedi'u huwchraddio.<br>◦ Hyrwyddo sefyllfa'r DU fel pŵer seiber democrataidd, cyfrifol (fel y nodwyd uchod). |

| Ymrwymiad Adolygiad o Wariant 2020 | Disgrifiad |
|---|---|
| **CBRN – gallu'r atalfa niwclear (HO)** | • Cyllid adnoddau o £22 miliwn yn 2021-22 a chyllid cyfalaf o £329 miliwn rhwng 2021-22 a 2024-25 i wella galluoedd darganfod niwclear. |
| **Cronfa Gwrthdaro, Sefydlogrwydd a Diogelwch** | • £874 miliwn i hyrwyddo diogelwch gwladol a chadernid y DU drwy ymgysylltu dramor. Mae hyn yn ymwneud â delio ag ansefydlogrwydd, atal gwrthdaro a helpu i feithrin gallu. |
| **Ffiniau (HO/CO)** | • £217 miliwn i'r Swyddfa Gartref i ddarparu System Ffiniau a Mewnfudo'r Dyfodol, system mewnfudo newydd seiliedig ar bwyntiau sy'n unol ag uchelgais y Llywodraeth i gael y ffin fwyaf effeithiol yn y byd erbyn 2025.<br>• £1bn ychwanegol i CThEM i ddiwygio a gwella system dollau'r DU ynghyd â £363 miliwn i recriwtio 1,100 o swyddogion i Lu Ffiniau'r DU i gyflawni trefniadau pontio a gyfer tollau a pharhau i gydweithredu ar orfodi'r gyfraith ag aelod-wladwriaethau'r UE o 1 Ionawr 2021.<br>• Cyllid sbarduno o £16 miliwn i Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Grŵp Cyflawni'r Ffin a'r Protocol ar gyfer gwaith trawsnewidiol ar y ffin a fydd yn helpu i ddatblygu Ffenestr Masnach Sengl. |
| **Gwrthderfysgaeth (HO/asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y DU)** | • Cynhaliwyd y gyllideb ar gyfer plismona gwrthderfysgaeth yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys y £70 miliwn ychwanegol a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ar gyfer 2021-22.<br>• Sefydlu Canolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth i drawsnewid ein gallu i ymladd yn erbyn terfysgaeth drwy greu canolfan gwrthderfysgaeth integredig. |
| **Troseddu Difrifol a Chyfundrefnol (HO)** | • Parhau â'r cyllid presennol i fynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfundrefnol a pharhau â'r £30 miliwn ychwanegol a ddarparwyd yn Adolygiad o Wariant 2019 i ddelio â chamfanteisio rhywiol ar blant. |
| **Asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y DU** | • Cyllid ychwanegol o £695 miliwn ar gyfer ymchwil a datblygu rhwng 2021-22 a 2024-25 i helpu i ddatblygu galluoedd arloesol yn yr asiantaethau. |
| **Amrywiaethu Telathrebu (DCMS)** | • Er mwyn gwneud cynnydd buan ar amrywiaethu telathrebu a hyrwyddo'r gallu i wireddu ein gweledigaeth hirdymor, mae'r Llywodraeth wedi neilltuo buddsoddiad cychwynnol o £250 miliwn i ddechrau gwaith ar ein prif flaenoriaethau. |

| Ymrwymiad Adolygiad o Wariant 2020 | Disgrifiad |
|---|---|
| **4. Meithrin cadernid gartref a thramor** | |
| **Canolfan Sefyllfaoedd ac Ystafelloedd Briffio Swyddfa'r Cabinet (CO)** | • £9.3 miliwn i ddarparu cymorth parhaus ar gyfer swyddfeydd argyfwng COBR ac i sefydlu Canolfan Sefyllfaoedd a fydd yn darparu data byw, dadansoddiadau a mewnwelediadau i benderfynwyr ar yr hyn sy'n digwydd yn y DU ac o gwmpas y byd, gan roi mwy o allu i ni ganfod, deall ac ymateb i faterion ac argyfyngau diogelwch gwladol. |
| **Newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth** | • Buddsoddiad o £12bn i hybu chwyldro diwydiannol gwyrdd, yn cynnwys technolegau ynni glân arloesol, cynhyrchu hydrogen carbon isel, dal a storio carbon, ynni gwynt ar y môr a phŵer niwclear. Mae'n darparu cyllid ar gyfer cynllun deg pwynt y Prif Weinidog, sydd wedi amlinellu gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gan roi cymorth yr un pryd ar gyfer cannoedd o filoedd o swyddi ledled y DU.<br>• Gwnaeth y Prif Weinidog ymrwymiad yn 2019 i ddyblu Cyllid Hinsawdd Rhyngwladol y DU i o leiaf £11.6bn rhwng 2021 a 2025. Bydd Cyllid Hinsawdd Rhyngwladol yn helpu gwledydd sy'n datblygu i gyfyngu eu hallyriadau o nwyon tŷ gwydr ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.<br>• £5.2bn yn y rhaglen chwe blynedd nesaf ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, a £200 miliwn ar fesurau cadernid arloesol dros yr un cyfnod. Pwrpas y gwariant hwn yw diogelu cartrefi a chymunedau'n well rhag llifogydd ledled Lloegr a sicrhau eu bod yn fwy parod ar gyfer llifogydd.<br>• Mae hyn yn ategu dyraniadau i'r Gronfa Natur er mwyn Hinsawdd (£92 miliwn), y Gronfa Her Adferiad Gwyrdd (£80 miliwn) a £7 miliwn ychwanegol i warchod bioamrywiaeth yn y Tiriogaethau Tramor. |
| **Cadernid iechyd (DHSC, BEIS, MHCLG, FCDO)** | • £6bn i ddatblygu a chaffael brechlynnau COVID-19, yn ogystal â mwy na £5.4bn i helpu awdurdodau lleol i ymateb i COVID-19 yn 2020-21.<br>• £1.3bn i DHSC ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu i barhau â gwaith blaengar y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Genomics England a'u hymchwil i sicrhau gwell canlyniadau i gleifion, yn cynnwys ymchwil i COVID-19, yn ogystal â hybu'r sector gwyddorau bywyd ehangach yn y DU.<br>• £548 miliwn sydd ar gael drwy Ragymrwymiad Marchnad COVAX i helpu gwledydd sy'n datblygu i gael mynediad at frechlynnau COVID-19. |

| Ymrwymiad Adolygiad o Wariant 2020 | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cadernid iechyd (DHSC, BEIS, MHCLG, FCDO)** | • Cefnogi Sefydliad Iechyd y Byd drwy gyfraniad craidd o £340 miliwn dros bedair blynedd. Mae hyn yn gynnydd o 30% ar y cyllid presennol, sy'n golygu mai'r DU yw'r aelod-wladwriaeth sy'n cyfrannu'r swm ail fwyaf.<br>• Cefnogi Gavi, y Gynghrair Frechlynnau, drwy gyfraniad o £1.65bn dros bum mlynedd i helpu i imiwneiddio plant yng ngwledydd tlotaf y byd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau na fydd COVID-19 yn tanseilio ymdrechion byd-eang i ddiogelu rhag clefydau ataliadwy. |
| **Cymorth Datblygu Swyddogol** | • Defnyddir Cymorth Datblygu Swyddogol o £10bn yn 2021-22 i ymladd tlodi mewn gwledydd tramor, delio â newid hinsawdd, helpu merched i dderbyn addysg a gwella iechyd byd-eang. Bydd y DU yn gwario'r hyn sy'n cyfateb i 0.5% o incwm gwladol gros ar gymorth mewn gwledydd tramor yn 2021. |
| **Gweithredu'r Adolygiad Integredig** | |
| **ROSA (CO)** | • £2.2 miliwn i wella diogelwch, i ddiogelu ein data sensitif rhag bygythiadau newydd drwy fuddsoddi yn y system ROSA. |

# Atodiad B: Tystiolaeth ac ymgysylltu

1. Mae'r atodiad hwn yn disgrifio ein dull o gasglu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad Integredig. Ein huchelgais oedd seilio'r adolygiad ar y dystiolaeth, dadansoddiadau ac arbenigedd gorau a oedd ar gael, gan dynnu ar amrywiaeth fawr o ffynonellau o ansawdd da i greu llinell sylfaen ar bolisi tramor; ystyried barn partneriaid a rhanddeiliaid allweddol; ac ymdrin yn drwyadl â'r dystiolaeth drwy gydol y broses datblygu strategaeth.

2. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, cynhaliwyd rhaglen systematig o ymgysylltu, dadansoddi a herio. Roeddem wedi sefydlu prosesau a chynhyrchion newydd lle'r oedd angen llenwi bylchau a chyfrannu'n well at benderfynu. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn ystod y broses yn cyfrannu i'n dull o ymgysylltu a defnyddio tystiolaeth yn y dyfodol.

## Dull gweithredu

3. Roedd y rhaglen hon wedi'i bwriadu i helpu ym mhob cam o'r broses datblygu a drafftio strategaeth. Roedd hyn yn golygu cydweithio ag adrannau ac asiantaethau llywodraeth, rhwydweithiau tramor y DU, ac arbenigwyr, ymarferwyr a phartneriaid ym mhob rhan o'r byd. Yn benodol, roeddem wedi ceisio:
   - Canfod a deall y tueddiadau newydd a sefydledig yn y system ddomestig a rhyngwladol.
   - Tynnu sylw at yr hyn y gallai ac y dylai'r DU ei ddysgu gan wledydd eraill a chan y sector preifat.
   - Taflu goleuni ar gryfderau a gwendidau'r polisïau, prosesau, systemau a galluoedd presennol sydd gan y DU, a nodi'r hyn roedd angen ei newid.

4. Sefydlwyd mecanweithiau newydd i integreiddio ymdrechion ar draws llywodraeth fel bod yr Adolygiad yn elwa o'r holl arbenigedd ac adnoddau a oedd ar gael, yn cynnwys rhwydweithiau domestig a thramor eang a galluoedd asesu. Datblygwyd tair rhaglen o weithgareddau: ymgysylltu; dadansoddi ac asesu; a herio a sicrwydd.

## Ymgysylltu

5. Ein hamcan wrth ymgysylltu oedd cynnwys gwahanol safbwyntiau a syniadau polisi o bob rhan o'r DU ac o gwmpas y byd. Addaswyd y rhaglen yng nghyd-destun y pandemig COVID-19 i wneud pob defnydd o lwyfannau ar-lein a chyhoeddwyd galwad am dystiolaeth.

6. **Partneriaid a rhanddeiliaid rhyngwladol:** roedd Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ac wedyn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, wedi dylunio a darparu rhaglen ymgysylltu ryngwladol rithwir i gael cyfraniadau gan benaethiaid llysgenadaethau, gweinidogion ac uwch-swyddogion. Yn benodol, roedd uwch-swyddogion – yn cynnwys y Dirprwy Gynghorydd Diogelwch Gwladol ar gyfer yr Adolygiad Integredig a Chynghorydd Arbennig y Prif Weinidog ar Bolisi Tramor – wedi cynnal mwy na 100 o gyfarfodydd ymgysylltu â mwy na 20 o wledydd ar draws chwe chyfandir, gan ganolbwyntio'n neilltuol ar gynghreiriaid a phartneriaid allweddol. Gyda chymorth o Wilton Park, roeddem wedi galw ynghyd 22 o arweinwyr ifanc ac

arbenigwyr datblygol o 14 o wahanol wledydd i gael gwell dealltwriaeth o safbwyntiau pobl ar y dyfodol a'u huchelgeisiau ar ei gyfer.

7. **Ymgysylltu adrannol:** roedd adrannau ac asiantaethau llywodraeth wedi ymgynghori â rhwydweithiau a grwpiau rhanddeiliaid ledled y DU a thrwy'r byd er mwyn cyfrannu eu mewnbwn i'r Adolygiad Integredig. Er enghraifft, roedd y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu wedi sefydlu grŵp o arbenigwyr ac wedi cynnal cyfarfodydd bord gron ar themâu allweddol ac ymgynghorodd GO-Science â rhwydweithiau sefydledig fel Rhwydwaith Gwyddoniaeth ac Arloesi'r DU (SIN) i gyd-drefnu nifer o wahanol fewnbynnau gan arbenigwyr allanol. Roedd Prif Gynghorwyr Gwyddonol ar draws llywodraeth wedi chwarae rhan bwysig hefyd wrth wella safonau'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd drwy gydol yr Adolygiad Integredig. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gan Is-adran Ymchwil a Thystiolaeth y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i adolygu sylfaen dystiolaeth yr Adolygiad Integredig.

8. **Ymgysylltu â'r cyhoedd:** roedd yn hollbwysig cael persbectifau gan y cyhoedd ar gyfer yr Adolygiad Integredig, er y bu'n rhaid cyfyngu ar y broses oherwydd y pandemig COVID-19. Cynhaliwyd ymchwil newydd i gael dealltwriaeth o farn y cyhoedd am bolisi tramor a diogelwch gwladol gartref a thramor. Ar 13 Awst 2020, cyhoeddwyd galwad am dystiolaeth. Gofynnwyd am gyfraniadau ar amrywiaeth o gwestiynau am ddiogelwch, amddiffyn, datblygu a pholisi tramor. Cyflwynwyd mwy na 450 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Ymhlith yr ymatebwyr mewn sefydliadau roedd cynrychiolwyr amrywiaeth o ddiwydiannau, sefydliadau anllywodraethol, sefydliadau rhyngwladol, y byd academaidd, melinau trafod, llywodraeth leol, fforymau cydnerthedd lleol, y cyfryngau, sefydliadau crefyddol a sefydliadau'r heddlu ac awdurdodau tân. Roeddem wedi adolygu a chatalogio'r cyfraniadau a gyflwynwyd a'u rhannu wedyn â llunwyr polisi ac uwch-swyddogion ar draws llywodraeth.

9. **Ymgysylltu seneddol:** gwnaethom ddefnydd helaeth o adroddiadau gan y pwyllgorau seneddol perthnasol. Yn ystod proses yr Adolygiad Integredig, roedd swyddogion wedi briffio Pwyllgorau Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Amddiffyn, Materion Tramor a Datblygu Rhyngwladol. Rhoddodd y Prif Weinidog dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyswllt ar yr Adolygiad Integredig. Roedd yr Ysgrifennydd Tramor a'r Ysgrifennydd Amddiffyn hefyd wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgorau dethol adrannol perthnasol; roedd y Cynghorydd Diogelwch Gwladol ar y pryd wedi rhoi tystiolaeth i'r Cyd-bwyllgor ar y Strategaeth Diogelwch Gwladol; a'r Gweinidog Amddiffyn (Tŷ'r Arglwyddi) wedi arwain sesiynau briffio ar gyfer aelodau Tŷ'r Arglwyddi.

10. **Arbenigwyr ac ymarferwyr:** gyda chymorth gan Dîm Arloesi Agored y Llywodraeth a Wilton Park, roeddem wedi cynnwys academwyr ac arbenigwyr o fwy na 30 o wahanol sefydliadau a 20 o wledydd. Roedd hyn yn cynnwys pum sesiwn drafod wedi'u hwyluso a thri chyfarfod bord gron ag uwch-swyddogion. Roedd uwch-swyddogion wedi cynnal taith rithiol o felinau trafod sefydledig a chyrff ymchwil newydd. Yn ystod yr Adolygiad Integredig, roeddem wedi tracio gwaith yn fanwl mewn cyfnodolion, melinau trafod a chyrff ymchwil eraill ym mhob rhan o'r byd. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys dau adolygiad manwl o farn arbenigwyr, lle cafwyd mewnbwn gan 45 o academwyr ac ymarferwyr, i gasglu persbectifau am rôl y DU yn y byd dros y deng mlynedd nesaf, galluoedd y DU mewn meysydd perthnasol, a'r graddau y mae systemau presennol yn gwneud defnydd effeithiol ohonynt.

## Dadansoddi ac asesu

11. Roeddem wedi comisiynu dadansoddiadau ac asesiadau newydd i lenwi bylchau, wedi diweddaru dadansoddiadau presennol, ac wedi datblygu cynhyrchion dadansoddol newydd i gyfrannu at benderfynu a datblygu strategaeth.

12. **Rhagolygon strategol byd-eang:** roedd y gymuned asesu wedi cyd-drefnu dadansoddiad trawslywodraethol o dueddiadau byd-eang hyd at 2030. Roedd y gwaith dadansoddi hwn wedi gwneud defnydd o amrywiaeth o arbenigedd, yn cynnwys gwaith sganio'r gorwel a dadansoddi syniadau ar gyfer y dyfodol gan Ganolfan Datblygu, Cysyniadau a Dysgeidiaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn, GO-Science a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu. Amlinellwyd y tueddiadau byd-eang mwyaf arwyddocaol, ffactorau sbarduno a newid, a'u goblygiadau i ddiogelwch gwladol a pholisi tramor dros y degawd nesaf.

13. **Galluoedd a systemau:** roeddem wedi ceisio datblygu dealltwriaeth fanwl o alluoedd a systemau'r DU i gyfrannu at benderfyniadau ar strategaeth ac adnoddau. Cynhaliwyd asesiad trawslywodraethol i gael trosolwg ar wariant llywodraeth. Roeddem hefyd wedi cymharu galluoedd y DU â'r rheini sydd gan bartneriaid allweddol ac wedi cynnal dadansoddiad o ddiwylliant y gymuned diogelwch gwladol.

14. **Asesu risg:** mae'r ARDG yn ddogfen ddosbarthedig sy'n rhestru ac yn asesu effaith a thebygolrwydd y risgiau mwyaf difrifol sy'n wynebu'r DU a'i buddiannau dramor. Caiff ei chynhyrchu ar y cyd â'r holl adrannau ac asiantaethau ac adolygwyd ei chanfyddiadau yng nghyd-destun y pandemig COVID-19. Cyhoeddwyd fersiwn o'r ARDG, y Gofrestr Risgiau Genedlaethol, sydd ar gael i'r cyhoedd yn Rhagfyr 2020.

15. **Cynhyrchion i hwyluso penderfynu a datblygu strategaeth:** roeddem wedi ceisio gwneud y sylfaen dystiolaeth yn haws ei deall, gan gyfuno mewnbynnau lle'r oedd yn briodol. Roedd hyn yn cynnwys rhannu mewnwelediadau o'r sylfaen dystiolaeth yn rheolaidd.

## Herio a sicrwydd

16. Roeddem wedi rhoi prosesau herio a sicrwydd ar waith i roi prawf ar ein rhagdybiaethau ac ar syniadau a gododd yn ystod y broses datblygu strategaeth. Roedd y rhain wedi'u seilio ar nifer o wahanol offer a dulliau a oedd yn cynnwys:
    - **Ymchwil i liniaru tueddiadau gwybyddol** mewn polisi diogelwch gwladol a rhyngwladol. Roedd y Tîm Arloesi Agored wedi edrych ar amrywiaeth o ddulliau 'dadansoddi amgen', wedi archwilio mentrau presennol a chyf-weld deg swyddog a 17 o arbenigwyr allanol, yn cynnwys academwyr.
    - **Defnyddio dulliau gwrthwynebol** i herio a rhoi prawf ar syniadau newydd o safbwynt trydydd partïon a oedd yn cynnwys, ymysg eraill, gynghreiriaid a gwrthwynebwyr.
    - **Grwpiau darllen** o uwch-swyddogion sydd ag arbenigedd mewn pynciau penodol o blith adrannau ac asiantaethau llywodraeth er mwyn cyfrannu i'r Fframwaith Strategol wrth ei ddatblygu a darparu adborth amdano.
    - **Grwpiau her** i drafod rhagdybiaethau a barnau allweddol yn yr Adolygiad Integredig, gyda chyfranwyr ar draws llywodraeth a'n rhwydwaith tramor.

- **Sicrhau ansawdd** ym mhob cam o broses yr Adolygiad Integredig er mwyn asesu'r defnydd o dystiolaeth ar sail fframwaith, gwirio ffigurau a darparu adborth ynghylch a oedd yr Adolygiad Integredig yn cynnig damcaniaeth newid glir.

## Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

17. Mae rhaglen ymgysylltu, dadansoddi ac asesu'r Adolygiad Integredig wedi amlygu eto yr angen am wella'r defnydd o dystiolaeth ar draws llywodraeth. Rydym wedi ymrwymo i wella'r defnydd o dystiolaeth, dadansoddi a herio, yn cynnwys yr hyn a geir o ffynonellau amrywiol, wrth ddatblygu a chyflawni strategaeth diogelwch gwladol a rhyngwladol.

# Atodiad C: Rhestr termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| ARDG | Asesiad Risg Diogelwch Gwladol |
| ASEAN | Cymdeithas Cenhedloedd De-ddwyrain Asia |
| BEIS | Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol |
| CBRN | Cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear |
| CJEF | Cyd-fyddin Alldeithiol Gyfunol |
| CO | Swyddfa'r Cabinet |
| COBR | Ystafelloedd Briffio Swyddfa'r Cabinet |
| COP26 | 26ain Gynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd |
| COVAX | COVID-19 Vaccines Global Access |
| CPTPP | Cytundeb Cynhwysfawr a Chynyddol y Bartneriaeth Draws-Basiffig |
| CTOC | Y Ganolfan Gweithrediadau Gwrthderfysgaeth |
| CThEM | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| DCMS | Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon |
| DHSC | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Dstl | Y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn |
| FCAS | Future combat air system |
| FCDO | Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu |
| FPDA | Trefniadau Amddiffyn y Pum Pŵer |
| GCHQ | Pencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU |
| HO | Y Swyddfa Gartref |
| MHCLG | Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol |
| MOD | Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| NATO | Sefydliad Cytuniad Gogledd Iwerydd |
| NCA | Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| NCF | Y Llu Seiber Cenedlaethol |
| NCSC | Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol |
| NCSP | Y Rhaglen Seiberddiogelwch Genedlaethol |
| NECC | Y Ganolfan Troseddu Economaidd Genedlaethol |
| NSC | Y Cyngor Diogelwch Gwladol |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |

| **Term** | **Diffiniad** |
|---|---|
| **OSCE** | Y Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithredu yn Ewrop |
| **RAF** | Yr Awyrlu Brenhinol |
| **SIS** | Y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol – a elwir hefyd yn MI6 |
| **UE** | Yr Undeb Ewropeaidd |
| **UNHCR** | Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig |

CCS: CCS0221035122
ISBN: 978-1-5286-2453-4